Welsh Government

Adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Diweddariad ar y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel

Mehfin 2019

Cynnwys

	Tudalen
Un – Crynodeb	2
Dau – Y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel	5
Tri – Cynnydd hyd Yma	7
Pedwar – Camau Nesaf	11
Atodiad A - Diweddariad yr Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Seiliedig ar Dystiolaeth a Chudd-wybodaeth	12
Atodiad B - Diweddariad yr Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Cael ei Ategu gan Wybodaeth a Sgiliau Priodol	14
Atodiad C - Diweddariad yr Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Cael Adnoddau mewn Modd Cynaliadwy ac yn Briodol yn Lleol	17
Atodiad CH - Diweddariad yr Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Ataliol ac yn Ymyrryd Mor Gynnar â Phosibl	19
Atodiad D - Diweddariad yr Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Canolbwyntio ar Welliannau a Manteision Hirdymor	20

UN

Crynodeb

Yn 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus gydlynu ymagwedd strategol at ddiogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd, ac yn tanseilio'r potensial i helpu pobl i gadw'n ddiogel.

Rydym yn cytuno gyda chasgliad sylfaenol yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd, fodd bynnag, byddem yn pwysleisio'r pwynt fod diogelwch cymunedol yng Nghymru yn faes cymhleth am lawer o resymau. Eir i'r afael â'r materion hyn yn fras isod, ac yn fanylach ym mhrif benodau'r adroddiad hwn, ac maent yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- (i) Cymhlethdod cyflawni swyddogaethau heb eu datganoli mewn tirwedd ddatganoledig. Mae hwn yn rhywbeth sy'n effeithio ar draws pob lefel, yn wleidyddol ac yn weithredol.**

Mae plismona yng Nghymru wedi'i ddatganoli i'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd, sydd, ynghyd â'r pedwar Prif Gwnstabl, â pherthynas weithio agos a chynhyrchiol gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae Bwrdd Plismona Cymru yn sicrhau deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstablaid bob chwarter – cafodd cyfarfod mis Chwefror yn gynharach eleni ei Gadeirio gan y Prif Weinidog ac roedd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (a fydd yn Cadeirio bob yn ail rhyngddynt yn y dyfodol) yn bresennol hefyd.

Rydym yn gweithio'n agos iawn gydag adrannau Llywodraeth y DU am fod polisi cyfiawnder troseddol wedi'i ddatblygu i sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl gyda gwasanaethau datganoledig yng Nghymru. Er enghraifft, yn ddiweddar ymatebom i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar ddyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi dull amlasiantaeth o atal a mynd i'r afael â thrais difrifol. Gofynasom a fyddai gan yr opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio (sef opsiwn un yn y ddogfen ymgynghori¹ - i ddeddfu i roi dyletswydd newydd ar sefydliadau penodol i roi sylw dyledus i atal a mynd i'r afael â thrais difrifol) y cymhwysedd deddfwriaethol i osod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaeth datganoledig yng Nghymru. Dim ond un enghraifft o lawer yw hon sy'n dangos y modd y gweithiwn gydag adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod eu polisiâu a'u deddfwriaeth yn briodol i dirwedd Cymru.

¹ <https://www.gov.uk/government/consultations/serious-violence-new-legal-duty-to-support-multi-agency-action>

(ii) Mae cymhlethdod a nifer y grwpiau a'r sefydliadau ar lefel ranbarthol a lleol yn creu her sylweddol o ran arweinyddiaeth strategol a chydgyssylltiedig a chysondeb.

Mae cyfarfodydd cynhyrchiol a chydweithredol sy'n rhychwantu'r dirwedd ddatganoledig ac annatganoledig yn cael eu cynnal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Er enghraifft, mae gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan gynrychiolaeth o blith sefydliadau sy'n cynnwys y Gwasanaeth Carchardai, y Gwasanaethau Llysoedd, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstablaid, y Trydydd Sector yng Nghymru, llywodraeth leol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd strategol Cymru gyfan hwn yn darparu cyfeiriad ac yn pennu blaenoriaethau gwaith ar gyfer Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwy Cymru (IOM Cymru) ar lefel ranbarthol². Fodd bynnag, islaw'r lefel ranbarthol, mae'r dirwedd sefydliadau a grwpiau yn lleol yn orlawn, yn gymhleth ac yn aml heb eu cydgyssylltu neu'n gyson, gyda'r un bobl o'r un sefydliadau yn mynychu cyfarfodydd aml ar themâu tebyg neu gysylltiedig. Nid yw'r "neges" neu'r uchelgais bob amser yn glir nac yn gyson ar draws y grwpiau amrywiol, ac efallai nid y rhain sy'n sicrhau'r budd gorau o ran y blaenoriaethau a'r amcanion cenedlaethol a rhanbarthol.

Rydym wedi cwblhau darn o waith sydd wedi nodi'r grwpiau cenedlaethol a rhanbarthol mwyaf arwyddocaol. Mae rheolwr llywodraeth leol y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn cyfarfod yn rheolaidd erbyn hyn gydag awdurdodau lleol a grwpiau a sefydliadau lleol eraill (h.y. byrddau troseddau difrifol a threfnedig lleol) i ddeall, a lle bo'n briodol, helpu'r grwpiau hyn i gysoni'n well gyda'r strwythur cenedlaethol a rhanbarthol. Rydym yn cydnabod y cymer amser i gyflawni'r elfen hon o waith y rhaglen, er bod rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud yn barod, er enghraifft, yng Ngwent mae'r holl sefydliadau lleol yn gweithredu o dan ambarél Gwent Mwy Diogel³ erbyn hyn sy'n eu galluogi i fabwysiadu ymagwedd fwy cydgyssylltiedig a holistaidd at gomisiynu gwasanaethau.

Yn ogystal, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gofyn i'r Gweithgor ar Lywodraeth Leol i gyflwyno gwaith datblygol ar fapio partneriaethau yng nghyfarfod mis Medi'r Gweithgor. Nod y gwaith hwn yw ceisio lleihau cymhlethdod mewn llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus, llywodraeth leol a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus eraill, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

(iii) Data – ar hyn o bryd mae toreth o sefydliadau yn casglu data ond nid yw bob amser yn gyson ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Ac yn aml, nid yw sefydliadau yn ei rannu i'w ddefnyddio ar sail amlasiantaeth.

Mae'n ofynnol rhannu a dadansoddi data ar lefel amlasiantaeth fel sail ar gyfer gweithio effeithiol mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol, ac mae hwn yn dal yn wendid mawr ledled Cymru. Mae rhwystrau sylweddol, fel diffyg adnoddau, diwylliant data gwrth-risg a threfniadau protocol rhannu gwybodaeth bersonol aneffeithiol yn dal i rwystro gwaith ymyrryd ac atal cynnar ar sail amlasiantaeth. Er bod ymarfer da i'w gael yng Nghymru, er enghraifft, Bwrdd Troseddau Difrifol a

² <https://www.iomcymru.org.uk>

³ <http://www.gwent.pcc.police.uk/engagement/partnerships/safer-gwent/>

Threfnedig Casnewydd a gafodd, ym mis Chwefror⁴, ei ganmol am ei ddull partneriaeth amlasiantaeth wrth ddelio â throseddau difrifol a threfnedig ar lefel leol, unigryw yw'r achosion hyn.

Mae gweithgor wrthi'n datblygu achos busnes cynhwysfawr dros fuddsoddiad aml-bartneriaid yn yr adnoddau dadansoddol angenrheidiol a thechnolegau 'rhannu data' digidol i gefnogi penderfyniadau strategol a thactegol, cynllunio gwasanaethau a chomisiynu gwell.

(iv) Adnoddau, o ran arian a staffio rheng flaen.

Mae'n amlwg o'n trafodaethau partneriaeth gyda llywodraeth leol a phartneriaid eraill, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) sefydliadau'r trydydd sector a darparwyr gwasanaethau diogelu, bod yna gydewylllys i weithio gyda ni i gyflawni'r rhaglen hon ac ymateb i fygythiad troseddau difrifol a threfnedig ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, un thema gyffredin yw, ar ôl cyfnod hir o gyni, bod diffyg capasiti a gallu cyffredinol i symud o sefyllfa gyflawni ymatebol i un ragweithiol. Mae niferoedd staff rheng flaen sefydliadau wedi'u gostwng yn ddifrifol, ac mae hyn wedi rhwystro'r agenda cyflawni'n ddifrifol, gydag effaith sylweddol ar swyddogaethau a rhaglenni diogelwch cymunedol. Mae Is-gadeirydd Bwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel (Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, yr Is-adran Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru) wedi bod yn glir iawn wrth nodi bod y rhagolwg ar gyfer cyllid cyhoeddus yn dal yn heriol iawn, a'i bod yn annhebygol y bydd unrhyw gyllid neu adnoddau ychwanegol ar gael i gefnogi'r rhaglen, ac eithrio'r adnodd rhaglen amser llawn bwrpasol sydd eisoes wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a rheolwr cyflawni llywodraeth leol a ariennir ar y cyd. Bydd angen i bartneriaid barhau i nodi cyfleoedd i weithio'n graffach a gyda'i gilydd er mwyn cysoni'u gweithgareddau diogelwch cymunedol o fewn eu "busnes fel arfer".

Mewn rhai ardaloedd - fel Gogledd Cymru a Sir Benfro - mae gwaith uchelgeisiol yn mynd rhagddo i ddatblygu cynhyrchion cudd-wybodaeth priodol i gefnogi ac ysgogi gweithio mewn partneriaeth mwy effeithiol. Mae Gogledd Cymru wrthi'n adolygu ei 'dirwedd' partneriaeth hefyd gyda'r bwriad o ad-drefnu a symleiddio strwythurau, dileu dyblygu a chyflawni gwell cysondeb mewn perthynas â mynd i'r afael â bregusrwydd cymunedau ac unigolion a chamfanteisio'n droseddol arnynt (e.e. llinellau cyffuriau, caethwasiaeth fodern, camfanteisio'n rhywiol ar blant).

(v) Nid yw meysydd polisi cysylltiedig yn cael eu cysoni'n rheolaidd ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.

Mae anghysondeb o ran nodau, amcanion a gweithredu polisi ar draws y partneriaid amrywiol yn fater pwysig. Un darn o waith allweddol yn hyn o beth yw datblygu Fframwaith Trais Difrifol ar gyfer Cymru, a gomisiynwyd ar y cyd gan y pedwar

⁴ <https://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/News/articles/2019/February-2019/Praise-for-partnership-project-tackling-Serious-and-Organised-Crime.aspx>

Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac a ddatblygwyd ar y cyd gydag Uned Trais a Bregusrwydd y Swyddfa Gartref ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y fframwaith, sydd i'w lansio ym mis Gorffennaf, yn darparu pecyn cymorth a chanllawiau effeithiol i danategu gweithio mewn partneriaeth yn lleol – law yn llaw â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cudd-wybodaeth sy'n briodol yn lleol mewn perthynas â throseddau difrifol a threfnedig, gangiau a thrais difrifol.

DAU

Y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel

Mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad manwl o ddiogelwch cymunedol yng Nghymru a ddaeth i ben gyda chyhoeddi'r adroddiad *Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel*⁵ yn Rhagfyr 2017. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys 11 o argymhellion i wella gwaith diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Fe wnaeth yr adolygiad bennu cydweledigaeth newydd ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru hefyd, lle:

1. Mae pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n darparu cyfle cyfartal a chyfiawnder troseddol, cydnerthedd a chynaliadwyedd ar gyfer pawb;
2. Mae gan y llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydgyfrifoldeb am gydweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r sector preifat i fynd i'r afael â gweithgarwch neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol, yn niweidiol i unigolion a'r gymdeithas ac i'r amgylchedd;
3. Bydd rhannu gwybodaeth a sicrhau yr ymyrrir yn gynnar gyda chamau gweithredu prydlon, cadarnhaol yn mynd i'r afael â materion lleol ac yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed.

Mae'n nodi y bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu trwy weithgarwch cydweithredol ac amlasiantaeth integredig sydd:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
- Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
- Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
- Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
- Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
- Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.

Y rhain yw'r **egwyddorion allweddol** sydd, ynghyd ag 11 o ymrwymadau blaenoriaeth a gynlluniwyd i gefnogi gwireddu'r gydweledigaeth hon ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru, yn ffurfio Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru (2018-2020) erbyn hyn.

Mae'r rhaglen yn cael ei dwyn yn ei blaen o dan gyfarwyddyd bwrdd rhaglenni amlasiantaeth, dan gadeiryddiaeth Jane Hutt AC, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

Mae aelodaeth bwrdd y rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o blith:

- Llywodraeth Cymru;
- Y Swyddfa Gartref;
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;

⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/working-together-for-safer-communities.pdf>

- Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstablaid Cymru (Grŵp Plismona yng Nghymru);
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC);
- Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol;
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi;
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) Cymru;
- Prif Swyddogion Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyfiawnder Cymunedol Cymru; a
- Byrddau Iechyd Lleol (BILLau) Cymru.

Mae cynllun cyflawni'r rhaglen yn seiliedig ar ffrydiau gwaith ar gyfer pob un o'r chwe egwyddor allweddol er mwyn cyflawni'r 11 o ymrwymadau blaenoriaeth yn y rhaglen yn y modd gorau, gan gynnwys:

- gweithio gyda'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru i nodi opsiynau ar gyfer datblygu system gyfiawnder ar wahân i Gymru;
- sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref ynglŷn â phriodoldeb y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn wreiddiol fel y mae'n berthnasol i Gymru;
- datblygu rôl arwain strategol wedi'i diffinio'n gliriach i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol;
- sefydlu swyddogaeth polisi ac arfer partneriaeth diogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru;
- datblygu canllawiau newydd i Gymru ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol;
- ystyried sut i sefydlu Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cymru a llyfrgell adnoddau ar-lein;
- archwilio cyfleoedd ar gyfer arolygu thematig ar y cyd mewn perthynas â'r thema 'lleihau aildrosedd';
- ystyried sut i wella rhaglenni ariannu diogelwch cymunedol i sicrhau dulliau mwy hirdymor, gan roi mwy o hyblygrwydd a ffocws ar ganlyniadau diogelwch cymunedol;
- gwella trefniadau rhannu data, datblygu data a dadansoddi data ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.

Mae'r ddau ymrwymiad arall wedi'u gohirio dros dro hyd nes y cyhoeddir adroddiad y 'Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru'⁶ yn ddiweddarach eleni, gan eu bod yn effeithio'n uniongyrchol ar y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a datganoli'r polisi cyfiawnder ymhellach i Gymru, gan gynnwys p'un a yw Deddf Trosedd ac Anhrefn⁷ (fel y'i diwygiwyd) yn dal yn addas i'r diben i'w chyflawni yng Nghymru.

Mae Uwch-swyddog Cyfrifol (SRO) o fwrdd y rhaglen wedi'i benodi i arwain pob un o'r chwe ffrwd waith. Mae'r bwrdd wedi cytuno y bydd y cynllun cyflawni yn defnyddio methodoleg arweinyddiaeth wasgaredig i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, ei fod yn defnyddio dull cydweithredol ac integredig, ac yn

⁶ <https://gov.wales/commission-justice-wales>

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/contents>

rhoi pwyslais ar gamau gweithredu cynaliadwy sy'n atal neu'n ymyrryd mor gynnar â phosibl.

Bydd gweithredu'r rhaglen yn canolbwyntio i ddechrau ar Droseddau Difrifol a Threfnedig (SOC) a gweithgarwch 'llynellau cyffuriau' cysylltiedig a thrais difrifol, gan y cytunwyd mai'r rhain oedd y blaenoriaethau pennaf ar gyfer yr holl bartneriaid ac ardaloedd yng Nghymru.

TRI

Cynnydd hyd Yma

Daeth y Grŵp Goruchwylio a arweiniodd yr adolygiad o ddiogelwch cymunedol yng Nghymru yn Fwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel ar ddechrau 2018. Mae cadw'r aelodaeth a'r arbenigedd fel hyn wedi darparu parhad ac arweinyddiaeth gyson.

Ers symud o'r cam adolygu i'r cam gweithredu a chyflawni yng nghanol 2018, mae'r grŵp wedi:

- Ymgorffori ymagwedd "iechyd y cyhoedd"⁸ wrth wraidd ein rhaglen, yn gyson â chytundeb partneriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru gydag asiantaethau plismona a chyfiawnder troseddol ledled Cymru, gan sicrhau adnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEau) ac ymarfer wedi'i lywio gan drawma mewn gwaith partneriaeth i wella diogelwch⁹;
- Parhau â gwaith i gysoni'n well agweddau penodol ar waith i wella diogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys; camddefnyddio sylweddau, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV), cydlyniant cymunedol a chyfiawnder ieuenctid, diogelu, tai ac iechyd (er enghraifft, trwy fabwysiadu ymagwedd polisi cydgysylltiedig ar gyfer datblygu'r glasbrintiau cyfiawnder);
- Sefydlu ffrwd waith i ystyried opsiynau a datblygu achos i oresgyn y rhwystrau a'r materion dynodedig amrywiol rhag rhannu data partneriaeth, datblygu data a dadansoddi data – mae papur wedi'i baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan a'r camau nesaf fydd datblygu achos busnes manwl ar gyfer cymorth dadansoddol ychwanegol;

⁸ Trwy ddiffiniad, nod iechyd y cyhoedd yw darparu'r **budd pennaf i'r nifer fwyaf o bobl** drwy amlygu rhan eang o boblogaeth i **fesurau atal** a lleihau ac atal trais ar **lefel poblogaeth** a cheisio gwella **iechyd a diogelwch pob unigolyn** drwy fynd i'r afael â **ffactorau risg sylfaenol** sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dioddef neu'n cyflawni trais.

⁹ *Mae sefydliadau iechyd y cyhoedd, plismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru yn arwain newid trawsffurfiol sy'n mynd i'r afael ag achosion gwraidd ymddygiad troseddol, gan fabwysiadu ymagwedd wedi'i llywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac iechyd y cyhoedd, a galluogi'r heddlu i gymryd mesurau ataliol wrth ddelio â phobl fregus er mwyn eu cadw allan o'r system cyfiawnder troseddol, gan dorri'r cylch troseddu rhwng cenedlaethau a gwella bywydau.*

- Sefydlu ffrwd waith i ddatblygu rhwydwaith diogelwch cymunedol i Gymru, a fydd yn cynnwys porth ar-lein, rhaglenni hyfforddi a chyfeirio a deunyddiau a dogfennau canllaw, erbyn diwedd y flwyddyn hon;
- Pennu ffocws newydd i grŵp Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru fel bod ganddo fwy o ffocws ac ysgogiad strategol. Mae'r Gymdeithas yn trefnu cynhadledd deuddydd ar ddiogelwch cymunedol Cymru gyfan a fydd yn cael ei hagor a'i chau gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru, a bydd yn cynnwys sesiynau cynhadledd lawn a sesiynau gweithdy ar faterion yn cynnwys camfanteisio, troseddau difrifol, a rhannu data. Mae'r digwyddiad i'w gynnal yng Ngwesty Coldra Court, Casnewydd¹⁰ a bydd yn gwirio'r ymagwedd a'r fethodoleg rydym wedi'i datblygu hyd yma ar gyfer y rhwydwaith diogelwch cymunedol i Gymru;
- Dechrau gwaith gydag awdurdodau lleol, heddluoedd a grwpiau troseddau difrifol a threfnedig i adfywio diogelwch cymunedol ar lefel ranbarthol a lleol a sicrhau cysondeb, synergedd a chydgyssylltiad. Mae proffiliau problemau lleol ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol wrthi'n cael eu datblygu, a byddant yn cael eu hystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel ym mis Medi i allu, er enghraifft, cael darlun cenedlaethol o weithgarwch lleol er mwyn ystyried materion ymhellach fel cysondeb, dyblygu, cyffredinedd ac adnoddau.

Gwahoddwyd pob Uwch-swyddog Cyfrifol i ddarparu diweddariad prosiect ar gyfer yr adroddiad hwn, a lle bo'n berthnasol, mae'r rhain wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad hwn. Yn ogystal, mae crynodeb byr o gynnydd penodol yn erbyn pob un o'r ffrydiau gwaith hyn fel a ganlyn (fel y'u codwyd o adroddiad diweddar gan fwrdd y rhaglen):

I. Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth – Uwch-swyddog Cyfrifol: Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys

- Mae grŵp ffrwd waith amlasiantaeth yn archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella trefniadau rhannu gwybodaeth, capasiti dadansoddi a chapasiti ymchwil ar draws diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder troseddol ac i geisio gwell cysondeb rhwng data a systemau a phrosesau dadansoddi. Mae'r grŵp wedi cwblhau 'cyfrif stoc' er mwyn deall y materion, y rhwystrau ac atebion posibl i drefniadau rhannu data gwell a chapasiti dadansoddi gwell.
- Gan ddefnyddio'r data cychwynnol a gasglwyd drwy'r ymarferiad cyfrif stoc, mae'r grŵp bellach yn cynorthwyo Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan a Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru (IOM Cymru) i ddatblygu achos busnes dros gapasiti dadansoddi 'partneriaeth' ychwanegol – naill ai'n genedlaethol, yn ranbarthol neu'r ddau – ac i ddatblygu mecanweithiau tasg a chomisiynu data/dadansoddi priodol o fewn diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder troseddol.
- Mae aelodau grŵp y ffrwd waith yn amcanu i wella'r cysondeb rhwng rhaglenni

¹⁰ <https://www.eventbrite.com/e/building-safer-communities-tickets-62045592036>

presennol er mwyn sefydlu llwyfannau rhannu data amlasiantaeth (arsyllfeydd/storfeydd data) a systemau (pontio, cloddio a glanhau data, dysgu peiriant, ac ati).

- Mae aelodau'r grŵp yn gysylltiedig hefyd â datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth penodol (o dan ambarél "Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru" (WASPI)) a threfniadau rhannu data amlasiantaeth rhanbarthol/lleol i gefnogi datblygu asesiadau amlasiantaeth effeithiol o anghenion, neu broffiliau problemau, yn canolbwyntio ar linellau cyffuriau a mathau eraill o gamfanteisio troseddol. Bydd y rhain yn helpu llywio gweithio mewn partneriaeth yn lleol.

II. Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol – Uwch-swyddog Cyfrifol: Chris Davies, Prif Swyddog, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

- Mae'r ffrwd waith hon wedi'i rhannu yn dri maes (mewn trefn blaenoriaeth): datblygu rhwydwaith diogelwch cymunedol Cymru gyfan; cronfa ddata hyfforddiant ar-lein Cymru gyfan; a datblygu canllawiau diogelwch cymunedol penodol i Gymru.
- Mae gwaith wedi mynd rhagddo'n dda ac mae eisoes wedi adfywio a rhoi ffocws newydd i Gymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru i fod yn ganolbwynt ar gyfer datblygu'r tri maes gwaith (gweler y pwynt bwled uchod) a bydd cynhadledd deuddydd yn cael ei chynnal ar 1 a 2 Gorffennaf (fel y nodwyd ar dudalen 7) er mwyn lledaenu a lansio'r gwaith hwn. Erbyn mis Medi rydym eisieu gweld cynnydd sylweddol a map ffordd o ran sut y byddwn yn cyflawni'r tair blaenoriaeth.
- Mae'r gweithgor wedi tynnu toreth o ganllawiau presennol ar ddiogelwch cymunedol a deunydd cyfeirio at ei gilydd, a'r cam nesaf fydd ystyried hyn ymhellach ar sail amlasiantaeth a cheisio dileu'r dyblygu a'r cymhlethdod (presennol). Bydd y ddogfen/dogfennau canllawiau yn cael eu hystyried a'u datblygu erbyn diwedd y flwyddyn, a bydd/ant yn cynnwys diweddariad o'r deunydd presennol i adlewyrchu tirwedd ddeddfwriaethol Cymru (er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

III. Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol – Uwch-swyddog Cyfrifol: Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr, CLILC

- Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i gefnogi'r 'adnewyddu' ledled Cymru o ran trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a rhannu ymarfer a dysgu effeithiol ar hyd a lled Cymru.
- Mae'r gwaith hwn yn cynnwys tri maes penodol: cefnogi gweithio mewn partneriaeth yn lleol; cysoni â blaenoriaethau partneriaethau lleol o fewn y darlun rhanbarthol a chenedlaethol; a darparu adnoddau. Mae'r sefyllfa'n un amrywiol ar draws awdurdodau, ond mae'n hanfodol fod partneriaethau lleol yn deall ac yn diffinio beth yw eu problemau lleol – h.y. lle ceir bregusrwydd a lle mae angen ymyrryd yn gynnar ac atal, a fydd yn galluogi datblygu gwaith y proffil problemau lleol (fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol).

IV. Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys – Uwch-swyddog Cyfrifol: Bernie Bowen-Thomson, Cadeirydd Cyfiawnder Cymunedol Cymru

- Mae'r ffrwd waith hon yn datblygu ac yn profi ymagwedd i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth/llais dinasyddion wrth lywio a chyfranogi mewn datblygu gwasanaethau ar gyfer menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys darparu digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer menywod i drafod eu profiadau (gan gynnwys beth wnaeth atal dilyniant cadarnhaol, beth wnaeth eu helpu/beth fyddai wedi'u helpu); ac astudiaethau achos yn ymwneud â menywod sydd â phrofiadau o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ddatblygu'r glasbrint troseddau menywod. Manteision ychwanegol sy'n deillio o'r cyfle pendant hwn yw'r potensial ar gyfer datblygu methodoleg ymgysylltu a all lywio canllawiau i bartneriaid ac asiantaethau sy'n chwilio am strategaeth llais dinasyddion/defnyddwyr mewn cyd-destun ehangach: darparu egwyddorion, canllawiau ac enghreifftiau i lywio unrhyw ddatblygiadau pecyn cymorth.
- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad (yng Ngogledd Cymru a De Cymru) ym mis Mawrth i ddiweddarau maniffesto¹¹ 2015 Cyfiawnder Cymunedol Cymru. Mae'r maniffesto yn nodi'r modd y bydd sefydliadau'r trydydd sector yn ymgysylltu ac yn cyflawni ar gyfer dinasyddion ac yn ceisio dylanwadu ar feddwl Llywodraeth (y DU a Chymru) (h.y. datblygu'r glasbrint troseddau menywod). Nodwyd cyfleoedd gan y gwaith hwn, a pharodrwydd gan y trydydd sector i ymgysylltu yn y maes cyfiawnder troseddol, a fydd yn cael ei gynnwys yn y maniffesto wedi'i ddiweddarau am y tro cyntaf fel maes polisi penodol.
- Mae'r gwaith o ddatblygu Datganiad Gweledigaeth Pobl Ifanc yn parhau, ar y cyd â BCI Cymru, a bydd hwn yn cael ei gwblhau yn yr hydref.

V. Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl – Uwch-swyddog Cyfrifol: Janine Roderick, arweinydd rhaglenni lechyd Cyhoeddus Cymru a Julian Williams, Prif Gwnstabl ar gyfer Gwent

- Mae'r ffrwd waith hon yn ceisio adeiladu ar bartneriaeth sefydledig lechyd Cyhoeddus Cymru gyda phlismaona a chyfiawnder troseddol ledled Cymru, a reolir trwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan drwy ymestyn y cytundeb partneriaeth i gynnwys llywodraeth leol, gwasanaethau tân ac achub, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Chyfiawnder Cymunedol Cymru. Bydd hyn yn hyrwyddo'r defnydd o'r 'ymagwedd iechyd y cyhoedd' – sydd wedi'i hymgorffori yn y cytundeb partneriaeth – ar draws gwaith mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol, plismaona a chyfiawnder troseddol, ac yn galluogi Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan i wir adlewyrchu 'ymagwedd system gyfan' at blismaona a chyfiawnder yng Nghymru.
- Mae Uwch-swyddog Cyfrifol ffrwd waith lechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi bwrdd y rhaglen i ddatblygu ymagwedd 'sicrhau ansawdd' at waith a gweithgarwch parhaus y 5 ffrwd waith ategol arall ar sail y model pedwar cam a ddiffinnir bellach fel yr 'ymagwedd iechyd y cyhoedd' – 1) diffinio a monitro'r broblem; 2) nodi risg a ffactorau amddiffynnol; 3) datblygu a phrofi atal; 4) gweithredu.

¹¹ https://www.wcva.org.uk/media/2436889/cjc_manifesto_-_final_2015_eng.pdf

- Mae Uwch-swyddog Cyfrifol ffrwd waith lechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi bwrdd y rhaglen wrth ddatblygu sylfaen ymchwil/dystiolaeth gadarn¹² ar gyfer polisi ac ymarfer diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder troseddol (mae cyswllt agos rhyngddi â'r ffrwd waith gyntaf a'r ail ffrwd waith) gan gynnwys cydweithio i sefydlu system gwyliadwriaeth trais Cymru gyfan ac Uned Lleihau Trais Cymru.
- Mae Uwch-swyddog Cyfrifol y Prif Gwnstabl yn goruchwylio trafodaethau rhwng yr arolygiaethau datganoledig ac annatganoledig a chyfundrefnau archwilio i dreialu dulliau 'arolygu thematig ar y cyd' o fis Tachwedd 2019 ymlaen, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddiogelu yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â cham-fanteisio troseddol, drwy edrych ar y thema ehangach 'lleihau aildroseddu'.

VI. Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor – Uwch-swyddog Cyfrifol: Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

- Mae deialog draws-lywodraethol rhwng swyddogion a Gweinidogion Adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) i wella cyflawni ar draws y dirwedd ddatganoledig/annatganoledig yn parhau, gyda ffocws ar ddatblygu glasbrintiau cyflawni cyfiawnder ar wahân ar gyfer pobl ifanc a menywod, diwygio Gwasanaeth Prawf Cymru a'r ymgysylltiad parhaus trwy Fwrdd Plismona Cymru.
- Mae deialog ryngadrannol rhwng swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru ar themâu allweddol yn ymwneud â diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder troseddol yn cael ei sefydlu gyda ffocws ar strwythurau (e.e. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Parôl Rhanbarthol, Byrddau Diogelu, ac ati) ac olion traed lleol/rhanbarthol, ac mae cyfleoedd yn cael eu harchwilio ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng ardaloedd awdurdod lleol.

(Gweler tudalen 20 am naratif manylach).

PEDWAR

Camau Nesaf

Mae'r gwaith o weithredu'r rhaglen yn parhau, a disgwyliwn y bydd cynnydd pellach yn cael ei wneud erbyn yr adroddiad diweddar nesaf y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Tachwedd.

Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i gwblhau ei gwaith erbyn y gwanwyn 2020, cyn diwedd y cyfnod Llywodraeth hwn, pan ddisgwyliwn y bydd cyflawni yn symud o ymagwedd "gorchwyl a gorffen", fel gwaith y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, i ymagwedd sydd wedi'i gwreiddio mewn "busnes fel arfer", gan barhau i gyflawni diogelwch cymunedol o fewn y cwrmpas cyllid ac adnoddau presennol sydd ar gael.

¹² <https://www.rsph.org.uk/our-work/resources/early-action-together-learning-network/about-the-programme.html>

Byddwn yn amcanu i archwilio opsiynau cynaliadwyedd er mwyn deillio ymagwedd “busnes fel arfer” dros y misoedd i ddod, gan gynnwys ym mha fodd y gall llywodraeth leol a rhanddeiliaid/ grwpiau eraill weithio’n graffach ac o fewn strwythurau’r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, er enghraifft, trwy weithio amlasiantaeth gwell a rhannu data a gwybodaeth ddadansoddol yn well, a thrwy, er enghraifft, sicrhau bod gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan oruchwyliaeth a chyfrifoldeb strategol.

Rydym yn gwybod fod llawer o heriau wedi’u trafod yn yr adroddiad hwn sy’n cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ein gallu i gyflawni’r rhaglen hon. Fodd bynnag, rydym ni’n elwa yng Nghymru o agwedd “gallu gwneud” gan bob un o’n partneriaid cyflawni, a pharodrwydd pawb i wella gwasanaethau ar gyfer dinasyddion Cymru.

Rydym wedi dweud ar hyd yr amser mai rhaglen amlasiantaeth yw hon, ac mae’n angenrheidiol cydweithredu wrth i barhau i weithredu’r rhaglen waith hon ar sail amlasiantaeth, arweinyddiaeth wasgaredig, gyda phob Uwch-swyddog Cyfrifol yn atebol am gyflawni ei faes ffrwd waith ei hun. Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i dechnegau ymyrryd yn gynnar ac atal (i geisio dargyfeirio pobl i ffwrdd oddi wrth y broses cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf, drwy ein polisïau a’n mentrau) wrth i ni weithredu’r rhaglen hon, mewn cyd-destun lle gwelir adnoddau cyfyngedig sy’n prinhau, a’r heriau a grëir gan yr anhysbys sy’n gysylltiedig â BREXIT, er enghraifft.

Byddwn yn darparu adroddiad ysgrifenedig pellach erbyn diwedd mis Tachwedd, yn unol â’r cais. Pe bai’r Pwyllgor yn dymuno trafod cynnwys yr adroddiad hwn yn fanylach, yna bydden yn hapus i roi diweddariad llafar, ymhellach i’n diweddariad llafar blaenorol fis Tachwedd diwethaf, ar ddyddiad sy’n gyfleus.

Atodiad A

Diweddariad Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Seiliedig ar Dystiolaeth a Chudd-wybodaeth, Dafydd Llywelyn


Daeth yr Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel i'r casgliad yn 2017 bod y trefniadau rhannu a dadansoddi data amlasiantaeth a fynnir fel sail ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yn parhau yn wendid mawr ledled Cymru, a bod rhwystrau sylweddol fel diffyg adnoddau, diwylliant data gwrth-risg a threfniadau protocol rhannu gwybodaeth bersonol aneffeithiol yn dal i atal awdurdodau cyfrifol rhan bodloni'u gofynion statudol yn ddigonol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (fel y'i diwygiwyd).

Mae Bwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel wedi ymrwymo felly i weithio at fynd i'r afael â'r materion hyn i gynorthwyo partneriaid i gyflawni'r weledigaeth a rennir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth 'yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth' i fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol. Cafodd gweithgor yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o'r holl sectorau perthnasol ei sefydlu ym mis Tachwedd, ac aeth ati'n gyflym i nodi nifer o raglenni strategol allweddol sy'n cael anhawster goresgyn rhwystrau rhag rhannu data a dadansoddi data'n effeithiol, yn cynnwys:

- Trefniadau Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) ledled Cymru;
- Rhaglenni Llwybrau Lleihau Aildrosedd Cymru a datblygu glasbrintiau 'cyflawni cyfiawnder' ar gyfer menywod a phobl ifanc sy'n troseddu;
- Adroddiadau gwyliadwriaeth trais lechyd Cyhoeddus Cymru, a gwaith i ymgorffori ymagwedd rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid, Camau Cynnar gyda'n Gilydd;
- Dealltwriaeth a chyfranogiad gan bartneriaethau mewn asesiadau o anghenion/proffiliau problemau a chynlluniau amlasiantaeth i fynd i'r afael â Throseddau Difrifol a Threfnedig, trais difrifol a gweithgarwch o fath llinellau cyffuriau.

Mae'r materion a'r rhwystrau hyn wedi cael eu trafod dro ar ôl tro yng nghyfarfodydd Bwrdd IOM Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan a fforymau cenedlaethol cysylltiedig eraill ac, ar gais Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, cwblhaodd y gweithgor arolwg 'cyfrif stoc' cyflym o'r holl bartneriaid diogelwch cymunedol allweddol ledled Cymru gyda'r bwriad o lywio datblygu 'achos busnes' ar gyfer buddsoddi mewn dadansoddwyr 'partneriaeth' ychwanegol ac atebion technegol i gynorthwyo rhannu gwybodaeth yn well.

Mae'r gweithgor wrthi nawr yn datblygu achos busnes cynhwysfawr dros fuddsoddiad aml-bartneriaid yn yr adnoddau dadansoddol angenrheidiol a thechnolegau 'rhannu data' digidol ategol i gefnogi penderfyniadau strategol a thactegol, cynllunio gwasanaethau a chomisiynu gwell, gan gydnabod y gorgyffwrdd sylweddol yn yr agendâu a ddangosir isod.



Bydd yr achos busnes sy'n cael ei ddatblygu yn ceisio mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd systematig presennol hefyd drwy nid yn unig hybu'r capasiti dadansoddol ar draws asiantaethau partner a gweithio mewn partneriaeth, ond hefyd drwy sicrhau ymagwedd fwy holistaidd, neu 'system gyfan' at gomisiynu cynnyrch dadansoddol a thasgio'r adnoddau dadansoddol arfaethedig a phresennol.

Y nod yw cwblhau'r achos busnes hwn i'w gyflwyno i gyfarfodydd Bwrdd IOM Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf, gyda diweddariad pellach i Fwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel ym mis Medi. Mae agweddau allweddol eraill sydd wrthi'n cael eu hystyried gan y gweithgor data a dadansoddi, sy'n cyfarfod eto ar ddiwedd Mehefin, yn cynnwys:

- Hyrwyddo diwylliant o rannu data ar draws yr holl asiantaethau partner;
- Annog mwy o ddefnydd o brotocolau rhannu data personol gan yr holl asiantaethau partner;
- Annog defnyddio a chysoni mwy ar dechnolegau digidol (e.e. pontio data, storffeydd data a chloddio data/dysgu peiriant) gan yr holl asiantaethau partner;
- Ysgogi datblygu data mwy effeithiol ac ystyrlon (e.e. gwneud yr hyn sy'n bwysig yn fesuradwy yn hytrach na gwneud beth sy'n fesuradwy yn bwysig) ymhlith yr holl asiantaethau partner.

Atodiad B

Diweddariad Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Cael ei Ategu gan Wybodaeth a Sgiliau Priodol – Chris Davies

Fel rhan o weithredu Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru, mae tîm prosiect wedi'i sefydlu o dan y ffrwd waith Yn Cael ei Ategu gan Wybodaeth a Sgiliau Priodol gyda'r nod o:

- sefydlu Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol.
- sefydlu llyfrgell a chronfa ddata diogelwch cymunedol ar-lein; a
- datblygu rhaglennu hyfforddiant sgiliau a gwybodaeth a chanllawiau i Gymru.

Mae Tîm y Prosiect yn cynnwys aelodau o'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, y Swyddfa Gymreig, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Cyfiawnder Cymunedol, Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru, Iechyd Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, i gyflawni'r nodau uchod, a diben y grŵp yw trafod a chytuno ar gynnwys canllawiau/adnoddau/deunydd hyfforddi sy'n gymwys ac yn berthnasol i dirwedd diogelwch cymunedol Cymru, sut fydd y deunydd hwn yn cael ei ddiwygio (os yw'n berthnasol) a'i strwythuro ar gyfer ei gynulleidfa darged fwriadedig a'r llwyfan mwyaf priodol i'w ledaenu.

Cynnydd hyd yma

Er mwyn sicrhau ffocws a momentwm, mae Tîm y Prosiect wedi cytuno ar yr amcanion canlynol, sy'n ddetholiadau o'r cynllun cyflawni ar gyfer Tîm y Prosiect:

Sefydlu rhwydwaith diogelwch cymunedol cenedlaethol newydd a chynhwysol i Gymru, gan ddefnyddio model yr Alban a chan adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd dros flynyddoedd lawer gan Gymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru, a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu polisi ac arfer ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol a helpu i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau priodol y mae eu hangen i roi'r weledigaeth newydd ar waith.

5. Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol i Gymru
Ymchwilio i fodolau presennol (e.e. gwefan yr Alban)
Gofynion penodol model Cymru
Opsiynau ar gyfer cynnal/dylunio/dadansoddi costau - cynhyrchu papur
Gwefan ddrafft "ar bapur" wedi'i chynhyrchu
Papur i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i'w gytuno
Dylunio ac adeiladu gwefan/ardal we
Dolenni/deunydd trydydd parti wedi'u hychwanegu at y safle
Llyfrgell/cronfa ddata adnoddau/deunydd y rhaglen hyfforddi a chanllawiau wedi'u hychwanegu at y safle (gweler y ffrydiau gwaith uchod)
Profi
Mynd yn Fyw

Sefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau diogelwch cymunedol ar-lein i Gymru. Cynnal canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso, ynghyd ag ailsefydlu rhaglen Dysgu a Datblygu diogelwch cymunedol yn benodol i Gymru sy'n ymgorffori'r themâu amrywiol datrys problemau partneriaethau, proses fusnes yn cael ei harwain gan gudd-wybodaeth, dadansoddi, rheoli a gwerthuso prosiectau, comisiynu ac ymgysylltiad cymunedol.

3. Llyfrgell a chronfa ddata adnoddau diogelwch cymunedol ar-lein
Nodi a chatalogio deunydd HO archif
Cwmpasu ac ymchwilio deunydd perthnasol diogelwch cymunedol arall/3ydd parti/dolenni at wefannau
Amserlen cyfarfodydd at ddibenion ymgynghori ac ymgysylltu
Grŵp Gorchwyl a Gorffen - nodi bylchau a datblygu deunydd amlinellol
Ymgysylltu'n ehangach (e-bost) â rhanddeiliaid i "wirio" gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen
Dadansoddi ymgysylltiad rhanddeiliaid a deunydd wedi'i ddatblygu ymhellach/ei fireinio/ei gwblhau
Gyrru papur yn ei flaen i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel
Cwblhau: deunydd i gydbblethu â ffrwd waith Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol Cymru

Datblygu canllawiau newydd sy'n berthnasol yn benodol i Gymru ac sy'n adeiladu ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol, ac sy'n nodi sut y gall partneriaid a phartneriaethau diogelwch cymunedol gyflawni'n fwy effeithiol ac effeithlon.

4. Datblygu rhaglen hyfforddi sgiliau a gwybodaeth a datblygu canllawiau i Gymru
Cwmpasu ac ymchwilio rhaglenni hyfforddi presennol, deunydd a chanllawiau e-ddysgu
Amserlen cyfarfodydd at ddibenion ymgynghori ac ymgysylltu
Grŵp Gorchwyl a Gorffen - nodi bylchau a datblygu deunydd amlinellol
Ymgysylltu'n ehangach (e-bost) â rhanddeiliaid i "wirio" gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen
Dadansoddi ymgysylltiad rhanddeiliaid a deunydd wedi'i ddatblygu ymhellach/ei fireinio/ei gwblhau
Gyrru papur yn ei flaen i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel
Cwblhau: deunydd i gydbblethu â ffrwd waith Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol Cymru

Cyflawniadau

Comisiynwyd Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru i ddatblygu a chyflwyno cynhadledd allweddol ar 1 a 2 Gorffennaf 2019 ar gyfer ffrwd waith Gwybodaeth a Sgiliau Priodol y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel.

Nod y gynhadledd yw cefnogi amcanion y rhaglen uchod, sef adnewyddu ac ailfywiogi gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol ledled Cymru, ond gyda phwyslais arbennig ar y 'wybodaeth a'r sgiliau priodol' sydd eu hangen fel sail ar gyfer gweithio amlasiantaeth effeithiol.

Un thema allweddol yn rhedeg ar draws y 2 ddiwrnod felly fydd beth yw'r modd gorau i ddwyn ymrwymadau'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn eu blaen er mwyn:

- datblygu rhwydwaith rhagweithiol ar gyfer ymarferwyr, llunwyr polisi ac

academyddion/ymchwilyr;

- sefydlu adnodd ar-lein ar gyfer ymarfer, polisi ac ymchwil ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru; a
- gweithio tuag at ddatblygu canllawiau penodol i Gymru sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.

Y bwriad yw mai'r adnodd ar-lein hwn fyddai'r prif le 'i fynd iddo' ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol sydd eisiau un pwynt mynediad i gael gwybodaeth, yn amrywio o droseddu cyfundrefnol, tanau bwriadol i ddwyn tractorau,

Nod y porth ar-lein fydd cyfeirio at wybodaeth bresennol a pheidio ag achosi dyblygu. Os caiff unrhyw fylchau mewn gwybodaeth eu nodi, yna byddai gwybodaeth newydd yn cael ei chreu a chyfeirir at honno felly. Yn ogystal, bydd y safle yn cynnal y deunydd dysgu a datblygu diweddaraf, fodd bynnag, bydd yn hanfodol bod proses porthgadw'n cael ei sefydlu er mwyn dilysu cywirdeb a chyfredolrwydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei lanlwytho. Bwriedir hwyluso trafodaeth ryngweithiol ar y testunau hyn ar draws y gynhadledd 2 ddiwrnod (1 a 2 Gorffennaf) drwy sesiynau llawn, gweithdai a defnyddio technoleg.

Yn ogystal, mae cryn waith eisoes yn cael ei yrru yn ei flaen i gyflawni cysondeb gwell rhwng y llu o raglenni dysgu a datblygu/ymarfer effeithiol presennol (e.e. Hwb ACEau, Rhwydwaith Dysgu Camau Cynnar gyda'n Gilydd, Cyfnewid Ymarfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, Arfer Da Cymru CLILC, What Works y College of Policing, Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, Labordai Byw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati).

Risgiau'r Prosiect

Yr angen i ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid perthnasol ar ofynion a modelau posibl ar gyfer y rhwydwaith gwybodaeth a sgiliau priodol, chynhyrchion ac adnoddau digidol, a chynhyrchion dysgu a datblygu.

Cwmpasu'r cwricwlwm presennol a chynnwys ar-lein (e.e. Gwefan Lleihau Troseddu, Hwb ACEau ac ati) ar gyfer cynnwys ac adnoddau trosglwyddadwy neu adnewyddadwy.

Nodi fforymau allweddol (e.e., gwyddonwyr cymdeithasol, dadansoddwyr, arweinwyr cyfranogi, arweinwyr gwella gwasanaethau, rhwydweithiau cymheiriaid, rhwydweithiau proffesiynol) i weithio â nhw wrth ddwyn y ffrwd waith hon yn ei blaen.

Bod gan Gymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru y gallu a'r galluogrwydd i sicrhau bod model cynaliadwy yn cael ei greu, a bod rheolaeth o ddydd i ddydd trwy rwydwaith y Gymdeithas yn wydn ac effeithiol.

Cyllido

Er y llawn fwriedir amsugno costau cychwynnol y ffrwd waith Gwybodaeth a Sgiliau Priodol o fewn y Tîm Prosiect presennol, trwy fod pob sefydliad yn ail-flaenoriaethu ei waith, mae'n rhaid cydnabod, er mwyn i'r adnodd/ cronfa ddata ar-lein gael eu datblygu, gallai fod angen cymorth gan LIC i ddarparu arian sefydlu a chynorthwyo â chostau parhaus yn y dyfodol ar gyfer rheoli'r porth ar-lein.

Bydd mwy o eglurder yn cael ei ddarparu wrth i'r ffrwd waith hon fynd yn ei blaen.

Atodiad C

Diweddariad Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Cael Adnoddau mewn modd Cynaliadwy ac yn Briodol yn Lleol, Naomi Alleyne

Daeth yr Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel i'r casgliad yn 2017 bod tystiolaeth sylweddol o effeithiau negyddol ar adnoddau diogelwch cymunedol a strwythurau cyflawni a briodolir i gyni'r sector cyhoeddus, er y bu elfen o liniaru gyda mwy o gyllid Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer ffrydiau gwaith penodol, ynghyd â rhywfaint o gyllid partneriaeth diogelwch cymunedol ar gael gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru. Mae gwrthdaro strwythurol a gwrthdaro o ran darparu adnoddau, a dryswch sy'n cael ei greu gan amryw o 'olion traed' partneriaethau gweithredol a strategol rhanbarthol a lleol yn effeithio hefyd, ynghyd â'r gwahaniaeth cynyddol rhwng polisi ac arfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n gadael partneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig wedi'u dal yn y canol ac yn gwbl amhendiant ynghylch gweithredu polisi annatganoledig mewn tirwedd a chyd-destun datganoledig.

Mewn ymateb, cytunodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Phlisma yng Nghymru i gyd-ariannu adnodd pwrpasol i gefnogi adnewyddu ac adfywio gwaith partneriaeth lleol yn uniongyrchol er mwyn gwella diogelwch cymunedol ar draws y 22 ardal awdurdod lleol – gan ymgorffori chwe egwyddor allweddol y gydweledigaeth – a gweithio i gysoni strwythurau a rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol yn well ar gyfer diogelwch cymunedol, plisma a chyfiawnder troseddol. Cafodd llythyr cynnig cymorth ei gylchredeg i'r holl randdeiliaid yn Hydref 2018.

Mae 18 o'r 22 o arweinwyr diogelwch cymunedol awdurdod lleol wedi cyfarfod erbyn hyn â'r rheolwr Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel llywodraeth leol i drafod lefel a natur y cymorth sydd ei angen, ynghyd â materion a rhwystrau sy'n wynebu'r rheiny sy'n gyfrifol am gydlynu gweithio mewn partneriaeth yn lleol i wella diogelwch cymunedol. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda'r pedwar awdurdod arall. Ar sail yr ymgysylltu hyd yma, mae'n amlwg bod pob ardal o Gymru yn rhannu ymrwymiad a brwdfrydedd i sicrhau gweithio effeithiol mewn partneriaeth mewn perthynas ag ystod eang o themâu diogelwch cymunedol – ac mae pob ardal yn cydnabod y bygythiad a'r niweidiau presennol a geir yn sgil troseddau difrifol a threfnedig, cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon a thrais difrifol yn gysylltiedig â gangiau.

Fodd bynnag, mae pob un o'r awdurdodau lleol yn adrodd am rwystrau sylweddol rhag cael adnoddau a fyddai'n eu galluogi nhw i: gynorthwyo cydlynu gweithio mewn partneriaeth o fewn tirwedd partneriaeth cymhleth a dryslyd (Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Parôl Rhanbarthol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ati); datblygu cynhyrchion cudd-wybodaeth y mae eu hangen yn daer ac asesiadau o anghenion mewn perthynas â materion allweddol; darparu ymatebion effeithiol i fregusrwydd a risgiau dynodedig (e.e., gwasanaethau ieuencid a chymorth iechyd meddwl i bobl ifanc ac oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o ymwneud â gweithgarwch o fath 'llynellau cyffuriau).

Mewn rhai ardaloedd - fel Gogledd Cymru a Sir Benfro - mae gwaith uchelgeisiol yn mynd rhagddo i ddatblygu cynhyrchion cudd-wybodaeth priodol i gefnogi ac ysgogi gweithio mewn partneriaeth mwy effeithiol, ond mae hyn yn dibynnu'n helaeth ar ddadansoddwyr yr heddlu sy'n gorfod gohirio dyletswyddau craidd i ddarparu ar gyfer y gweithgarwch blaenoriaeth hwn fel gweithgarwch 'untro'. Mae Gogledd Cymru wrthi hefyd yn adolygu ei 'dirwedd' partneriaeth gyda'r bwriad o resymoli ac ad-drefnu a symleiddio strwythurau, dileu dyblygu a chyflawni gwell cysondeb mewn perthynas â mynd i'r afael â bregusrwydd cymunedau ac unigolion a cham-fanteisio'n droseddol arnynt (e.e. llinellau cyffuriau, caethwasiaeth fodern, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant).

Mae Gwent hefyd yn bwriadu ad-drefnu partneriaethau a chydweithredu'n agosach o fewn ôl-troed rhanbarthol. Mae Casnewydd - drwy sefydlu 'hwb cudd-wybodaeth' ar y cyd gyda Heddlu Gwent a buddsoddi cyllid 'braenaru' y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael â throsteddu difrifol a threfnedig - wedi gallu cynnal peilot o ymagweddau newydd at feithrin gwydnwch cymunedol, gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal ag ymchwilio troseddol, erlyn a thactegau amharu mwy effeithiol.

Mae gallu Rheolwr Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel llywodraeth leol i gysylltu ar draws holl ardaloedd Cymru, cysylltu gyda strwythurau a rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol a defnyddio arfer effeithiol a datblygol wrth ddarparu cymorth lleol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol wedi llenwi bwlch dros dro a adawyd gan ddifflaniad 'Tîm Troseddau'r Swyddfa Gartref (Cymru)' ar y cyd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn 2010.

Un darn o waith allweddol yn hyn o beth yw datblygu Fframwaith Trais Difrifol Cymru, a gomisiynwyd ar y cyd gan y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac a chyd-ddatblygwyd gydag Uned Trais a Bregusrwydd y Swyddfa Gartref. Bydd y fframwaith, y disgwylir iddo gael ei lansio ym mis Gorffennaf, yn darparu pecyn cymorth ac arweiniad effeithiol i danategu gweithio mewn partneriaeth yn lleol - law yn llaw â'r gwaith parhaus i ddatblygu cudd-wybodaeth briodol yn lleol mewn perthynas â throsteddu difrifol a threfnedig, gangiau a thrais difrifol.

Ar lefel strategol, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i hwyluso cydweithredu agosach rhwng plismona a llywodraeth leol ledled Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r cymhlethdodau a'r dryswch a grëir gan y dirwedd partneriaethau strategol presennol ac i ystyried materion a nodwyd yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a chydlynu'r gwaith hwnnw.

Atodiad Ch

Diweddariad Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Ataliol ac yn Ymyrryd mor Gynnar â Phosibl; Arolygiadau Thematig ar y Cyd, Julian Williams

Mae cyrff arolygiaethau datganoledig ac annatganoledig yn ynysig ac yn gweithio ar wahân i'w gilydd ar hyn y bryd. Mae dadl glir dros ddull gweithio mwy cydgysylltiedig yng Nghymru, ac mae Grŵp Arolygiaethau sy'n cynnwys ystod o bartneriaid ar draws asiantaethau datganoledig ac annatganoledig wedi'i greu. Er bod hynny'n orchwyl uchelgeisiol, mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar dri phrif faes, sef:

- Cwmpas yr arolygiad
- Nodi thema – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Phlant sydd ar Goll
- Llywodraethu – adolygiad o'r trefniadau partneriaeth presennol

Mae'r Grŵp Arolygiaethau yn addasu model JTAI Lloegr ac yn ei droi yn fersiwn ar gyfer Cymru gyfan, sef yr Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA). Mae'r themâu a ddynodwyd (camfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant sydd ar goll) yn cael eu cwmpasu ymhellach cyn cynnal yr arolygiadau peilot. Un dyhead yw gallu gwreiddio hirhoedledd a gwydnwch yn y fethodoleg fel bod modd datblygu'r model ymhellach a'i addasu ar gyfer arolygiadau oedolion yn y dyfodol hefyd. Byddai hyn wedyn yn hwyluso ac yn tanategu cysondeb y model gyda'r glasbrintiau cyfiawnder. Mae'r dull arolygiadau thematig ar y cyd yn rhoi ffocws clir ar leihau aildroseddu, ac yn mabwysiadu 'dull systemau cyfan' i gefnogi'r glasbrintiau y soniwyd amdanynt.

Ar hyn o bryd, mae trywydd y Grŵp Arolygiaethau yn canolbwyntio ar archwilio astudiaethau achos o blant pan fyddant yn dod i mewn i'r system. Caiff hyn ei archwilio ymhellach wedyn drwy archwilio'n drwyadl i achosion sy'n cynnwys deg o blant. O ganlyniad, bydd y grŵp yn gallu mapio taith y plentyn o'r pwynt pan gaiff ei atgyfeirio at y trefniadau amddiffyn plant.

Mae arolygiad peilot wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2019 a disgwylir y bydd 5 arall yn cael eu cynnal o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae grŵp cyfeirio wedi'i sefydlu hefyd a bydd yn cynnal adolygiad ôl-arolygiad rhwng ar ôl y rownd gyntaf a chyn yr ail rownd o arolygiadau er mwyn darparu adborth ar effeithiolrwydd, arfer da a gwersi a ddysgwyd.

Camau nesaf

Mae'r Grŵp Arolygiaethau i gadarnhau'r themâu arolygu peilot. Mae'n werth nodi hefyd y gallai'r themâu arolygu gael eu newid gan ddibynnu ar ble mae'r ffocws ar yr adeg berthnasol.

Bydd ein ffocws o gyflawni rhaglen o arolygiadau thematig ar y cyd yn ymwneud â'r gofyniad i leihau aildroseddu (yn enwedig mewn cysylltiad â'r glasbrintiau cyfiawnder newydd yn seiliedig ar 'ddull systemau cyfan' yn cael ei ystyried pan fydd y dull arolygu thematig ar y cyd yn cynnwys arolygiaethau datganoledig ac annatganoledig wedi'u dreialu yn y lle cyntaf a'i werthuso.

Atodiad D

Diweddariad Uwch-swyddog Cyfrifol: Yn Canolbwyntio ar Welliannau a Manteision Hirdymor – Reg Kilpatrick

Mae'r ffrwd waith hon yn ymwneud â sicrhau bod cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar lefel swyddogol a Gweinidogol yn effeithiol ac yn hyrwyddo cyflenwi gwasanaethau datganoledig ac annatganoledig i'r eithaf i ddefnyddwyr yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas weithio dda yn barod gydag adrannau allweddol o Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd holistaidd at weithio gyda'r adrannau hyn o Lywodraeth y DU er mwyn helpu nodi a goresgyn unrhyw heriau i gyflenwi gwasanaethau annatganoledig yn effeithiol yn y dirwedd ddatganoledig. Hynny yw, cyflawni polisiâu plismona a throseddu a chyfiawnder annatganoledig mewn lleoliad datganoledig, gan gynnwys iechyd, addysg, llesiant/diogelu a thai.

Rydym eisoes wedi gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddatblygu fframwaith ar y cyd i gefnogi newid cadarnhaol i'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru. Diben y Fframwaith yw gwella gwasanaethau i'r rheiny sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol neu'r rheiny sydd yn y system yn barod. Hefyd, bydd y Fframwaith yn hyrwyddo cydweithredu parhaus er mwyn lleihau ymhellach nifer y troseddwr sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, cynorthwyo troseddwr i beidio ag ail-droseddu a chadw cymunedau'n ddiogel.

Yn ogystal, mewn ymateb i ymateb ymgynghori Llywodraeth Cymru ac ymgysylltu pellach, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi cytuno â'n barn y dylai'r rhan fwyaf o wasanaethau rheoli troseddwr gael ei dychwelyd i'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau ymagwedd gyflawni systemau cyfan integredig yng Nghymru¹³ (Bydd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCau¹⁴) yn aros yn amgylchedd y sector preifat hyd at 2021). Nodwn fod Llywodraeth y DU ers hynny wedi cyhoeddi y bydd yr ymagwedd hon yn berthnasol i Loegr hefyd o 2021¹⁵.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref a Swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru i sicrhau bod y digwyddiad lansio Troseddau Difrifol a Threfnedig (SOC) ar gyfer Cymru, a gynhaliwyd ar 9 Mai yn y Celtic Manor, Casnewydd, yn cynnwys ffocws ar y dirwedd ddatganoledig yng Nghymru ac yn cynnwys themâu a gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru (er enghraifft, gwaith Bwrdd SOC Casnewydd sydd wedi mabwysiadu ymagwedd amlasiantaeth gwbl integredig at leihau troseddu difrifol yn ardal Casnewydd). Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfraniadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a'r Prif

¹³ https://consult.justice.gov.uk/hm-prisons-and-probation/strengthening-probation-building-confidence/supporting_documents/strengtheningprobationbuildingconfidence.pdf

¹⁴ <http://walescr.co.uk/>

¹⁵ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-48288433>

Gwnstabl, a chyflwyniad gan Fwrdd SOC Casnewydd yn amlinellu'r modd y gallai'r model gael ei efelychu ledled Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Swyddfa Gartref a chydweithwyr yn Swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru i ddatblygu digwyddiad Strategaeth Trais Difrifol i Gymru ar 18 Gorffennaf yng Nghaerdydd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau Llywodraeth y DU i geisio sicrhau bod polisi Llywodraeth y DU yn adlewyrchu tirwedd ddatganoledig Cymru a'r effaith a gaiff darpariaeth gwasanaeth annatganoledig ar y dirwedd ddatganoledig. Er enghraifft, yn ddiweddar, ymatebom i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar ddyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi dull amlasiantaeth o atal a mynd i'r afael â thrais difrifol. Gofynasom a fyddai gan yr opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio (sef opsiwn un yn y ddogfen ymgynghori¹⁶ - i ddeddfu i roi dyletswydd newydd ar sefydliadau penodol i roi sylw dyledus i atal a mynd i'r afael â thrais difrifol) y cymhwysedd deddfwriaethol i osod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaeth datganoledig yng Nghymru. Dim ond un enghraifft o lawer yw hon sy'n dangos y modd y gweithiwn gydag adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau bod polisiâu a deddfwriaeth yn briodol i dirwedd Cymru.

O ran cymhlethdodau darpariaeth gwasanaeth annatganoledig (fel plismona a gwasanaethau prawf) yn cyflenwi gwasanaethau mewn tirwedd ddatganoledig, un maes lle'r ydym wedi datblygu perthnasoedd cryf yw gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiadaid yng Nghymru. Mae'r rhain eisoes yn gweithredu'n effeithiol mewn modd datganoledig trwy ddatblygu a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer Cymru drwy fecanweithiau darparu amrywiol (e.e. Grŵp Trais Difrifol Cymru Gyfan). Rydym wedi sefydlu Bwrdd Plismona ac mae hwn yn gyfle ar gyfer mynediad uniongyrchol rheolaidd rhwng Gweinidogion Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiadaid, gan hwyluso ymgysylltu adeiladol ar sail Cymru gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan¹⁷ hefyd sy'n gyfle arall i sicrhau cysondeb a chyd-berthnasedd rhwng asiantaethau partner datganoledig ac annatganoledig. Mae'r Bwrdd hwn wedi cyfrannu ac ymgysylltu'n gadarnhaol ar draws y dirwedd ddatganoledig ac annatganoledig,

Yn fewnol, rydym yn amcanu i sicrhau cysondeb ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a meysydd portffolio sydd â buddiant mewn darparu gwasanaethau datganoledig mewn lleoliadau annatganoledig yng Nghymru, fel carchardai. Mae'r rhain yn cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, diogelu, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a chamddefnyddio sylweddau (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn).

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Iasbrintiau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer cyfiawnder ieuencid a throseddau menywod yng Nghymru

¹⁶ <https://www.gov.uk/government/consultations/serious-violence-new-legal-duty-to-support-multi-agency-action>

¹⁷ Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn dod ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru a phartneriaid ynghyd i ddatblygu polisi a strategaeth gyda'r nod o leihau aildroseddau a throseddau ledled Cymru

mewn datganiad llafar yn y Sesiwn lawn ar 21 Mai¹⁸. Mae'r glasbrintiau hyn wedi'u llunio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y DU, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid a'r Glasbrint Troseddau Menywod yn amlinellu dyheadau allweddol ac egwyddorion arwain Cymru ar gyfer menywod a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o fynd i mewn i'r system. Mae'r ddau lasbrint yn canolbwyntio ar: ymyrryd ac atal yn gynnar; sut mae cymorth yn cael ei ddarparu i ddargyfeirio pobl i ffwrdd oddi wrth droseddu yn y lle cyntaf; ac ymagwedd holistaidd ac adsefydlu at y rheiny sy'n llithro drwy'r rhwyd. Mae'r ddau lasbrint yn fwriadol uchelgeisiol ac yn nodi nifer o argymhellion, y bydd llawer ohonynt yn cael effaith ar gyfer ein gwasanaethau datganoledig o fewn portffolios gweinidogol amrywiol (iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, a thai). Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn awr, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i gyflawni ar ein cynlluniau gweithredu.

Rydym wedi cyfrannu, ar lefel Weinidogol a lefel swyddogol, at waith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru¹⁹ (cyfeirir ato hefyd fel Comisiwn Thomas) ac rydym wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn adrodd ar ei ganfyddiadau ym mis Hydref.

¹⁸ <http://record.assembly.wales/Plenary/5806#A51254>

¹⁹ <https://gov.wales/commission-justice-wales>

Eitem 2.6

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol C
Caerdydd CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: AG/SOT

5 Awst 2019

Annwyl Mr Ramsay

Ymhellach i'm presenoldeb yn sesiwn dystiolaeth PAC ar 15 Gorffennaf 2019, cytunais i:

- Roi manylion penodiad y Cyfarwyddwr Trawsnewid yn BCUHB o'r ymarfer recriwtio allanol diweddar
- Darparu disgrifiad ynghyd ag enghreifftiau o'r hyn sydd wedi'i ariannu fel rhan o'r Gronfa Trawsnewid.

Cyfarwyddwr Trawsnewid

Er mwyn cydnabod yr angen i gryfhau'r ymagwedd drawsnewid mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella ei alluogrwydd trawsnewid trwy sicrhau gwasanaethau ymgynghoriaeth oddi wrth Gyfarwyddwr Adfer. Bydd hyn am gyfnod o 9 mis a bwriedir iddo ei alluogi i sicrhau lefelau gwelliant uwch ym maes cyflawni ariannol a chefnogi'r cynllun effeithlonrwydd hirdymor. Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Adfer sicrhau effaith sylweddol ar unwaith yn achos rhagolygon ariannol y bwrdd iechyd dros y ddau fis nesaf ac mae strwythur a chymorth yn cael eu sefydlu i'w gefnogi.

Y Cyfarwyddwr Adfer sydd wedi'i benodi yw Philip Burns, arbenigwr trawsnewid gyda thros 20 mlynedd o brofiad ym maes gofal iechyd. Dros y saith mlynedd diwethaf bu'n gysylltiedig â chynlluniau a ddyluniwyd/a gyflawnwyd yn y GIG dros £200 miliwn. Bu'n gweithio gynt yn Ymddiriedolaethau Sylfaen y GIG gan gynnwys ysbytai King's College lle y gwnaeth sefydlu a chyflawni rhaglen wella gwerth £72 miliwn. Roedd y rhaglen yn cwmpasu'r sefydliad gan gynnwys cynlluniau trafodiadol a gweddnewidiol.

Ceir rhestr o brosiectau'r Gronfa Trawsnewid yn Atodiad A.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall CBE



Y Gronfa Trawsnewid

Dyma grynodeb o'r modelau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma drwy'r Gronfa Trawsnewid.

Nod y gronfa yw gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu'r modelau sy'n llwyddiannus a disodli'r rhai llai llwyddiannus neu rai sydd wedi dyddio.

O ganlyniad, dylai pobl weld gwelliant yn eu gwasanaethau lleol.

Crynodeb o'r prosiectau

1. Dull System-gyfan Clwstwr Cwm Tawe

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Mae *Dull System-gyfan Clwstwr Cwm Tawe* yn cyflwyno model wedi'i drawsnewid, sef system iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer yr ardal, dan arweiniad clwstwr. Mae rhwydwaith y clwstwr yn cynnwys Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe, practisau meddygon teulu a rheolwyr tîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac mae'n gwasanaethu Clydach, Treforys a Llansamlet.

Mae'r clwstwr wedi datblygu cynllun tair blynedd i wella iechyd a llesiant. Mae tri o'r pum practis meddygol teulu yn y clwstwr wedi uno â'i gilydd yn ffurfiol erbyn hyn.

Nod y prosiect yw:

- Gwella llesiant pobl o bob oed. Mae'r pwyslais allweddol ar hwyluso hunanofal a meithrin cadernid cymunedol. Bydd pwyslais hefyd ar y blynyddoedd cynharaf, gofalwyr ifanc a lles meddyliol.
- Cydlynu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu manteisio i'r eithaf ar lesiant, annibyniaeth a gofal yn nes at eu cartrefi. Byddai hyn yn cynnwys rhoi'r gallu i'r Rhwydweithiau Clwstwr gynllunio, cydlynu a gweithredu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r gymuned, gan ddiwallu anghenion y claf a'r gofalwr. Bydd pwyslais ar bobl hŷn er mwyn integreiddio gwasanaethau, arbrofi gyda modelau newydd o ofal yn nes at eu cartrefi, a lleihau ymweliadau annisgwyl â'r ysbyty.

2. Cyflwyno'r Dull System Gyfan i saith clwstwr

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Gan adeiladu ar y gwaith yng Nghwm Tawe, mae'r *dull system gyfan* yn cael ei gyflwyno i'r saith ardal clwstwr sy'n weddill. Bydd y prosiect yn sefydlu uchelgais i gynyddu cyflymder a graddfa'r broses o ddatblygu clystyrau'n gyfrwng i roi mwy o bwyslais ar hunanofal ac ataliaeth, integreiddio systemau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel leol a darparu gofal yn nes at y cartref – a hynny ar sail rhaglen a reolir.

Bydd hyn yn cyflymu'r broses o ddysgu am hwyluso cadernid cymunedol, cryfhau hunanofal a defnyddio Tuedd cymunedol sydd ar gael yn barod. Bydd

yn gwella ac yn cyflymu'r ffodd y mae asiantaethau'n cydweithio. Ceir hefyd effaith gadarnhaol ar y llwybrau gwasanaethau clinigol ar gyfer ystod o gyflyrau cronig megis diabetes, methiant y galon, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Yn ogystal, bydd dull gweithredu newydd o ran darparu gwasanaethau a chael mynediad atynt – a hynny yn y gymuned leol lle bynnag y bo modd.

Nod y prosiect yw:

- Gwella llesiant pobl o bob oed. Bydd pwyslais ar gefnogi hunanofal a meithrin cadernid cymunedol. Bydd pwyslais hefyd ar grwpiau wedi'u targedu o fewn y boblogaeth, gan ddibynnu ar ddemograffeg y clystyrau.
- Cydlynu gwasanaethau i gefnogi llesiant, annibyniaeth a gofal yn nes at y cartref. Bydd hyn yn golygu bod y gallu gan y clystyrau i gynllunio, cydlynu a gweithredu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r gymuned i ddiwallu anghenion y cleifion a'r gofalwyr. Bydd pwyslais arbennig ar bobl hŷn a gwasanaethau integredig, rhoi cynnig ar fodolau newydd o ofal yn nes at y cartref a lleihau nifer y derbyniadau annisgwyl i'r ysbyty.

3. Ein Cynllun Cymdogaeth

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Bydd y trydydd prosiect yng Ngorllewin Morgannwg, *Ein Cynllun Cymdogaeth* yn canolbwyntio ar wneud i wasanaethau weithio fel un system, drwy sicrhau bod staff ar draws pob asiantaeth yn cymryd rhan yn y broses o lunio'r newidiadau a'u rhoi ar waith. Bydd pwyslais ar adeiladu asedau o fewn cymunedau a grymuso pobl i roi cefnogaeth i aelodau eu cymunedau eu hunain yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau statudol yn unig.

Nod y prosiect yw:

- Galluogi unigolion i fyw bywydau hirach a hapusach a chymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi eraill yn eu hardaloedd lleol drwy ddatblygu partneriaethau ag amrywiaeth eang o sefydliadau a phobl o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a chymunedau er mwyn cefnogi pobl.
- Darparu iechyd a gofal drwy bobl sy'n gweithredu fel un tîm ac sy'n gweithio i sefydliadau sy'n gweithredu fel un tîm.

4. Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Nod *Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned* yw sicrhau gweithio di-dor yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r prosiect hwn yn ddull graddol o wella iechyd y boblogaeth drwy system gydgyssylltiedig o bartneriaid cymunedol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol. Bydd yr holl bartneriaid yn cydweithio i gefnogi cadernid unigolion, teuluoedd a chymunedau. Dylai hyn wella iechyd a llesiant pobl, drwy leihau'r

angen am wasanaethau eilaidd mynd i'r afael â chanlyniadau iechyd sy'n deillio o unigrwydd a themlo'n ynysig a datgysylltiedig.

Nod y prosiect yw:

- Newid y ffordd y mae sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd mewn ysbytai. Er enghraifft bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r GIG i ddarparu mwy o gysylltiad dyddiol ar y wardiau. Dan *Get Me Home Plus* bydd pobl yn cael eu hasesu yn eu cartrefi ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty, yn hytrach na chael eu hasesu cyn eu rhyddhau. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth ynglŷn â'r gefnogaeth a'r addasiadau sydd eu hangen yn y cartref, a bydd yn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi yn gyflymach ar ôl arhosiad mewn ysbyty. Bydd gofal cofleidiol yn y cartref yn cael ei ddarparu gan weithwyr iechyd proffesiynol, gofalwyr y gwasanaethau cymdeithasol, a gweithwyr cymdeithasol.
- Datblygu gwefan llesiant er mwyn cysylltu gwasanaethau ar draws y gymuned a galluogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i rannu gwybodaeth yn ddiogel am gleifion.
- Datblygu ac argymhell gofal yn y gymuned – er enghraifft, prosiectau garddio cymunedol, grwpiau cerdded, 'siediau dynion' a chaffis sgwrsio.
- Datblygu gweithlu llesiant. Yn ychwanegol at y rhagnodwyr cymdeithasol a'r swyddogion llesiant presennol, bydd staff mewn derbynfydd yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwybodaeth ac i gysylltu pobl â gofalwyr gwirfoddol yn y gymuned.
- Nodi pobl sydd mewn perygl a'u cefnogi nhw yn weithredol i barhau i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys creu gwell cysylltiadau rhwng ysbytai, meddygon teulu a fferyllwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn cael gwybodaeth ynglŷn ag anghenion cleifion unigol pan maen nhw'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, a bod gan gleifion un pwynt cyswllt.
- Gweithredu timau amlddisgyblaethol, dan arweiniad meddyg teulu, er mwyn datblygu ac adolygu gwasanaethau.

5. Gweithredu System Ddi-dor o Ofal Iechyd a Llesiant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Mae dwy ran i'r cynllun Gweithredu System Ddi-dor o Ofal Iechyd a Llesiant yng Ngwent: y rhan gyntaf yw system atal, ymyrraeth gynnar a gwella llesiant y boblogaeth, yn ogystal â gwasanaethau integredig newydd. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â Rhwydweithiau Llesiant Integredig a Thrawsnewid Gofal Sylfaenol. Yr ail ran yw creu modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n canolbwyntio ar ailgynllunio modelau gwasanaeth presennol, mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion ac wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Nod y prosiect yw:

- Sefydlu cynllun rhyddhau o'r ysbyty 24/7, a fydd yn golygu bod pobl yn gallu mynd adref yn gyflymach gyda'r pecyn cywir o ofal wedi'i sefydlu.
- Newidiadau ym maes Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed er mwyn sicrhau gwell mynediad at well gwasanaethau, yn nes at eu cartrefi.
- Gweithredu model gofal, yn seiliedig ar le, yng Nghaerffili fel cynllun peilot cychwynnol, a fydd yn golygu y gall pobl gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau newydd yn eu cymuned yn hytrach na bod yn ddibynnol ar wasanaethau meddyg teulu yn unig.

6. Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn y Gogledd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Nod y cyntaf o bedwar prosiect a gymeradwywyd yn y Gogledd, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn y Gogledd, yw hyrwyddo lles meddyliol pobl yn yr ardal a sicrhau bod y rhai hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl a salwch meddwl yn cael y gefnogaeth angenrheidiol pan fo'i hangen arnynt.

Nod y prosiect yw:

- Sefydlu fframwaith effeithiol ym mhob sir ar gyfer adnabod y bobl sydd fwyaf agored i niwed a defnyddio dull amlddisgyblaethol er mwyn osgoi argyfwng.
- Datblygu llwybr gofal argyfwng amlddisgyblaethol a fydd yn darparu gofal a chefnogaeth darbodus (yr ymateb iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn) sy'n diwallu anghenion yr unigolyn.
- Ategu'r dull amlddisgyblaethol o ymdrin â gofal argyfwng drwy hyfforddi staff rheng flaen pob sefydliad ynglŷn â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau er mwyn gwella'r ymarfer a'r profiad ar gyfer pobl mewn argyfwng, yn ogystal ag osgoi uwchgyfeirio.
- Yn annatod i'r llwybr adfer ar gyfer pobl, bydd y prosiect yn cyd-fynd â'r cynlluniau ar gyfer datblygu tai cefnogol yn y Gogledd a gwasanaethau allweddol nad ydyn nhw ar gael ar hyn o bryd.

7. Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Mae'r model gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn ceisio helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n fwy annibynnol a chael y gofal y maen nhw ei angen yn nes at y cartref drwy integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn well.

Nod y prosiect yw:

- Datblygu'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well, gan ddyblygu llai ar systemau cofnodi, fel mai 'dim ond unwaith' y mae pobl yn gorfod dweud rhywbeth.
- Datblygu'r gweithlu i greu gwell ymwybyddiaeth ynglŷn â materion anabledd ymysg y gweithlu ehangach yn y sector cyhoeddus. Dylai'r dull hwn leihau'r galw am wasanaethau anabledd dysgu arbenigol yn y dyfodol.
- Defnyddio technoleg gynorthwyol i helpu pobl ag anableddau dysgu i ddod yn fwy annibynnol.
- Rhoi newid cymunedol a diwylliannol ar waith drwy gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd mewn gwaith cyflogedig, mynediad at hyfforddiant a chyfleodd gwirfoddoli, gyda dulliau rhanbarthol mwy effeithiol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

8. Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Mae cyfleoedd dan y prosiect hwn i ddatblygu ei wasanaethau ymhellach er mwyn rhoi dulliau ar waith ar gyfer cael cymorth yn gynnar, a chynnig asesiadau a chymorth ymatebol a phrydlon er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Drwy ddull system gyfan sy'n canolbwyntio ar y teulu, bydd y prosiect hwn yn trawsnewid cymorth ac ymyrraeth gynnar integredig. Bydd hyn yn cynnig y cymorth a'r dull cywir ar gyfer meithrin mwy o gadernid o fewn y teulu.

Nod y prosiect yw:

- Helpu i atal problemau rhag dwysáu drwy gynnig cymorth integredig prydlon – gan gynnwys dulliau newydd i gael help yn gynnar a chael cymorth therapiwtig.
- Sefydlu timau 'asesu a chymorth' sy'n darparu cymorth ymatebol, dwys sy'n meithrin cadernid yr unigolyn a'r teulu. Bydd hyn yn atal sefyllfaoedd cymhleth ac argyfyngus rhag dwysáu ymhellach.
- Cyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol ddrud a hirdymor.

9. Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Gweledigaeth Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yw y bydd y gwasanaethau cymunedol yn golygu bod modd rhoi cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Yn ogystal â bod yn well i'r unigolion, bydd hyn yn lleihau nifer y derbynwyr ysgyrtedol a pharhaeth gofal dros

amser. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y prosiect yn lleihau'r angen am ofal a thriniaethau yn yr ysbyty, a bydd triniaeth wedi symud i ganolbwyntio ar iechyd, lles ac ataliaeth.

Nod y prosiect yw darparu:

- Gwasanaethau cydgysylltiedig da sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, gan sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn eu hiaith ddewisol
- Help i bobl symud drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau eraill a fyddai'n gwella eu lles.
- Mynediad i bobl at ystod o wasanaethau ataliol, cymorth cymunedol, cyngor a gwybodaeth.
- Mynediad at ystod o gymorth cymunedol, gofal ac ymyriadau therapiwtig.
- Cymorth i'r rheini sydd yng nghanol argyfwng, ar ddiwedd eu hoes ac sydd â chyflyrau iechyd parhaus.

10. Gorllewin Cymru Iachach

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gorllewin

Mae Partneriaeth Gofal y Gorllewin yn dod â phartneriaid o lywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol ynghyd gyda defnyddwyr a gofalwyr. Y nod yw trawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth drwy annog integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau.

Nod y prosiect yw:

- Datblygu dull llesol ar gyfer pobl a staff, gan weithio ar draws y system iechyd a gofal gyfan, er mwyn gwella iechyd pobl, gan gydweithio i ganolbwyntio ar lesiant.
- Rhoi diogelwch ac ansawdd yn gyntaf, a sicrhau o leiaf nad yw gwasanaethau yn gwneud unrhyw niwed, fel y gall pobl fyw'n ddiogel yn eu cymunedau. Bydd unrhyw newidiadau i wasanaethau ysbytai a'r ffordd y mae gofal a thriniaeth yn cael eu cyflawni i'r boblogaeth yn cael eu rheoli yn ofalus gam wrth gam, gan flaenoriaethu diogelwch ac ansawdd.
- Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol, lle gallan nhw reoli eu hiechyd a'u llesiant, gyda'r pwyslais ar eu cartrefi a'u hardaloedd lleol eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cyflymu'r adferiad ar ôl triniaeth a gofal, a chefnogi hunanreolaeth o gyflyrau hirdymor. Gweithio gyda phartneriaid a staff allweddol i helpu i feithrin cadernid a chefnogi pobl i fyw yn well o fewn eu cymunedau eu hunain.

- Ymgysylltu'n barhaus er mwyn personoli a theilwra gwasanaethau iechyd a gofal at anghenion a hoffterau pobl a'u hardaloedd lleol, gan ganolbwyntio ar gefnogi pobl i reoli eu gofal a'u canlyniadau eu hunain.
- Gweithio gyda phartneriaid a staff ar draws yr holl system iechyd a gofal er mwyn datblygu gwasanaethau integredig lle nad yw gofal cymdeithasol, sylfaenol ac eilaidd yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain, ond eu bod yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Byddan nhw'n ddi-dor ac yn gwella'r profiad i bobl drwy ddarparu gofal cydlynol, gwell, a llai cymhleth.
- Buddsoddi mewn staff ac archwilio atebion gweithlu arloesol er mwyn recriwtio, hyfforddi a chadw'r gweithlu gorau ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin.

11. Sicrhau Powys Iach a Gofalgar

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Bydd *Sicrhau Powys Iach a Gofalgar* yn helpu i ehangu modelau newydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yng ngogledd Powys.

Bydd y prosiect yn arwain at newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan hyrwyddo llesiant, cymorth a chefnogaeth gynnar, a defnyddio cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol a gwyrdd. Bydd hefyd yn annog pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu llesiant eu hunain a chynllunio ar gyfer eu hanghenion iechyd yn y dyfodol.

Nod y prosiect yw:

- Galluogi dinasyddion, staff a phartneriaid i gymryd rhan weithgar yn y broses o roi'r model integredig newydd ar waith a chefnogi ffordd newydd o gyflawni yng ngogledd Powys.
- Sicrhau mwy o gysylltedd ar draws y Canolbarth i er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyfartal i'r boblogaeth wledig drwy lwybrau iechyd a gofal integredig ar draws siroedd.
- Gwasanaethau amlasiantaethol cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar ddulliau o atal a dosbarthu yn ôl risg er mwyn gostwng nifer y derbyniadau brys.
- Cynyddu'r defnydd o wasanaethau ataliol er mwyn gostwng y nifer sy'n smygu, annog mwy i gymryd rhan mewn ymarfer corff, cynnal asesiadau risg wedi'u targedu ar gyfer pobl â chlefyd cardiofasgwlaidd a lleihau effaith ffactorau risg clinigol (sicrhau gwelliant o ran dal ati i gymryd meddyginiaethau).
- Galluogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol ac aros yn y cartref yn ddiogel drwy dechnoleg sy'n helpu annibyniaeth a gofal; a gwaith mwy integredig i atal anghenion rhag gwaethygu a sicrhau ymyrraeth ar unwaith pan fo argyfwng.

12. Cwm Taf – Cadw'n Iach yn y Gymuned (*rhan 1*)

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn datblygu model iechyd a gofal cymdeithasol system gyfan ar gyfer y boblogaeth sy'n ymateb i lais yr unigolyn ar dair haen:

- Llesiant;
- Gofal integredig yn y gymuned, yn nes at gartrefi pobl;
- Iechyd a gofal cymdeithasol aciwt a gwasanaethau iechyd trydyddol.

Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau peilot sydd eisoes wedi arwain at fuddion amlwg yng Nghwm Taf, a'u cysylltu gyda'i gilydd. Y cynlluniau hyn yw:

- Haenu a gwahanu risgiau – mae'r peilot presennol yn cysylltu ac yn dadansoddi data gofal sylfaenol ac eilaidd i ddosbarthu'r boblogaeth yn y clwstwr yn grwpiau penodol yn seiliedig ar eu priodoleddau cyfun.
- Timau amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar glystyrau – cynhaliwyd cynllun peilot o ddull 'ward rithwir' yng Nghlwtwr Cynon. Mae dull amlddisgyblaethol yn helpu i leihau'r galw ar bractisau cyffredinol, yn ystod oriau'r feddygfa a'r tu allan i oriau, ac mewn adrannau brys.
- Cadw'n lach Gartref – mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar adrannau brys a'r heriau o ran llif cleifion, cyflwynwyd timau amlddisgyblaethol integredig yn adrannau argyfwng, unedau meddygol aciwt ac unedau penderfyniadau clinigol Ysbyty'r Tywysog Charles ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Canfod canser yn gynnar – yn unol â Rhaglen Diagnosis Cynnar o Ganser y Bwrdd Iechyd, mae cynllun peilot o'r Clinig Diagnosis Cyflym wedi'i gynnal yng Nghwm Taf ers mis Gorffennaf 2017.

Wrth i'r model barhau i ddatblygu a phrofi system newydd o wasanaethau di-dor ar y raddfa briodol, bydd gwerthuso a lledaenu'r rhain yn ffurfiol yn galluogi rhoi prosiectau ar waith yn gyflym mewn rhanbarthau eraill. Bydd hyn yn grymuso staff ar lefel clwstwr ac ardal leol i drawsnewid eu ffordd o weithio a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Pen-y-bont ar Ogwr - Cyflymu newid ar gyfer ein Gwasanaethau Integredig (rhan 2)

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (sydd bellach yn rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg) wedi datblygu modelau a dulliau integredig ac ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cymunedol i oedolion, mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn seiliedig ar ymyriadau cynnar rhagataliol i sicrhau bod pobl yn cael ymateb prydlon sy'n gymesur â'u hanghenion, ac sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth, eu llais a'u dewisiadau.

Nod y prosiect yw:

- Sicrhau mynediad saith niwrnod yr wythnos at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned – “dydd Mawrth yw pob dydd”, gan ddarparu dewisiadau gwasanaeth amgen estynedig i ofal yn yr ysbyty a gofal hirdymor.
- Dull tîm amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol a chymunedol; defnyddio dull ‘un tîm’ sy'n canolbwyntio ar bobl, gan gydlynu ymatebion y clwstwr gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.
- Datblygu a sicrhau cymunedau cryf a chydlynus; a'r sefydliadau allweddol, ynghyd â'u partneriaid a'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu yn datblygu buddion drwy gydweithio i roi dulliau ataliol ar waith a fydd yn gwella llesiant poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/HR/SOT

20 Awst 2019

Annwyl Mr Ramsay

Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 – Staff Asiantaeth

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 23 Gorffennaf 2019. Gweler yn Atodiad A ein hymateb i'r cwestiynau am staff asiantaeth yn GIG Cymru na chafodd eu cyrraedd ar 15 Gorffennaf.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall CBE



Staff asiantaeth**Cwestiynau 1 a 2 – Casglu data**

Ers inni gyflwyno'r Cylchlythyr ym mis Tachwedd 2017, mae pob sefydliad bellach yn adrodd yn rheolaidd i'w Byrddau ar eu gwariant ac unrhyw achosion o dorri mesurau rheoli, ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw achosion o'r fath. Y brif her wrth gasglu data ar gyfer Cymru gyfan yw sicrhau bod pob sefydliad yn casglu ac yn categorio gwybodaeth mewn ffordd gyson trwy ddefnyddio diffiniadau a systemau casglu data cadarn fel y gellir meincnodi ac adrodd ar Gymru gyfan.

Ym mis Mehefin 2019 aethom ati i gyflwyno protocol wedi'i gaboli ar gyfer casglu data yn seiliedig ar brofiad a ddeilliodd o gamau cychwynol y gwaith hwn, a'n nod yw llunio dadansoddiad cadarnach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bwriad y system casglu data sydd wedi'i chaboli yw casglu data'n ymwneud â defnyddio staff asiantaeth a staff GIG parhaol sy'n gweithio oriau ychwanegol.

Cwestiwn 3 – Swyddi gwag

Mae sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn nodi eu hanghenion o ran gweithlu a'u cynlluniau gweithlu trwy gyfrwng proses sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Tymor Canol Integredig, ac mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r manau lle y ceir heriau o ran recriwtio, ynghyd â'r strategaethau ar gyfer ymdrin â hwy. Gall hyn gynnwys recriwtio staff i swyddi gwag trwy gyfrwng recriwtio parhaol, ond bydd hefyd yn cynnwys datblygu ac ailgynllunio'r sefydliad fel y gellir elwa i'r eithaf ar y defnydd o weithio amlddisgyblaethol neu symud y cydbwysedd gofal yn nes at gartref y claf, yn unol â 'Cymru Iachach'. Mae data presennol yn ymwneud â swyddi gwag yn seiliedig ar y swyddi hynny sydd wedi'u hysbysebu ar gyfer recriwtio parhaol, ac felly ni chyflwynir darlun llawn o anghenion staffio dynamig y GIG yng Nghymru. Bydd datblygu Strategaeth Gweithlu newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnig dull mwy strategol o gwrdd ag anghenion gweithlu'r GIG yng Nghymru ynghyd â data mwy cadarn i ategu'r dasg o gyflawni hyn.

Cwestiwn 4 – Sut yr ydym yn ymdrin â recriwtio a chadw, a beth yw'r rhwystrau

Mae gweithlu'r GIG wedi cynyddu ym mhob un o'r chwe blynedd flaenorol, o gyfanswm o 72,001.7 cyfwerth ag amser cyflawn yn 2012 i 79,054.4 yn 2018 – cynnydd o 9.8%. Mae pob un o'r prif grwpiau staff wedi tyfu dros yr un cyfnod, a gwelir cynnydd nodedig mewn staff meddygol a deintyddol (10.5%) a staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd (5.6%).

Serch hynny, ceir galw o hyd am gapasiti staffio dros dro, ac rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau ar draws Cymru i ymdrin â recriwtio a chadw gweithlu'r GIG yng Nghymru. Mae'r rhain yn anelu at leihau bylchau yn y gweithlu parhaol trwy ddefnyddio dulliau sy'n anelu at recriwtio i'r gweithlu parhaol, defnyddio staff presennol yn fwy effeithiol a datblygu'r dirwedd strategol ar gyfer darparu atebion hirdymor i heriau'n ymwneud â'r gweithlu.

Mae Cymru Iachach yn nodi ein cynlluniau i ganolbwyntio ar iechyd a llesiant y gweithlu er mwyn gwella recriwtio a chadw, ond hefyd i ddatblygu strategaeth gweithlu fwy cydlynol er mwyn darparu ar gyfer anghenion GIG Cymru yn y dyfodol. Ymhellach, rydym wedi sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gydweddu'r strategaeth gweithlu a'r gwaith o gynllunio a

datblygu'r gweithlu ag anghenion y GIG yng Nghymru ac i ddiwallu ein dyheadau o gael gweithio amlddisgyblaethol cryf fel y gellir darparu gofal yn nes adref.

Rydym wedi cael peth llwyddiant nodedig trwy gyfrwng ein rhaglen

Hyfforddi:Gweithio:Byw sy'n anelu at recriwtio i'r gweithlu parhaol, trwy hyrwyddo gyrfaedd GIG Cymru a thynnu sylw at y manteision a ddaw yn sgil hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru. Mae'r ymgyrch yn cynnwys nifer o elfennau, gan gynnwys ymgyrch ddigidol ac ar y cyfryngau cymdeithasol a ategir trwy fynychu arddangosfeydd a chynadleddau amlwg a arweinir gan y proffesiwn.

Fel rhan o ymrwymiad y llywodraeth i ddenu mwy o feddygon i Gymru, ac i ategu'r ymgyrch farchnata genedlaethol a rhyngwladol, mae dau o gynlluniau cymhelliant wedi'u creu mewn perthynas â hyfforddiant mewn arbenigeddau meddygon teulu. Mae'r cynllun a dargedir yn cynnig £20,000 i feddygon teulu dan hyfforddiant ar gyfer dilyn eu hyfforddiant yng Ngogledd Orllewin Cymru, yng Nghanol Gogledd Cymru, yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, yng Ngheredigion, yn Sir Benfro ac ym Mhowys, gydag ymrwymiad i weithio yng Nghymru am flwyddyn ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Yn hanesyddol, gwelir cyfraddau isel o safbwynt llenwi swyddi yn yr ardaloedd hyn, gyda chyfraddau llenwi o lai na 75% dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r cynllun cyffredinol yn cynnig taliad untro i bob meddyg teulu dan hyfforddiant, er mwyn talu'r costau o sefyll eu harholiadau terfynol. Mae'r ddau gynllun cymhelliant wedi cael eu hymestyn am flwyddyn arall, gan ymdrin felly â myfyrwyr 2019. Cafodd yr ymgyrch ei hymestyn i gynnwys hyfforddiant seiciatreg graidd, lle y gwelir tuedd ar i lawr o safbwynt llenwi lleoedd hyfforddi. Yn 2017, cafodd cynllun cymhelliant ar gyfer hyfforddeion seiciatreg graidd ei gyflwyno, ar gyfer sefyll un o'r arholiadau aelodaeth MRCPsych, ac mae wedi'i ymestyn am flwyddyn arall, gan ymdrin felly â myfyrwyr 2019.

Mae'r camau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau llenwi hyfforddiant mewn arbenigeddau. O safbwynt hyfforddiant i feddygon teulu, o darged recriwtio o 136 o leoedd, yn 2017 – cafodd 144 o leoedd eu llenwi; yn 2018 – cafodd 134 o leoedd eu llenwi ac eleni – cafodd 131 o leoedd eu llenwi, a hynny ar ôl y rownd recriwtio gyntaf yn unig o blith tair. Soniodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru hefyd am ddiddordeb cadarnhaol o du meddygon a oedd yn cyflwyno ceisiadau yn ystod cyfnod recriwtio ailhysbysebu rownd 1, pan welwyd mwy o geisiadau. Ar gyfer hyfforddiant seiciatreg graidd, yn 2018, cafodd 11 o blith yr 14 lle eu llenwi, sef cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan welwyd 6 yn unig o blith yr 18 lle yn cael eu llenwi. Eleni, ar ôl cyfnod recriwtio ailhysbysebu rownd 1, mae 100% (21 o blith y 21) o'r lleoedd wedi'u llenwi.

Yn ogystal â thargedu meddygon, roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys cam yn ymwneud â nyrsys, ac yn ddiweddar cafodd ei hymestyn i hyrwyddo hyfforddiant fferylliaeth rhag-gofrestru, gyda chanolbwynt ar ofal sylfaenol a gweithio amlddisgyblaethol mewn practisau meddygon teulu. Rydym ar fin gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu Hyfforddi:Gweithio:Byw er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu ar y llwyddiannau ac yn pennu meysydd lle y gallwn wneud mwy i hybu effaith y rhaglen hon.

Ochr yn ochr â'r ymgyrch recriwtio, rydym wedi buddsoddi mwy mewn Hyfforddiant ac Addysg, ac am y bumed flwyddyn yn olynol mae cyllid i gynorthwyo addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru wedi cynyddu. Yn ystod 2019/20 bydd £114m yn cael ei fuddsoddi – cynnydd o £7m ers 2018/19 – i gynorthwyo amrywiaeth o raglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru. Dyma'r swm mwyaf erioed ar gyfer y maes hwn, a bydd yn cynnal y nifer fwyaf erioed o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru.

Bydd y pecyn cymorth hwn yn cynnal buddsoddiad mewn lleoedd hyfforddi ar gyfer nyrsys, ymwelwyr iechyd, bydwagedd, ffisiotherapyddion, gweithwyr iechyd galwedigaethol, parafeddygon, radiograffyddion a therapyddion lleferydd ac iaith. Mae sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cynnig mwy o gyfleoedd i ystyried heriau'r presennol a'r dyfodol o safbwynt y gweithlu, a sut y gall addysg a hyfforddiant ategu'r newidiadau y mae eu hangen i ymdrin â'r heriau hyn. Er mwyn cael mwy o bwyslais ar dimau amlddisgyblaethol, efallai y bydd yn rhaid cael newidiadau sylfaenol yn y ffordd y caiff rhaglenni addysg a hyfforddiant eu pennu, eu comisiynu a'u cyflwyno yn y dyfodol, a bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru, trwy weithio gyda phartneriaid allweddol, yn cynnig arweiniad yn y maes hwn.

Mae'r mesurau hyn wedi cael effaith ar recriwtio, ac mae nifer yr unigolion sy'n rhan o weithlu'r GIG ar y lefel uchaf a welwyd erioed. Fodd bynnag, mae'r galw am wasanaethau'r GIG yn parhau i gynyddu, gan gynyddu felly y galw am recriwtio parhaol i'r gweithlu, a chaiff hyn ei wneud yn anos gan farchnad ryngwladol gystadleuol am weithwyr iechyd medrus a hynod hyfforddedig.

Cwestiwn 5 – Pam nad yw'r gwariant wedi gostwng ym mhob Bwrdd Iechyd

Cyflwynwyd fframwaith rheoli safonedig ledled Cymru i ymdrin â rhai o'r materion cyffredinol a oedd yn effeithio ar y defnydd o staff asiantaeth ac, ar y cyfan, mae hyn wedi arwain at leihad mewn gwariant ar staff asiantaeth meddygol. Fodd bynnag, ceir ffactorau lleol pwysig sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau a'r ddarpariaeth gwasanaethau mewn gwahanol sefydliadau yn y GIG, ac adlewyrchir y rhain ym mhroffiliau gwariant y gwahanol sefydliadau. Roedd rhai Byrddau Iechyd yn gwario llawer iawn ar staff locwm mewn cymhariaeth â chyfanswm eu bil cyflogau, felly roedd ganddynt hwy fwy o gyfle i esgor ar arbedion; tra mae eraill, a oedd â gwariant is yn draddodiadol, wedi cynyddu rhywfaint, gan ddod yn nes at y norm cenedlaethol.

Fe fydd galw bob amser am gapasiti staffio dros dro mewn sefydliadau i ymdrin ag amgylchiadau na ellir eu rhagweld, fel absenoldeb salwch neu drosiant staff, a bydd effaith y digwyddiadau hyn yn amrywio dros amser. Hefyd, efallai y bydd sefydliadau'n penderfynu defnyddio rhywfaint o'u capasiti staffio dros dro i gynnig hyblygrwydd yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol neu wrth baratoi ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau lleol. Ymhellach, gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth sefydliadau'r GIG a Llywodraeth Cymru – fel effaith trefniadau treth a phensiwn a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU – effeithio ar barodrwydd staff parhaol y GIG i fynd i'r afael â dyletswyddau ychwanegol, gan gynyddu felly yr angen am staff locwm o asiantaethau allanol.

Felly, ni fyddem yn disgwyl o angenrheidrwydd i'r gwariant ddilyn tuedd lefn ar i lawr. Y peth hollbwysig yw sicrhau bod unrhyw newid mewn gwariant wedi mynd trwy broses graffu glir, bod y rhesymau dros y defnydd yn cael eu deall yn glir a bod camau ar waith i leihau'r defnydd o staff dros dro pan fo hynny'n ymarferol.

Cwestiwn 6 – Cynnydd mewn gwariant nyrsio dros dro ac effaith Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

Rhwng 17-18 ac 18-19 gwelwyd cynnydd o ryw 14 miliwn mewn gwariant o ganlyniad i gynydd yn nifer y staff nyrsio a ddefnyddiwyd. Mae sawl ffactor yn debygol o fod wrth wraidd y cynnydd hwn mewn defnydd, ac yn ôl pob tebyg mae rhywfaint o'r cynnydd wedi deillio o'r twf sylweddol mewn galw am wasanaethau GIG Cymru yn ystod y gaeaf diwethaf (yn dilyn y lefelau gweithgarwch uchaf a welwyd erioed mewn Adrannau Argyfwng yn ystod misoedd y gaeaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

Mae'n debygol hefyd fod rhywfaint o'r cynnydd wedi digwydd yn sgil cyflwyno'r flwyddyn lawn gyntaf o ofynion y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) sydd, yn ogystal â gosod gofynion penodol ar staff nyrsio mewn wardiau meddygol a llawfeddygol, wedi codi ymwybyddiaeth o'r angen am lefelau staffio priodol ar draws pob gwasanaeth. Dylai'r mesurau recriwtio a chadw sydd ar waith alluogi'r GIG i benodi staff i'r gweithlu i ateb y galw am staff nyrsio parhaol – sef rhywbeth nad yw wedi deillio o'r ffactorau tymhorol yn unig. Er bod y galw a'r gwariant cyffredinol wedi cynyddu, rydym yn llwyddo i gael gwell gwerth am arian gan fod 96% o'r defnydd yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Contract Fframwaith Cymru Gyfan.

Cwestiwn 7 – arweiniad o fewn y system

Mae Grŵp Llywio Defnydd Strategol o'r Gweithlu GIG Cymru wedi'i sefydlu i gynnig arweiniad ar draws y GIG er mwyn cydlynu a chyflawni gweithredu ar gam nesaf y gwaith ar ddefnyddio staff asiantaeth a staff locwm. Bydd y Grŵp hwn o uwch-arweinwyr ar draws y GIG yng Nghymru yn cynorthwyo i ddatblygu a chyflwyno rhaglen waith a fydd yn anelu at ddefnyddio'r gweithlu yn y modd mwyaf effeithiol, trwy ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni blaenoriaethau, datblygu capasiti, rhannu arferion gorau a datblygu atebion 'Unwaith i Gymru' fel y bo'n briodol. Y canolbwynt ar y cychwyn fydd blaenoriaethu a chyflymu'r rhaglen waith ar gyfer ymdrin â'r achosion sylfaenol sydd wrth wraidd gwariant ar staff asiantaeth a staff locwm ar draws y GIG yng Nghymru.

Mae aelodau'r grŵp hwn yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, undebau iechyd a GIG Cymru, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyfarwyddwyr Nyrsio a Chyfarwyddwyr Meddygol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Awst 2019. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar flaenoriaethu camau gweithredu er mwyn esgor ar yr effaith fwyaf i daclo rhai o'r materion sydd wrth wraidd gwariant ar staff asiantaeth a staff locwm, a fydd yn rhan o elfennau allweddol y cam gweithredu nesaf ar draws Cymru. O ganlyniad, rydym wrthi'n datblygu cynllun rhaglen i sicrhau bod capasiti staffio, technoleg ac adnoddau yn eu lle i gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Ein cyf/Our ref: CEO.1359
Gofynnwch am/Please ask for: Corporate Information Officer
Rhif Ffôn /Telephone: 01267 239892
Dyddiad/Date: 16 August 2019

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Nick Ramsay AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales

E-mail to- SeneddPAC@Assembly.Wales

Dear Chair

Re: Public Accounts Committee 8 July 2019

I regret that I was unable to attend the Public Accounts Committee on 8 July 2019, and look forward to an opportunity to attend the Committee again in the future. I have viewed the proceedings with interest, and I wanted to take the opportunity to write to the Committee to respond to the remaining questions, which were not fully addressed on the day.

The questions which remained unanswered are addressed below:

The Director of Finance agreed to send details of the total expenditure on overtime for permanent staff in contrast to the reduction of costs on agency staff.

Overtime costs were £4.4m in 2018/19 and £4.2m in 2017/18; the increase is predominately in relation to Registered Nursing staff. However, there was also an increase over the same period in Registered Nursing agency costs as the Health Board has used such staff in order to maintain safe services across our sites. Medical and Dental staff are not paid 'overtime'; this cohort would instead be paid for additional sessions. It is not practically possible to separately identify the cost of additional sessions for additional time versus other reasons for payments of additional sessions, such as additional responsibility.

Over this period, however, there has been a reduction in Medical Agency expenditure, primarily driven by the introduction of the price caps following the Welsh Health Circular (WHC/2017/042) issued in October 2017. The average monthly expenditure on Medical Agency between April 2017 and October 2017 was £0.9m; the average monthly expenditure between November 2017 and March 2018 was £0.5m and for 2018/19 £0.4m.

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth,
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building,
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Cadeirydd Dros Dro / Interim Chair
Mrs Judith Hardisty

Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Steve Moore

You have reported that you spent £18.9 million last year hiring agency staff to cover vacancies – 92% of your total agency spend. Do you know how many vacant medical and nursing posts were covered by agency staff last year, and the grades or specialities of these posts?

Unfortunately, it is not possible to identify how many posts have been used to cover vacancies across the Health Board.

In the first instance, the use of agency staff may not be to just cover vacancies; but it can be to support the delivery of additional activity in planned care to reduce waiting times, or to backfill medical staff who are required to undertake other training, development or other duties.

Likewise, vacancies are not only covered through agency spend, the service considers alternative options before committing to premium agency costs as follows:

- the vacancy is not covered if the service can operate with fewer staff on a short term basis;
- the vacancy is sometimes covered by existing medical staff doing additional sessions to their core sessions;
- the vacancy is covered by part time staff doing extra up to 37.5 hours;
- the vacancy is covered by staff doing overtime

How many nursing and medical posts are currently vacant?

As at 30 June 2019, the Health Board had 193.62 vacancies in Medical and Dental staff; and 428.48 vacancies in Nursing and Midwifery staff.

How much money would your Health Board save if you were able to employ permanent staff to fill these vacant posts?

Not all vacancies will be filled with premium cost staff; some vacancies are not covered at all because resource is deployed to the greatest area of need and some may be covered at plain time bank rate.

Taking Nursing and Midwifery, and Medical and Dental in turn:


- Nursing and Midwifery: the Agency premium cost in June 2019 was approximately £4.7m, however the level of funded unfilled vacancies offset the potential impact by £4m, meaning that the in-month cost pressure was £0.6m. The premium in 2018/19 has been estimated to be £4.8m.
- Medical and Dental: due to the data limitations, the best approximation would be the 2018/19 premium estimate of £1-2m.

Could you describe any particular barriers that your Health Board faces when recruiting new doctors and nurses? Do you understand how your rates of recruitment and retention compare with other Health Boards in Wales?

The Health Board faces significant challenges in recruiting staff. The challenges we face are as a result of our rurality, the lack of applicants, the intensity of on-call rotas in our relatively small hospital sites, and the fact that the Health Board is not a large teaching organisation.

The graph below illustrates the turnover rate for a 12 month period to January 2019 by staff group.

12 month Turnover rate for Hywel Dda UHB (Mar-19) and NHS Wales (Jan-19)




The percentage of total number of leavers from organisations in a 12 month period by staff group, excluding doctors and dentists in training. This is calculated as the headcount leaving the organisation within a 12 month period/average total headcount employed.

Turnover for NHS Wales only includes people who have left NHS Wales. Therefore, staff movement between organisations within Wales is excluded. In some cases NHS Wales' turnover will be lower than all organisations for this reason.

The turnover for staff groups in Hywel Dda is higher than NHS Wales for the Nursing and Midwifery Registered, Allied Health Professionals and Administrative and Clerical staff groups. Nursing and Midwifery Registered is 9.1% compared with NHS Wales 7.5%. Allied Health Professionals is 8.9% compared with NHS Wales 7.6%. Turnover for all staff groups is 8.2%; NHS Wales is 7.1%.

The Health Board is not aware of All-Wales statistics in relation to recruitment. As at the end of June 2019, the Health Board were actively recruiting 388.5 WTE across all staff groups. This does not include the vacancies that are currently going through the recruitment approval process.

The Health Board undertake exit interviews wherever possible, allowing an opportunity for both managers and the organisation to gain valuable insight into any key issues to support improvement and development of our patient services and employee experience. The graph below illustrates the reasons for leaving:



I am grateful for the opportunity to respond to you following the Committee meeting.

Should you have any further queries on the information included, I would be delighted to provide further detail.

Yours sincerely

Steve Moore
Chief Executive

Public Accounts Committee

Implementation of the NHS Finance (Wales) Act 2014

Additional information from Aneurin Bevan University Health Board

On behalf of Ms Judith Paget, Ms Martine Price & Mr Glyn Jones we are pleased to respond as follows:

- **You spent £16.2 million last year hiring agency staff to cover for vacancies. This is 77% of your total agency spend. Do you know how many vacant medical and nursing posts were covered by agency staff last year, and the grades or specialities of these posts?**

In 2018/19, each week an average of 65 vacant nursing posts were covered by agency staff, these were covered at a band 5 level. In addition, on average 31 vacant medical posts were covered by agency staff each week, 17 of these posts were training grades and 14 of these posts were senior medical grades, including consultants.

- **Could you describe any particular barriers that your Health Board faces when recruiting new doctors and nurses? Do you understand how your rates of recruitment and retention compare with other Health Boards in Wales?**

The most significant barrier to recruiting new doctors and nurses to the Health Board is the national skills shortages across a number of professions and specialities. Most notably there is a recognised national shortage of registered nurses across the NHS. In addition, there are difficulties in recruiting junior doctors particularly in obstetrics and gynaecology, paediatrics and trauma and orthopaedics due to skills shortages. The Health Board has particular difficulty in attracting substantive and temporary workforce to Nevill Hall Hospital largely as a result of its rural location and a recent increase in the number of

retirements has also contributed to increasing vacancies. These barriers are mitigated by a range of positive actions including national and overseas recruitment campaigns and designing new multi-disciplinary roles to support medical and nursing gaps, such as the appointment of Physician Associates.

Our recruitment and retention rate is measured through staff turnover.

The most recent all Wales workforce information shows that for the period of June 2018–June 2019, our turnover rates for medical and nursing staff compared favourably with NHS Wales. Our medical staff turnover for this period was 6.3% which was the lowest in Wales compared to other Health Boards. Nursing turnover for the same period was 8.9%, the second lowest rate in Wales compared to other Health Boards.

29 August 2019

Ein cyf/Our ref: MA-P/FM/2542/19

Lynne Neagle, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@cynulliad.cymru

5 Awst 2019

Annwyl Lynne,

Gwella canlyniadau ar gyfer plant

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Mehefin.

Hoffwn nodi'n glir o'r dechrau: mae gormod o blant yn cael eu cymryd oddi ar eu teuluoedd yng Nghymru, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn gyson a di-baid, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ers dechrau'r 1990au. Nid fy marn bersonol neu fympwyol i yw hyn. Dyma farn Llywyddion olynol y Llysoedd Teulu.

Yn 2016, daeth y Llywydd ar y pryd, Syr James Munby, i'r casgliad y byddai'r system yn wynebu argyfwng amlwg yn fuan, heb unrhyw strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag argyfwng o'r fath. Nid wyf i yn fodlon inni fod heb strategaeth yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, daeth Syr James i'r casgliad bod y cynnydd cyson a di-baid yn nifer a chyfran y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal cyhoeddus yn gysylltiedig ag ymddygiad awdurdodau lleol. Dywedodd ei bod yn rhaid eu bod yn chwarae rhan sylweddol yn y cynnydd mewn achosion a ddaw gerbron y Llysoedd Teulu. Daeth i'r casgliad bod yr amrywiad eang yn y cynnydd mewn cyfraddau rhwng awdurdodau lleol yn cyfiawnhau craffu ar sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hadleisio gan olynydd Syr James, sef Syr Andrew McFarlane. Mae ei gasgliad ef union yr un fath â'm casgliad innau, sy'n fy ngwneud yn benderfynol y dylem weithredu i fynd i'r afael â'r anghyfiawnder hwn yng Nghymru. Dywed Syr Andrew:

'We have reached a stage where the threshold for obtaining a public law court order is noticeably low, whereas the threshold for a family being able to access specialist support services in the community is conversely very high'.

Mae hyn felly yn fater hawliau plant – yr hawl i gael eich cefnogi i fyw gyda'ch teulu eich hun, yn hytrach na chael eich tynnu oddi ar y teulu.

Ni ddylem chwaith dderbyn nad yw'n bosibl gwneud unrhyw beth i symud y system i'r cyfeiriad hwnnw. Ar ddechrau'r degawd hwn, rhoddodd Castell-nedd Port Talbot gyfran uwch o blant mewn gofal cyhoeddus nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru a Lloegr. Heddiw, ar ôl gweithredu ar y cyd, mae'r patrwm wedi'i wrthdroi. Mae eu cyfraddau plant sy'n derbyn gofal wedi lleihau cymaint â thraean rhwng 2013 a 2018. Mae awdurdodau lleol eraill, fel Casnewydd, wedi llwyddo dros gyfnod hir i ddarparu gwasanaeth sydd wedi mynd yn groes i'r tueddiad a fu mor gryf yng Nghymru a Lloegr.

Rwy'n cydnabod y gall newid i ddulliau atal fod yn heriol i rai. I helpu gyda'r broses, y llynedd gwnaethom ddarparu £9m ychwanegol o gyllid rheolaidd i gefnogi gweithgareddau ataliol ac eleni rydym wedi rhoi £15m ychwanegol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i atal yr angen am ofal. Mae cronfeydd eraill ar gael i awdurdodau lleol wneud cais am arian ohonynt, fel y Gronfa Buddsoddi i Arbed a'r Gronfa Trawsnewid. Gall awdurdodau ddysgu o arferion da ei gilydd. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gipolwg o'r gwaith hwn yn yr ymchwiliad gwerthfawrogl a gynhaliwyd fel rhan o lif gwaith atal Grŵp Cyngori'r Gweinidog.

Yn fy maniffesto i arwain, dim ond un cynnig wnes i ar gyfer targedau newydd yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Y cynnig hwnnw oedd ceisio gwireddu'r uchelgais a oedd eisoes wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i sefydlogi ac yna lleihau cyfran y plant yng Nghymru sy'n cael eu cymryd oddi ar eu teuluoedd, eu lleoli y tu allan i'r sir, a'u lleoli y tu allan i'r wlad. Fy rheswm dros wneud hyn oedd nad oedd pum mlynedd, a rhagor, o anogaeth, cyngor, adroddiadau arbenigol, cyllid ar gyfer arweinyddiaeth arbenigol a chymau gweithredu eraill wedi llwyddo i gael yr effaith y dymunwn ei gweld. Nid diben targedau yw peryglu diogelwch plant, ond yn hytrach canolbwyntio ymdrechion awdurdodau lleol ar dasg gyffredin. Rwy'n croesawu'r ffaith bod 18 o'r 22 awdurdod lleol wedi cytuno ar gynlluniau a fydd yn awr yn helpu i wneud gwahaniaeth ymarferol. Rwy'n bryderus bod rhai o'r awdurdodau hynny sydd heb gytuno ar gynlluniau eto ymysg y rhai hynny sydd fwyaf o angen gweithredu ac, mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn troi'r drafodaeth oddi wrth eu cyfrifoldebau eu hunain na chymryd rhan yn y gwaith o ddatrys y problemau sylfaenol bwysig sydd yn y fantol.

Rwy'n edrych ymlaen at gael cefnogaeth barhaus eich pwyllgor i gyflawni'n huchelgais gyffredin o sicrhau lles gorau plant a'u teuluoedd yng Nghymru.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD



By email

09/08/2019

Re: Involvement in the first Future Generations Report

Dear Nick,

Producing a Future Generations Report is one of my duties in the Well-being of Future Generations Act. It must provide advice on improvements public bodies should make in order to set and meet well-being objectives which are the commitments they chose to make to improve the economy, society, environment and culture of their area. My report will also include information on the progress to date and on what should happen in the future. The Report will be published in May 2020.

This will be the first Future Generations report and will include the following main chapters: 'considering where we are and should go culturally (5 Ways of working and 7 core areas); where we are and should go in achieving the well-being goals (including objectives and steps); a particular consideration of our areas of focus (transport, planning, housing, ACEs, skills, alternative models for the health system, decarbonisation, budgeting and procurement); recommendations and ideas.

Using the five ways of working we intend to follow the involvement principle and in addition to our national conversation ['Our Future Wales'](#) and our online stories forum, ['The People's Platform'](#), I would like to give you an opportunity to help shape the content of my report and my recommendations. I also want to flag in the report, the resources which would be most useful to public bodies and would welcome suggestions as to reports, documentations and recommendations your committee would like to point out.

I would be grateful if you could send us any information or comments you would like me to consider by the 1st of November 2019. I am interested in particular in concerns, observations, opportunities or recommendations you think are most important, as well as a list of issues you think are of greatest importance to current generations and then to future generations to see if they differ.

I look forward to hearing the views of your committee.

If you wanted to talk in person, we could seek to organise a meeting with my colleagues who will also be visiting Ty Hywel's cafeteria in the autumn with Positif Politics and further information will be sent to you about this opportunity. We would welcome the opportunity to meet with you and your colleagues.

My office will also contact every Assembly Member separately to ask for their personal opinions and we are also preparing tailored 'Assembly Members briefing packs' that provide further information on my work to date and the priorities for the year ahead. You will receive this separately and individually. It will also include some examples of how the Act is being delivered in your area.

If you have any further questions, please don't hesitate to get in touch.

Regards,



Sophie Howe
Future Generations Commissioner for Wales

Nick Ramsay AM
 Public Accounts Committee Chair
 National Assembly for Wales
 Cardiff Bay
 Cardiff
 CF99 1NA

31st July 2019

Dear Nick,

Thank you for inviting the Development Bank of Wales to give evidence to the Public Accounts Committee inquiry into Welsh Government Financial Support for Business. At the session I undertook to write with further detail about the numbers of housing units built as a result of our support.

I am pleased to be able to confirm that to date, 868 units have or are in the process of being constructed as a result of Development Bank of Wales support. The breakdown is as follows:

Wales Property Fund	398 units
Wales Property Fund 2	360 units
Wales Stalled Sites Fund	110 units
Total	868 units

Development Bank of Wales Plc

Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales: Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.

I trust this information is useful to the committee and if I can be of any further assistance please let me know.

Yours sincerely,



Giles Thorley
Chief Executive

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

2 Medi 2019

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf yn holi am ragor o wybodaeth yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar 24 Mehefin.

Byddaf yn ymdrin â phob agwedd yn ei thro.

- *Yn ogystal â'r Prif Weithredwr, a oes gan unrhyw un o'ch Uwch-swyddogion Gweithredol ym Manc Datblygu Cymru unrhyw Gyfarwyddiaeth â thâl arall, ac os felly, pa brosesau a ddilynwyd i geisio cymeradwyo y Cyfarwyddiaethau hynn A fyddai modd ichi ddarparu manylion, os yn briodol, o enghreifftiau penodol?*

Yn ogystal â'r Prif Weithredwr, mae gan un Uwch-swyddog Gweithredol Banc Datblygu Cymru Gyfarwyddiaeth â thâl. Mae David Staziker, Cyfarwyddwr Cyllid Banc Datblygu Cymru yn derbyn taliad blynyddol o £6,000 am y gwaith y mae'n ei wneud fel Gyfarwyddwr Anweithredol Grŵp Pobl. Cafodd y penodiad ei gymeradwyo gan Brif Weithredwr Banc Datblygu Cymru a gan Lywodraeth Cymru tuag at ddiwedd 2017, a daeth y taliadau i rym ym mis Gorffennaf 2018. Caiff y rôl yma ei datgelu yn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Banc Datblygu Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2019.

Mae gan aelodau eraill yr Uwch-dîm Rheoli gyfarwyddiaethau, ond nid oes tâl ar gyfer rhain.

- *Gan nad yw y Swyddfa Ystadegau Gwladol bellach yn cyhoeddi dadansoddiad is-enedlaethol o ffigurau dileu swyddi yn fisol, cadarnhad a yw Llywodraeth Cymru yn cadw log ar lefelau dileu swyddi (yn hytrach na diweithdra sy'n set data ar wahân) yng Nghymru ac a yw lefelau wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf.*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw log ar lefelau colli swyddi yng Nghymru.

- *Cadarnhad o'r tro olaf i Lywodraeth Cymru, ar lefel weinidogol, drafod gyda tîm rheoli byd-eang Cwmni Moduro Ford yn yr Unol Daleithiau cyn i'r cyhoeddiad gael ei wneud i gau Ffatri Pen-y-bont ar 6 Mehefin 2019*

Er bod y Prif Weinidog, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ac uwch-swyddogion yn cysylltu yn aml ag uwch swyddogion, gyda chymorth arweinyddiaeth fyd-eang Ford gan Ford of Europe a Ford of Britain cyn y cyhoeddiad, roedd y cysylltiad uniongyrchol olaf â thîm rheoli yr Unol Daleithiau cyn y cyhoeddiad ar 6 Mehefin, ym mis Mehefin 2018 yn ystod ymweliad y Prif Weinidog blaenorol â Washington.

- *Swm, math a phwrpas cymorth ariannol Llywodraeth Cymru (boed yn uniongyrchol neu drwy Cyllid Cymru neu'r Banc Datblygu), oedd unrhyw un o'r cwmnïau a gafodd eu henwi yn ystod y sesiwn (yn Rop 289-291) wedi ei dderbyn cyn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr a chadarnhad o unrhyw ddyledion sy'n weddill (GM Jones, Cuddy group, Jistcourt, GRH Food Company).*

Manylion wedi'u rhoi yn **Atodiad 1**.

- *Dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o drefniadau strwythurol Grŵp Dawnus gan gynnwys a yw'r cwmni cyfan wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu a yw'n parhau i weithredu ei gwmnïau rhyngwladol, cwmnïau eraill yn gysylltiedig â Dawnus neu gwmnïau sydd wedi ail-ymddangos. Hefyd, mae'r eglurhad o pam yr oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn briodol i roi benthyciad i gwmni gyda gweithrediadau dramor, sydd o fewn grŵp mawr o gwmnïau, os nad oedd pob rhan o'r gweithredu hwnnw mewn trafferthion ariannol.*

Mae dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o drefniadau strwythurol cwmnïau sy'n gysylltiedig â Dawnus sydd wedi eu cofrestru yn y DU fel a ganlyn:

- Dawnus Group Limited yw prif gwmni daliannol ar gyfer pob busnes o fewn Grŵp Dawnus a dyma riant-gwmni Dawnus Construction Holdings Limited, Dawnus Developments Limited a Dawnus International Limited;
- Dawnus Construction Holdings Limited yw riant-gwmni Dawnus Southern Limited ac Ashridge Construction Limited;
- Dawnus Developments Limited yw riant-gwmni Churchfield Homes Limited, Construction Recyclate Management Limited (ddaeth i ben ar ddiwedd 2017); Medrus Plant Hire Limited; Dawnus Limited; Quantum Geotechnical Services Limited; Dyffryn Court Management Limited a Legsun Limited.
- Dawnus International Limited yw riant-gwmni Dawnus Sierra Leone Limited.

Mae pob un o'r cwmnïau hyn sy'n gysylltiedig â Dawnus ac wedi'u cofrestru yn y DU yn nwylo'r gweinyddwyr.

Er bod Dawnus International Limited yn gwmni sydd wedi cofrestru yn y DU, dyma riant-gwmni y cwmnïau canlynol, sydd wedi cofrestru yn lleol yn Affrica ac wedi eu sefydlu'n arbennig er mwyn sicrhau trwyddedau lleol i Dawnus allu gweithredu ym mhob gwlad; Dawnus Mauritius (rhiant-gwmni uniongyrchol Dawnus Senegal), Dawnus Tanzania, Dawnus Guinea a Dawnus Liberia.

Er bod y busnesau hyn yn parhau i fod yn weithredol, nid ydynt yn masnachu. Ni chawsant eu rhoi yn nwylo'r gweinyddwyr gyda busnesau eraill yng Ngrŵp Dawnus gan eu bod y tu allan i awdurdodaeth gyfreithiol y DU. Mae swyddogion ar ddeall bod y cwmnïau hyn yn (ac yn parhau i fod) yn segur, gan bod pob contract rhyngwladol wedi'i gyflawni drwy Dawnus International.

Ym mis Mawrth 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfleuster masnachol o £3.5 miliwn i Dawnus Group Limited fel rhan o becyn £7 miliwn, wedi'i ddarparu rhwng Llywodraeth Cymru a'r banc busnes, yn ogystal â chyfraniad rhanddeiliaid a chyllid gan gwmni cyllido arbenigol ar gyfer datblygu eiddo. Darparwyd y cyfleuster gan Lywodraeth Cymru ar delerau masnachol a'i wneud yn ddiogel ar asedau o fewn y busnes. Roedd y benthyciad yn cefnogi y llif arian ar gyfer y busnes. Roedd y benthyciad hefyd yn gwarchod y 700 a mwy o swyddi ar draws y grŵp gyda 430 o'r rheini yng Nghymru, a mwyafrif llethol y gweddill yn y Deyrnas Unedig.

Rhoddwyd y benthyciad ar sail cynllun credadwy i drawsnewid y busnes, wedi'i wirio gan brosesau diwydrwydd dyladwy allanol a mewnol. Cafwyd asedau o bortffolio diogelwch presennol y banc busnes a'u darparu i Lywodraeth Cymru fel diogelwch am ei fuddsoddiad ar drefniant 'pari passu'. Gan bod Llywodraeth Cymru wedi drychweddu buddsoddiad, diogelwch a risg benthyciad masnachol y busnes, gan ystyried y cynllun trawsnewid credadwy, a diogelu dros 700 o swyddi, teimlwyd ei fod yn briodol i argymhell benthyciad i'r busnes.

• Mae unrhyw drafodaeth a gynhaliwyd rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ynghylch hyfywedd Dawnus yng nghyd-destun i ba raddau y mae'n rhan o brosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn benodol rhaglen ysgolion y 21ain Ganrif yng nghyd-destun y prosiectau ym Mhowys.

Cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu hysbysu yn gyntaf o fwriad Grwpiau Dawnus i roi'r busnesau yn nwylo'r gweinyddwyr wedi cyfarfod o'r bwrdd a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019. Cynt gynted ag yr oedd swyddogion yn ymwybodol o'r bwriad i roi grwpiau busnes Dawnus yn nwylo'r gweinyddwyr, cafwyd rhybudd priodol ar draws holl adrannau perthnasol y Llywodraeth.


O ran y prosiectau mewn ysgolion yng Nghyngor Sir Powys o dan y rhaglen ysgolion cyfalaf yr 21ain ganrif, dim ond un o'r tri prosiect yma sydd wedi dechrau, gyda dau arall yn cael eu cynllunio. Roedd prosiect a gafodd ei gwblhau'n rhannol, - sef ysgol cyfrwng Saesneg i 360 o ddisgyblion ym Mhowys - wedi ei roi i'r busnes yn 2017.

Mae gan gyrff y sector cyhoeddus / awdurdodau lleol eu dulliau eu hunain o gydymffurfio a chraffu ar brosesau diwydrwydd dyladwy ar gyfer asesu risg wrth gaffael gwasanaethau.

O ran eich pwynt terfynol, yn holi am wybodaeth ychwanegol am Gronfa Gwyddorau Bywyd Cymru, a swyddogaeth Banc Datblygu Cymru, wele'r wybodaeth wedi'i hatodi yn **Atodiad 2**.

Croeso ichi gysylltu â mi os hoffech fwy o wybodaeth.

Yn gywir



ANDREW SLADE

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Swm, math a diben cymorth ariannol Llywodraeth Cymru (boed hynny'n uniongyrchol neu drwy Gyllid Cymru neu'r Banc Datblygu) a gafodd unrhyw gwmnïau a enwyd yn ystod y sesiwn (yng Nghofnod y Trafodion 289-291) cyn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a chadarnhad o unrhyw ddyledion sy'n ddyledus (G M Jones, Cuddy group, Jistcourt, GRH Food Company).

Tudalen y pecyn 141

Enw'r Cwmni	Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru Llywodraeth Cymru	Y flwyddyn	Math o gymorth	Diben y cymorth	Swm y cymorth a dalwyd	Swm y ddyled sy'n ddyledus
GM Jones	Llywodraeth Cymru	2015-16 2016-17 2017-18	Cronfa Twf Economaidd Cymru	Er mwyn symud y busnes i eiddo mwy.	£130,000 £213,300 £56,700 £400,000	£400,000
	Banc Datblygu Cymru		Cyfalaf gweithio wrth dderbyn arian grant	Pontio arian grant Llywodraeth Cymru er mwyn gallu adeiladu eiddo newydd ar gyfer y cleient	£270,000	Dim
Cuddy Group (Cuddy Re-cycling Ltd)	Llywodraeth Cymru	2015-16 2016-17	Cronfa Twf Economaidd Cymru	Er mwyn sefydlu ffatri ailgylchu newydd.	£12,775 £122,032 £134,807	£134,807

Cuddy Group (Cuddy Demolition & Dismantling)		2008-09	Cynllun Cyllido yn ôl Disgresiwn	Rhaglen Datblygu'r Gweithlu	£750	-
		2010-11 2011-12	ReAct	Cyflogadwyedd a Sgiliau	£520 <u>£1,040</u> £1,560	-
		2013-14	Rhaglen Recriwtiaid Newydd	Cyflogadwyedd a Sgiliau	£2,550	-
		Jistcourt South Wales Limited	Banc Datblygu Cymru		Cronfa Fusnes Cymru	Cyfalaf gweithio i gefnogi gwaith presennol a chontractau ar gyfer y dyfodol
GRH Food Company	Llywodraeth Cymru	2015-16	Cronfa Twf Economaid d Cymru	Gosod system glyfar ar gyfer torri cawsiau	£139,309	£139,309

		2015-16	Grant Cynhaliaeth Twf Busnes	Datblygu Busnes	£10,738	-
		2010-11	Cronfa Ddatblygu Bwyd ac Amaeth (Cynllun bellach wedi cau)	Datblygu Busnes BBaCh Bwyd-amaeth	£4,025	-
		2014-15	Cynllun Cyllido yn ôl Disgresiwn	Rhaglen Datblygu'r Gweithlu	£950	-
		2018-19	Cronfa Datblygu Busnesau Tramor	Datblygu Allforion	£400	-
		2010-11 2011-12 2013-14 2014-15	Cynllun Grantiau Prosesu a Marchnata (Cynllun wedi cau)	Er mwyn gwella cystadleurwydd y sector amaethyddiaeth drwy ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol	£62,751 £134,638 £54,000 <u>£49,400</u> £300,789	£238,038
		2018-19	Buddsoddiad Busnesau Bwyd	Ail-leoli eiddo gweithgynhyrchu	£1,558,674	£1,558,674

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Tudalen y pecyn 154

Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Rheolwr prosiect tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nick Selwyn ac roedd y tîm yn cynnwys Steve Frank, Euros Lake, Matt Brushett, Philippa Dixon a Sara Leahy dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Adroddiad cryno	6
	Ein canfyddiadau	9
	Argymhellion	12
1	Mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd oherwydd cymhlethdodau'r system gynllunio	14
	Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio o fewn fframwaith cynllunio cymhleth ac aml-haen	15
	Mae rheoli dylanwadau a disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd wrth bennu blaenoriaethau defnydd tir a phenderfynu ar geisiadau'n gallu bod yn anodd i awdurdodau cynllunio	17
	Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi gwasanaethau cynllunio ond maent yn pryderu nad yw awdurdodau'n dda am ymgysylltu â hwy a'u cynnwys, a bod ganddynt ddiffyg uchelgais	21
2	Mae capasiti annigonol ac adnoddau sy'n mynd yn llai yn erydu cydnerthedd awdurdodau cynllunio	25
	Bu gostyngiad sylweddol yn adnoddau awdurdodau cynllunio	26
	Ceir cyfleoedd i gynyddu incwm a lleihau cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau cynllunio	27
	Nid yw'r capasiti'n ymestyn yn ddigon pell, ac mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd cyflawni swyddogaethau allweddol, ond dim ond cynnydd cyfyngedig a fu o ran gwella cydnerthedd	32

3	Mae amseroldeb ac ansawdd prosesau penderfynu'n amrywio'n eang ac mae perfformiad o ran rheoli ceisiadau'n wael	36
	Mae ffocws prosesau penderfynu pwyllgorau cynllunio'n amrywio'n eang ac mae lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi'n dal i fod yn uchel	37
	Mae perfformiad o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio'n wael	39
4	Mae angen gwaith pellach i gyflawni'r agweddau llesiant ar y Ddeddf Cynllunio (Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru	43
	Appendices	
	Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth	49
	Atodiad 2 – Y fframwaith cynllunio yng Nghymru	50
	Atodiad 3 – Cost net gwasanaethau rheoli datblygu awdurdodau lleol 2017-18	53
	Atodiad 4 – Cost net gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol 2017-18	54
	Atodiad 5 – Canfyddiadau'r arolwg	55

Adroddiad cryno

- 1 Y system gynllunio sy'n rheoli'r defnydd o dir a'r hyn a gaiff ei adeiladu arno, ac fe'i gorfodir gan awdurdodau cynllunio, sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu bwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig trwy roi neu wrthod caniatâd cynllunio. Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol¹ oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. Felly mae cynllunio'n sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir.
- 2 Gan yr awdurdod cynllunio lleol y mae'r rôl hollbwysig o ran adnabod pa ddatblygiadau y mae eu hangen ac ymhle; pa ardaloedd y mae angen eu gwarchod neu eu gwella; ac o ran asesu a yw datblygiad arfaethedig yn addas ai peidio. Ceir 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru: y 22 awdurdod unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol dair rôl allweddol: Polisi Cynllunio, Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu – **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1 – rôl awdurdodau cynllunio lleol

Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol rôl allweddol o ran cefnogi a rheoli datblygu sydd o fudd i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n ymweld â'r wlad.

Gwasanaethau Awdurdodau Cynllunio Lleol

Polisi Cynllunio

mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi polisiau cynllunio lleol ac yn nodi sut y caiff tir ei ddefnyddio, gan bennu'r hyn a fydd yn cael ei adeiladu ymhle. Cynlluniau lleol a fabwysiadwyd sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ledled Cymru a chânt eu datblygu a'u rheoli gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Datblygu

mae angen caniatâd ar y rhan fwyaf o adeiladau newydd neu newidiadau mawr i adeiladau presennol neu i'r amgylchedd lleol cyn y gellir bwrw ymlaen â hwy, a'r awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu ar y mwyafrif o geisiadau cynllunio.


Rheoli Adeiladu

rheoliadau adeiladu yw'r safonau gofynnol ar gyfer dylunio, adeiladu a gwneud addasiadau i fwy neu lai pob adeilad yng Nghymru. Mae rheoli adeiladu'n goruchwyllo llawer o'r gwaith hwn ond ni ddarperir y gwasanaethau hyn gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1 Mae Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn nodi polisiau cynllunio lleol ac yn nodi sut y caiff tir ei ddefnyddio, gan bennu'r hyn a fydd yn cael ei adeiladu ymhle. Cynlluniau lleol a fabwysiadwyd sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ledled Cymru.

Arddangosyn 2 – Y 25 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 3 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud cyfraniad pwysig i gefnogi datblygiad cartrefi newydd, gwarchod asedau naturiol, creu cyfleoedd cyflogaeth, gorfodi safonau dylunio uchel a gwella seilwaith lleol. Felly mae penderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol yn effeithio'n uniongyrchol ar bob un ohonom, ein llesiant a'n hansawdd bywyd.
- 4 Mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru **Ddeddf Cynllunio (Cymru)** newydd (y 'Ddeddf') yn 2015 sy'n ceisio sicrhau bod y system gynllunio'n 'deg, yn gadarn ac yn hwyluso datblygiadau' trwy fynd i'r afael â phum amcan:
- a fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu i geisiadau cynllunio, o dan amgylchiadau penodol, gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru;
 - b atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun – mae'r Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol;
 - c gwella cydnerthedd – mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno;
 - ch rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella - bydd y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio; ac
 - d galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol – sicrhau bod camau prydlon ac ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.
- 5 Mae ein hadroddiad yn ystyried cynnydd awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau newydd ac i ba raddau y maent yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym hefyd yn ystyried pa mor effeithlon ac effeithiol yw'r 'system cynllunio lleol', gan ganolbwyntio ar eu perfformiad, eu hincwm a'u gwariant i benderfynu pa mor gydnerth yw gwasanaethau. Yn olaf, rydym hefyd yn bwrw golwg ar brosesau penderfynu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Caiff ein dulliau adolygu eu nodi yn **Atodiad 1**.

Ein canfyddiadau

- 6 Mae'r system gynllunio wedi cael ei diwygio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a phenllanw'r cyfan oedd cyflwyno Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a fersiwn ddiwygiedig o **Bolisi Cynllunio Cymru**². Yr ysgogydd ar gyfer y newidiadau hyn fu nod Llywodraeth Cymru i helpu cynllunwyr i ymateb i'r amgylchiadau newidiol y mae'r drefn rheoleiddio tir yn gweithredu ynddynt a mynd i'r afael â phryderon hirsefydlog ynghylch effeithlonrwydd y system gynllunio gymhleth – gan gynnwys mynd i'r afael ag oedi cyn paratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau a chynyddu tryloywder. Caiff penderfyniadau ynghylch defnyddio a datblygu tir eu gwneud gan gyfeirio at gynlluniau sy'n weithredol am 15 i 20 mlynedd, a hwythau'n cael eu diweddarau bob rhyw bum mlynedd, ond buan iawn y gall y rhain fod yn anghyson â newid economaidd a chymdeithasol cyflym.
 - 7 Fe wnaeth y dinasyddion a arolygwyd gennym ac y siaradon ni gyda hwy ddweud wrthym nad ydynt yn credu bod eu hawdurdodau cynllunio'n ddigon uchelgeisiol i helpu i gyflawni'r gwelliannau y mae eu hangen yn eu cymuned. Mae pobl y siaradon ni gyda hwy yn teimlo rhwystredigaeth bod cynllunwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar geisiadau unigol ac yn peidio â chanolbwyntio digon ar roi anogaeth a chefnogaeth i greu cymuned fwy ffyniannus a chynaliadwy. Yn ogystal â dymuno gweld awdurdodau cynllunio lleol yn gwella'u harfer ac yn dod yn fwy arloesol, mae dinasyddion yn pryderu nad oes ymgysylltu effeithiol â hwy ac nad ydynt yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn trafodaethau ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn eu hardal, nac mewn prosesau i benderfynu ar geisiadau lleol. Nododd rhai dinasyddion fod gan ddatblygwyr yr adnoddau i 'chwarae'r system', a bod y system ar y cyfan yn cael effaith anghymesur o ran dwyn mwy o fanteision i ddatblygwyr na chymunedau.
 - 8 Nid yw canfyddiad negyddol dinasyddion yn cael ei helpu gan ansawdd gwael yr wybodaeth a ddarperir yn aml gan awdurdodau cynllunio lleol i helpu i egluro'r hyn y maent yn ei wneud, ble a phryd. Drosodd a throsodd, dywedodd ymatebwyr i'n harolwg wrthym eu bod o'r farn bod gwybodaeth yn anhygyrch ac nad yw'n ddefnyddiol. Dywedodd dros hanner y rhai a ymatebodd i'n harolwg nad yw'n hawdd cael mynediad at wybodaeth am
- 2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn gyfredol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, wedi'i bwriadu i 'helpu i sicrhau bod y penderfyniadau polisi a wneir yng Nghymru, boed fawr neu fach, yn gwella bywydau cenedlaethau heddiw ac yfory. Bydd yn cefnogi newid y ffordd rydym yn byw a gweithio, ac adeiladau ac amgylchedd Cymru, heddiw, gan greu amgylchedd gwell i ddiwallu anghenion heddiw a'r dyfodol'.

Tudalen y pecyn 161

gynllunio, a dywedodd 67% nad yw awdurdodau cynllunio lleol yn dda am ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cynigion cynllunio a'u goblygiadau posibl. Ar y cyfan, mae llawer o ddinasyddion a oedd yn rhan o'n harolwg yn ystyried bod cynllunio lleol yn system sy'n achosi i bethau ddigwydd mewn cymunedau nad ydynt hwy'n gallu dylanwadu arnynt na'u rheoli. Ceir datgysylltiad cynyddol rhwng yr hyn y mae ar bobl ei eisiau gan eu hawdurdod cynllunio a'r hyn y mae eu hawdurdod cynllunio'n ei gyflawni.

- 9 Er gwaethaf y ddeddfwriaeth newydd a mwy o ddisgwyliad am y cyfraniad y gall cynllunio ei wneud i gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiad sylweddol mewn capasiti ac maent yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Dengys ein dadansoddiad fod yr holl wasanaethau cynllunio – polisi, datblygu a rheoli adeiladu – wedi profi toriadau sylweddol mewn gwariant ers 2008-09 gyda chyllidebau wedi gostwng 50% mewn termau real, gan ystyried chwyddiant. Mae gwariant net wedi gostwng o £45.1 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18. I gyllidebau rheoli datblygu y bu'r gostyngiad mwyaf lle mae gwariant wedi gostwng 59%.
- 10 Gyda llai o arian i gyllido gwasanaethau, nid oes digon o swyddogion cynllunio i gyflawni'r gwaith ac mae sgiliau'n mynd yn llai mewn meysydd gwaith allweddol. Mae nifer yr hyfforddeion sy'n ymuno â gwasanaethau cynllunio wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf sy'n codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau. Er gwaethaf y gostyngiadau hyn mewn cyllid, mae awdurdodau'n dal i ddarparu cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau am nad yw'r taliadau a godir gan awdurdodau cynllunio lleol am weinyddu a chymeradwyo ceisiadau cynllunio a gwaith adeiladu'n adlewyrchu cost darparu'r gwasanaethau hyn.
- 11 Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd i awdurdodau cynllunio lleol wedi aros yn sefydlog, sef rhyw 24,000 y flwyddyn, ond mae llai o geisiadau cynllunio'n cael eu prosesu ar amser. Hefyd, mae'r amser a gymer i ymchwilio i gwynion ynghylch datblygu'n amrywio ledled Cymru. Mae'r awdurdodau cynllunio sy'n perfformio orau yn ymdrin â materion gorfodi yn gyflym iawn, yn aml o fewn wythnos. Gall y rhai sydd â'r perfformiad gwaethaf gymryd dros flwyddyn. Ar gyfartaledd mae'n cymryd dros 37 wythnos i awdurdodau ymchwilio i achos gorfodi ac ymdrin ag ef.

- 12 Mae pwyllgorau cynllunio'n cymryd cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch ceisiadau mwy nad ydynt yn cael eu dirprwyo i swyddogion. Mae penderfyniadau'n seiliedig ar argymhellion swyddogion y mae angen i aelodau pwyllgorau eu hystyried cyn dod i benderfyniad. Mae cyfran y penderfyniadau a wneir gan aelodau yn groes i farn swyddogion yn dal i fod yn uchel, gydag ychydig yn llai na 9% o'r argymhellion yn cael eu gwrthdroi yn 2017-18. Lle mae awdurdod wedi gwrthod cais cynllunio yna mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Canfuom fod ychydig dros 37% o'r apeliadau gan ymgeiswyr cynllunio'n cael eu cadarnhau, gyda phenderfyniad gwreiddiol yr awdurdod yn cael ei gwrthdroi.
- 13 Nid yw'n syndod dod ar draws pryderon ar bob ochr ynghylch penderfyniadau cynllunio. Mewn nifer o achosion bydd rhai sydd ar eu colled ac sy'n dioddef effeithiau anffafriol, ac mae'n aml yn anodd i bwyllgorau cynllunio, hyd yn oed gydag ôl-ddoethineb, farnu a wnaed y penderfyniad 'cywir'. Mae'n anorod bod rhai o'r ffactorau y mae angen eu hystyried yn oddrychol; bydd cynllunio wastad yn fwy nac ymarfer ticio blychau syml, gan alw'n aml am grebwyll a dychymyg. Felly bydd angen i awdurdod cynllunio lleol effeithiol fod â gweledigaeth glir ynglŷn â sut y byddant yn gweithio yn y tymor canolig a hir i wella'u cymunedau. Gall bod â gweledigaeth glir am y posibiladau yn y dyfodol ysbrydoli a chymell pobl i ddymuno bod y gorau.
- 14 Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol wedi diffinio'n glir sut y mae eu gwasanaethau cynllunio'n cyfrannu at lesiant pobl a chymunedau. Mae ein hadolygiad yn dod i'r casgliad bod gwasanaethau cynllunio'n allweddol i helpu i gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond ar hyn o bryd bod cymhlethdod y system gynllunio, capasiti sy'n mynd yn llai a phrosesau penderfynu amrywiol, yn golygu bod gan awdurdodau lleol dipyn o ffordd i fynd i wneud y newid sylweddol y mae ei angen.
- 15 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol: **Nid yw Awdurdodau Cynllunio yn ddigon cydnerth i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a her rheoli system gymhleth.**

Argymhellion

Our recommendations are set out in the table below.

Argymhellion	
A1	<p>Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymhell fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• bod awdurdodau cynllunio lleol:<ul style="list-style-type: none">– yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben;– yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac– yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i rhanddeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.• bod Llywodraeth Cymru:<ul style="list-style-type: none">– yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddarau'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.
A2	<p>Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol:</p> <ul style="list-style-type: none">• yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac• yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:<ul style="list-style-type: none">– integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;– datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a– datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.

Argymhellion

A3 Mae **Rhan 2** o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac
- yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.

A4 Mae **Rhan 3** o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:

- adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;
- diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a
- gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.

A5 Mae **Rhan 4** o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol:

- yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant;
- yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;
- yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac
- yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi **adroddiad cryno** a **set ddata agored** sy'n crynhoi ein dadansoddiad o ddata perfformiad a pheth canfyddiadau o'n arolwg

Rhan 1

Mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd oherwydd cymhlethdodau'r system gynllunio



- 1.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio. Rydym yn ystyried y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol a sut y caiff hwn ei weithredu ar lefel leol gan nodi gwahanol gyfrifoldebau awdurdodau cynllunio lleol, a heriau ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid a'u cynnwys yn fwy effeithiol. Yn olaf, rydym yn nodi un o'r negeseuon cryfaf o'n hadolygiad – bod angen i awdurdodau cynllunio fod yn fwy uchelgeisiol a gweledigaethol.

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio o fewn fframwaith cynllunio cymhleth ac aml-haen


- 1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio'r system gynllunio fel system sy'n gyfrifol am reoli 'datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i fudd cyfunol tymor hir, gan gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru'. Mae system gynllunio sy'n gweithio'n dda'n hanfodol i ddatblygu cynaliadwy a chreu lleoedd cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r system gynllunio'n gymhleth iawn gan ei bod yn seiliedig ar system gydgysylltiedig cynlluniau, polisiâu, blaenoriaethau a phrosesau penderfynu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i lywodraethu defnydd tir.
- 1.3 Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r agweddau allweddol ar y system gydgysylltiedig a chymhleth hon (mae'r manylion llawnach i'w cael yn **Atodiad 2**). Yn gryno, mae'r Fframwaith Cynllunio yng Nghymru'n cwmpasu:
- Cenedlaethol** – ar lefel genedlaethol, caiff deddfwriaeth ei drafftio gan Lywodraeth Cymru, ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu arni ac yn ei mabwysiadu. Y ddeddfwriaeth gynllunio fwyaf diweddar yw Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Polisi Cynllunio Cymru sy'n creu'r cysylltiad rhwng deddfwriaeth³ a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru – a ategir gan nodiadau cyngor technegol, cylchlythyrau a llythyrau gweinidogol – yn nodi'r polisi y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydymffurfio ag ef.
 - Rhanbarthol** – Cafodd Cynlluniau Datblygu Strategol eu cyflwyno'n ddiweddar ac maent yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu cynlluniau rhanbarthol sy'n cwmpasu ardaloedd nifer o awdurdodau lleol. Araf fu'r cynnydd o ran datblygu cynlluniau rhanbarthol hyd yn hyn.

3 Y darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cyflwynwyd y rhain gan Lywodraeth y DU.

- c **Lleol** – islaw'r fframwaith rhanbarthol newydd ceir y Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn pennu'r cyd-destun ar gyfer blaenoriaethau a gweithgarwch rheoli datblygu yn ardal awdurdod cynllunio lleol yn y dyfodol. Ategir Cynlluniau Datblygu Lleol gan bolisiâu Rheoli Datblygu, canllawiau cynllunio atodol a chynlluniau lleol is-ardal, y cyfeirir yn aml atynt fel 'Cynlluniau Lleoedd'. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu'r fframwaith polisi lleol ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

Arddangosyn 3 – y fframwaith cynllunio yng Nghymru

Mae cynllunio yng Nghymru'n gymhleth gan ei fod yn seiliedig ar system gydgysylltiedig cynlluniau, polisiâu, blaenoriaethau a phrosesau penderfynu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

- 1.4 Gall llywio datblygiad posibl neu gais trwy'r gwahanol haenau hyn fod yn gymhleth. Nid yw'n hawdd adnabod pa gynlluniau sy'n rheoli'r datblygiad, pa ganllawiau sy'n gymwys ac o ble y dylid ceisio awdurdod gan bod nifer o sefydliadau'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a bod gan bob un o'r rhain wahanol haenau o gyfrifoldeb. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio o fewn y fframwaith polisi cynllunio hwn, gan gydymffurfio â'r canllawiau a'r cyfarwyddbau a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae rheoli dylanwadau a disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd wrth bennu blaenoriaethau defnydd tir a phenderfynu ar geisiadau'n gallu bod yn anodd i awdurdodau cynllunio

- 1.5 Mae natur aml-haen a chymhleth y system hon yn effeithio'n gynyddol ar awdurdodau cynlluniau lleol mewn nifer o ffyrdd pwysig. Gall mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol fod yn broses gostus. Yn 2015 fe amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod costau cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol rhwng £1.1 a £2.2 miliwn⁴. Gall mabwysiadu cynllun fynd â llawer o amser. Er enghraifft, dywedodd un rheolwr polisi cynllunio wrthym fod ei awdurdod ef wedi gorfod cwblhau 872 o gamau gweithredu ar wahân dros amryw gamau'r cytundeb cyflawni i gael cymeradwyaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol⁵. O ganlyniad, nid yw'n anarferol bod mabwysiadu cynllun yn cymryd nifer o flynyddoedd⁶.
- 1.6 Gall y broses o fabwysiadu cynllun datblygu, a thrwy estyniad o sefydlu'r polisiâu a'r trefniadau penderfynu i oruchwylio gweithgarwch rheoli datblygu, fod yn ddadleuol hefyd. Gan bod y polisi cynllunio'n penderfynu pa fath o ddatblygu y caniateir iddo ddigwydd, ble a phryd, mae'n ennyn beirniadaeth a safbwyntiau croes i'w gilydd. Wrth bennu polisiâu lleol, mae angen i awdurdodau cynllunio daro cydbwysedd rhwng pwysau sy'n gwrthdaro â'i gilydd gan ymgeiswyr, cymunedau, grwpiau buddiant, busnesau, grwpiau lobbies a phreswylwyr. Rhaid iddynt hefyd ystyried anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

4 Gweler y crynodeb o dystiolaeth ymchwil **Crynodeb o Fil Cynllunio (Cymru) 2015 gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol**.

5 Gweler enghraifft o'r camau yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol yng Nghaerdydd **Y broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol**.

6 Er enghraifft, tynnwyd Cynllun Datblygu Lleol cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ôl ar gam yr archwiliad yn 2012 a chyflwynodd y Cyngor yr ail Gynllun adnewidrafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Ebrill 2018.

- 1.7 Hefyd, mae ar ddatblygwyr eisiau gwasanaethau rheoli datblygu cyson, amserol a phroffesiynol sy'n lleihau oedi ac yn cefnogi eu gweithgarwch mewn modd rhagweithiol. Mae gwasanaeth rheoli datblygu effeithiol yn hollbwysig iddynt gan eu bod yn aml yn cael benthyg symiau sylweddol o arian i gyllido datblygiadau, ac felly am i awdurdodau cynllunio lleol ddatrys materion yn gyflym ac yn derfynol i leihau eu colledion posibl a chynyddu elw. Hefyd, gall y tensiynau a achosir gan dirfeddianwyr lluosog, yr amryw fuddiannau mewn datblygiad a'r pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol i agor cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu fod yn sylweddol. Gall gwerth tir sydd â chaniatâd cynllunio gynyddu'n aruthrol ac felly mae'r pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol i roi caniatâd cynllunio'n sylweddol.
- 1.8 Mewn oes o alw cynyddol am dir i'w ddatblygu, ceir cwestiynau'n aml am ddylanwad datblygwyr, yn enwedig y rhai ag adnoddau mawr, y tybir eu bod yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio. Mae'r diwydiant datblygu wedi'i drefnu'n dda ac yn arbenigol, fel y mae nifer cynyddol o grwpiau cadwraeth a grwpiau buddiant sy'n dod yn fwyfwy medrus a pherswadiol wrth gyfleu eu dadl. Ac er bod y cyhoedd yn deall pwysigrwydd datblygiadau newydd a'r angen amdanynt, maent hefyd yn rhoi gwerth ar gadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol.
- 1.9 O ganlyniad, nid yw'n beth anarferol gweld cymunedau a grwpiau llosgi'n gwrthwynebu prosiectau tai newydd neu brosiectau seilwaith ar raddfa fawr. Mae **Arddangosyn 4** yn crynhoi'r gwahanol flaenoriaethau i aelodau o bwyllgorau cynllunio, swyddogion cynllunio a'r cyhoedd. Er bod rhyw gydberthynas rhwng pob grŵp o ymatebwyr, roedd dinasyddion yn rhoi mwy o flaenoriaeth i gadwraeth a gwarchod na datblygiadau newydd.

Arddangosyn 4 – y prif flaenoriaethau datblygu i uwch swyddogion cynllunio, aelodau o bwyllgorau a dinasyddion

Ceir gwahaniaethau rhwng awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd lle mae blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn y cwestiwn.

5 prif flaenoriaeth Penaethiaid Cynllunio	5 prif flaenoriaeth aelodau o bwyllgorau	5 prif flaenoriaeth aelodau'r cyhoedd
1 Cynyddu argaeledd tai	1 Gwella seilwaith – ffyrdd, rheilffyrdd, beicio, band eang, ynni	1 Gwella seilwaith – ffyrdd, rheilffyrdd, beicio, band eang, ynni
2 Creu swyddi newydd a diogelu rhai presennol	2 Cynyddu argaeledd tai	2 Cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol
3 Adfywio a gwella trefi a phentrefi presennol	3 Adfywio a gwella trefi a phentrefi presennol	3 Creu swyddi newydd a diogelu rhai presennol
4 Gwella seilwaith – ffyrdd, rheilffyrdd, beicio, band eang, ynni	4 Cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol	4 Gwarchod a chadw ein cartrefi, pentrefi a chymunedau presennol
5 Cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol	5 Creu swyddi newydd a diogelu rhai presennol	5 Gwella'r ddarpariaeth addysg

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o aelodau pwyllgorau cynllunio, uwch swyddogion cynllunio, a dinasyddion, Ionawr 2019.

- 1.10 Mae ein gwaith maes a'n harolygon yn amlygu canfyddiad cynyddol ymhlith y cyhoedd am y newid parhaus yng nghydbwysedd y dylanwad (a'r grym) rhwng cynllunwyr a datblygwyr. Caiff dylanwad datblygwyr ei ysgogi'n rhannol gan y ffaith bod angen i awdurdodau cynllunio lleol roi cymorth i gyrraedd targedau cenedlaethol (megis targed Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy⁷ rhwng mis Mai 2016 a mis Mai 2021) a chan botensial cynllunio i ysgogi twf economaidd, creu swyddi newydd a gwarchod swyddi presennol.
- 1.11 Dywedodd uwch swyddogion cynllunio ac aelodau o bwyllgorau cynllunio wrthym am y pwysau arnynt i beidio â gosod gormod o gyfyngiadau ar ddatblygwyr. Canfuom fod canfyddiad hefyd bod datblygwyr yn 'prynu' caniatâd cynllunio trwy gytundebau Adran 106⁸ a thalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol⁹. Nid yw hyn yn newydd ac mae'n un o symptomau dylanwad tybiedig lloïo proffesiynol a buddiannau pwerus. Mae sylwadau yn ein harolwg o'r cyhoedd yn cadarnhau hyn: 'Yn fy mhrofiad i mae datblygwyr ar y cyfan yn cael eu ffordd a diwedd y gân yw'r geiniog; nid fy mod yn awgrymu bod y broses yn llygredig, dim ond bod datblygwyr fel arfer yn meddu ar yr adnoddau i brocio'r awdurdod i gymeradwyo eu cynlluniau weithiau yn wyneb gwrthwynebiad lleol sydd heb lawer o adnoddau'.

7 www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4000&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#C433962

8 Gall awdurdod cynllunio lleol a datblygwr ymrwymo i gytundeb cyfreithiol i ddarparu seilwaith a gwasanaethau ar neu oddi ar safle'r datblygiad lle nad yw hyn yn bosibl trwy amodau cynllunio. Mae'r cytundeb hwn, a elwir hefyd yn gytundeb Adran 106, yn fecanwaith cyflawni ar gyfer y materion sy'n angenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Mae cytundebau cynllunio wedi dod yn fwyfwy pwysig i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys priffyrdd, cyfleusterau hamdden, addysg, iechyd a thai fforddiadwy.

9 Tâl cynllunio yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 yng Nghymru a Lloegr i helpu i ddarparu seilwaith i gefnogi datblygiad ardal. Gall datblygiad fod yn agored i dâl dan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi dewis codi tâl yn ei ardal. Gall y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd sy'n creu arwynebedd llawr ychwanegol net o 100 metr sgwâr neu fwy, neu sy'n creu annedd newydd, fod yn agored i'r ardoll. Ar hyn o bryd dim ond tri awdurdod cynllunio lleol sy'n defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi gwasanaethau cynllunio ond maent yn pryderu nad yw awdurdodau'n dda am ymgysylltu â hwy a'u cynnwys, a bod ganddynt ddiffyg uchelgais

- 1.12 Er mwyn sicrhau tegwch, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfleu sut a pham y gwneir penderfyniadau cynllunio, a sut y gall y cyhoedd fod yn rhan o'r broses. Ond canfuom fod y cyhoedd yn aml yn llai ymwybodol ble i gael gafael ar wybodaeth a sut y mae'r 'system' yn gweithio. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o gymhlethdod y prosesau polisi cynllunio a rheoli datblygu. Ond mae hefyd yn adlewyrchu pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd, yn eu hysbysu ac yn eu cynnwys.
- 1.13 Mae awdurdodau cynllunio'n fwyfwy ymwybodol o'r angen i gryfhau gweithgarwch ymgysylltu a chynnwys, yn enwedig yng ngwaith pwyllgorau cynllunio. Yn gadarnhaol, mae tri awdurdod ar hugain yn darparu gwybodaeth ar-lein am geisiadau cynllunio (dim ond Blaenau Gwent ac Ynys Môn sydd ddim) ac mae gan 22 swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i ymgeiswyr (Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion a Gwynedd yw'r eithriadau)¹⁰.
- 1.14 Canfuom hefyd fod awdurdodau cynllunio'n annog y cyhoedd i siarad yng nghyfarfodydd pwyllgorau cynllunio ac yn hybu'r arfer o'u gwe-ddarlledu. Fodd bynnag, er bod 24 o'r 25 pwyllgor cynllunio'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y pwyllgor (dim ond Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n peidio â gwneud hynny), dim ond 11 o'r 25 o bwyllgorau cynllunio sy'n gwe-ddarlledu cyfarfodydd¹¹. Mae hefyd yn wir bod mynediad cyhoeddus at gyfarfodydd gormod o bwyllgorau cynllunio'n dal i fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n rhydd i fod yn bresennol yn ystod y dydd ac ychydig sy'n cynnal cyfarfodydd yn y lleoliadau y mae'r ceisiadau cynllunio'n ymwneud â hwy. Gall hyn arwain at bresenoldeb a diddordeb cyfyngedig gan y cyhoedd yng ngwaith awdurdodau cynllunio lleol.

¹⁰ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-performance-framework-table-oct-2017-sep-2018.xlsx>

¹¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-performance-framework-table-oct-2017-sep-2018.xlsx>

- 1.15 Er enghraifft, dywedodd un dinesydd a ymatebodd i'n harolwg fod 'hyder y cyhoedd yn yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei danseilio'n ddifrifol gan ddiffyg tryloywder ac ymgynghori. Nid wneir nemor ddim i gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau ynghylch cynllunio yn y dyfodol ac mae'r mater yn cael ei wleidyddoli'n fwyfwy'. Daeth ymatebydd arall i'r casgliad canlynol: 'nid yw beth bynnag y mae'r adran gynllunio'n ei wneud yn arwain at wneud fy nhref yn lle harddach na hapusach. Nid yw fy nghymuned erioed wedi ymddangos fel pe bai wedi'i phegynnu'n fwy, fel pe bai'n fwy ynysig ac yn fwy anghysurus â hi ei hun, ac nid yw'r ffordd y caiff ein lleoedd byw eu dylunio'n lleddfu pethau'.
- 1.16 Yn ddealladwy, mae'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio a rheoli datblygu yn deall yn well sut y mae'r system yn gweithio. Ond hyd yn oed yma mae ein canfyddiadau'n amlygu pryderon ynghylch ymgysylltu a chynnwys. Fe wnaeth dinasyddion a sefydliadau a arolygwyd ac a gyfwelwyd gennym sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd sylwadau ynghylch anawsterau awdurdodau cynllunio o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cynigion cynllunio a'u goblygiadau posibl. Mae cyfathrebu'n aml yn seiliedig ar ddulliau traddodiadol megis hysbysebion yn y wasg leol, danfon llythyrau a gosod hysbysiadau ar bolion lamp, sy'n aml yn cael eu rhagnodi mewn canllawiau¹². Nid yw'r rhain o anghenraid yn gyson â'r modd y mae llawer o ddinasyddion a rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth yn yr oes ddigidol ac yn oes y ffonau clyfar.
- 1.17 Nododd dros hanner y dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn anfodlon ar eu hawdurdod cynllunio lleol o ran sut y gwnaethant ymdrin â sylwadau a gyflwynwyd ganddynt fel rhan o fabwysiadu'r cynllun datblygu, ac roedd traean yn anhapus gyda'r ffordd yr oedd awdurdodau wedi ymdrin â'u sylwadau ar geisiadau cynllunio eraill a oedd yn effeithio ar eu hamgylchedd lleol, eu cymuned leol neu eu cartref. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd i'n harolwg cyhoeddus, 'yn ôl eu natur, nid yw cynllunwyr yn gyfathrebwyr da. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn berchen ar gyfrifiadur, felly nid ydynt yn gallu gwirio sut y mae ceisiadau cynllunio sy'n effeithio arnynt hwy'n mynd rhagddynt... Mae angen i gynllunwyr uwchsgilio'u hymdrechion cyfathrebu'. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd arall, 'Fe gnociais ar 27 o dai ac nid oedd yr un deiliad tŷ'n gyfarwydd â'r ardaloedd ymgeisiol, yn ymwybodol o'r newid defnydd arfaethedig neu'n ymwybodol y gallent wrthwynebu'. Rydym yn cydnabod yr her y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei hwynebu o ran cyfathrebu gyda dinasyddion a'u cynnwys. Nid oes un ffordd gywir o wneud hyn ac mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr ystod lawn o opsiynau ar gyfer cynnwys sydd ar gael iddynt.

12 Mae Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 yn nodi'r gofyniad lleiaf o ran ymgysylltu y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol ei wneud.

- 1.18 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno cysyniad Cynlluniau Lleoedd fel elfen allweddol i bennu defnydd, cadwraeth a datblygiad tir ar lefelau lleol iawn. Yng Nghymru, mae Cynlluniau Lleoedd yn wahanol i Loegr lle mae eu cynlluniau cyfatebol – Cynlluniau Cymdogaeth – yn ystyriaethau perthnasol ac yn rhan o fframwaith ehangach Cynlluniau Lleol. Mae Cynlluniau Lleoedd yn cael eu cyflwyno fesul tipyn gydag enghreifftiau da'n bodoli yn Aberhonddu¹³, Yr Wyddgrug¹⁴ ac Eryri¹⁵. Mae canllawiau o ansawdd da wedi cael eu datblygu ar gyfer Cynllunio Lleoedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog¹⁶ ar sut i gynnwys rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynlluniau a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Ceir tystiolaeth dda sy'n dangos sut y mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gwblhau eu dau Gynllun Lle cyntaf yng Nghrucywel a'r Gelli Gandryll, gyda chynnydd da'n cael ei wneud ar Gynlluniau Lleoedd newydd yn Aberhonddu a Thalgarth hefyd.
- 1.19 Er bod angen i awdurdodau cynllunio lleol daro cydbwysedd rhwng galwadau a dylanwadu sy'n cystadlu â'i gilydd, canfu ein gwaith maes a'n harolygon rai negeseuon cyson ynglŷn â ble y dylai dewisiadau a phenderfyniadau cynllunio orwedd. Yn bwysig, mae dinasyddion a chyrrff sy'n gweithio'n gyson o fewn y system gynllunio'n cydnabod yr angen i gynllunio gadw ffocws lleol, ac awdurdodau cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni hyn.
- 1.20 Er bod atebolrwydd lleol yn cael ei werthfawrogi, mae canfyddiadau ein harolwg hefyd yn dangos bod cefnogaeth i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol ac i Lywodraeth y DU fod â mwy o ddylanwad a rheolaeth ar brosiectau datblygu mwy o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r dull hwn yn gyson â Deddf 2015 sy'n cyflwyno proses gydsynio newydd ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol¹⁷.
- 1.21 Er bod arnynt eisiau gweld penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud yn bennaf gan lywodraeth ar y lefel isaf bosibl, mae adborth hefyd yn dangos yn gyson nad yw defnyddwyr a buddiolwyr y system gynllunio'n credu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ddigon uchelgeisiol i helpu i gyflawni'r gwelliannau y mae eu hangen yn eu cymuned. Mae dinasyddion yn teimlo rhwystredigaeth bod cynllunwyr yn canolbwyntio gormod ar geisiadau unigol ac yn peidio â chanolbwyntio digon ar roi anogaeth a chefnogaeth i greu cymuned fwy ffyniannus a chynaliadwy – **Arddangosyn 5**.

13 Gweler **Cynlluniau Lleoedd Aberhonddu**

14 Gweler **Cynllun Tref yr Wyddgrug**

15 Gweler **Cynllun Lle Partneriaeth Eryri**

16 Gweler **beacons-npa.gov.uk/strategy-and-policy/place-plans**

17 Mae Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol fel arfer yn ddatblygiadau ar raddfa fawr sy'n ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, dŵr neu wastraff y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu yn eu cylch.

Arddangosyn 5 – adborth dinasyddion ar ‘weledigaeth’ ac ‘uchelgais’ awdurdodau cynllunio lleol

Mae dinasyddion yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall cynllunio'i wneud i lesiant ond maent yn pryderu nad oes digon o weledigaeth ac uchelgais gan awdurdodau cynllunio lleol.

Mae'r system gynllunio bresennol yn ddiffygiol yn strwythurol ac yn 'drafodiadol' o ran dull; mae angen iddi fod yn fwy creadigol, arloesol a dynamig o ran ei dull ac yn fwy organig. Er mwyn i ni fod ag unrhyw siawns o gynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a llesiant Cymru, dylid gwneud yn siŵr bod egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dod yn realiti.

Rwy'n meddwl bod y system gynllunio yn arbennig yn methu ag ystyried goblygiadau ei phenderfyniadau cynllunio ar gyfer y seilwaith yn y tymor hir – gyda datblygiadau tai mawr yn cael eu cytuno heb gynlluniau eglur, sy'n seiliedig ar ystyriaeth fanwl, ar gyfer ffyrdd, ysgolion ac ati yn yr ardal. Mae traffig a pharcio yn y ddinas eisoes yn broblem fawr ac mae'n ymddangos fel pe bai penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud ar wahân i bob ystyriaeth arall.

Mae angen gweledigaeth gliriach a chryfach...
Mae lwc o blaid y dewr.

Dylai fod a wnelo cynllunio â mwy na dim ond defnyddio llawer o eiriau i siarad am ddefnyddio tir. Mae cyfle yma i ysbrydoli pobl i wella'u hamgylchedd, cymell dylunio da, a hyrwyddo enghreifftiau o gynlluniau da. Caiff y system gynllunio yng Nghymru ei llywio gan ofn methu yn hytrach na gweledigaeth gyffredin ynglŷn â sut y gallai'r dyfodol edrych.

... mae cynllunwyr yn canolbwyntio dim ond ar yr elfennau technocratig ar gynllunio defnydd tir, nid sut y bydd y lle'n edrych ac yn teimlo yn y tymor hir. Nid yw dylunio a thechnoleg ofodol, y cyfryngau cymdeithasol, a rhith-wirionedd yn cael eu defnyddio i ddangos i bobl beth sy'n bosibl.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Cyhoeddus 2018-19.

1.22 Mae sylwadau yn yr arolwg yn dangos bod ar ddinasyddion eisiau gweld awdurdodau cynllunio lleol yn gwella'u ffordd o fynd ati ac yn dod yn fwy eofn, uchelgeisiol a gweledigaethol. Fodd bynnag, mae ein harolwg yn dangos nad oes gan awdurdodau cynllunio lleol y capasiti i fodloni'r dyheadau cynyddol hyn ac yn yr adran nesaf o'r adroddiad byddwn yn nodi rhai o'r anawsterau hyn.

Rhan 2

Mae capasiti annigonol ac adnoddau sy'n mynd yn llai yn erydu cydnerthedd awdurdodau cynllunio




2.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn asesu cydnerthedd gwasanaethau cynllunio, gan edrych ar newidiadau mewn cyllid, incwm a gwariant. Rydym yn archwilio'r gostyngiad mewn cyllidebau dros y degawd diwethaf ac effaith y newidiadau hyn ar niferoedd a rolau staff. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae awdurdodau'n ymateb i'r her hon i sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Yn olaf, rydym yn ystyried sut y maent yn cydweithio i gryfhau eu cydnerthedd.

Bu gostyngiad sylweddol yn adnoddau awdurdodau cynllunio

2.2 Mae gwariant awdurdodau cynllunio lleol wedi gostwng yn sylweddol yn y degawd diwethaf. Mewn termau real, mae gwariant net wedi gostwng 50% o £45.1 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18 – **Arddangosyn 6**. Ym maes rheoli datblygu y gwelwyd y gostyngiad mwyaf, lle mae'r cyllid wedi gostwng 59%.

Arddangosyn 6 – gwariant net gan awdurdodau lleol ar wasanaethau cynllunio mewn termau real yng Nghymru rhwng 2008-09 a 2017-18.

Bu gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar gynllunio yn y degawd diwethaf



Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru gan ddefnyddio datchwyddyddion 2009.


2.3 Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gafodd ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth graffu ar y Ddeddf yn nodi mai cost cyflawni'r Ddeddf gyfan dros y pum mlynedd gyntaf fyddai £6.1 miliwn. Byddai'r gost hon yn cael ei gwrthbwysu gan gyfanswm arbedion o £7.9 miliwn, gan adael arbedion net sy'n weddill o £1.8 miliwn. Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r casgliad y byddai gweithredu'r Ddeddf yn arwain at gynnydd o £0.5 miliwn yng ngwariant Llywodraeth Cymru, cynnydd o ychydig dros £1 miliwn mewn gwariant gan y 25 awdurdod cynllunio lleol, ac arbedion o ychydig dros £3.5 miliwn ar gyfer y diwydiant datblygu ac eraill¹⁸. Dengys ein dadansoddiad bod gwariant net awdurdodau cynllunio lleol, ers 2014-15, wedi gostwng £3.9 miliwn, yn hytrach na chynyddu £0.9 miliwn.

Ceir cyfleoedd i gynyddu incwm a lleihau cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau cynllunio

2.4 O ystyried yr angen i awdurdodau lleol leihau eu gwariant net yn unol â thoriadau mewn cyllid canolog, mae llawer o awdurdodau yn adolygu gwasanaethau i sicrhau, lle y bo'n briodol, eu bod yn gwneud y gorau o gyfleoedd i gynyddu incwm i'r eithaf. Er bod angen cymhorthdal ar yr holl awdurdodau cynllunio o hyd, rhwng 2008-09 a 2017-18, roedd gan 17 o'r 22 awdurdod lleol sefyllfa well o ran cymhorthdal gyda lefel y gwariant ar wasanaethau cynllunio'n gostwng a lefel yr incwm bellach yn talu am gyfran uwch o'r gost – **Arddangosyn 7**.

Arddangosyn 7 – incwm fel cyfran o wariant ar gyfer yr holl wasanaethau cynllunio fesul awdurdod lleol yn 2008-09 a 2017-18

Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau cynllunio awdurdodau lleol sefyllfa sy'n gwella o ran cymhorthdal.



Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru¹⁹.

2.5 Mae dau faes gweithgarwch lle mae awdurdodau cynllunio lleol yn codi am y gwasanaethau y maent yn eu darparu – rheoli datblygu a rheoli adeiladu. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r ffioedd rheoli datblygu. Mae'r rhain yr un fath ar gyfer yr holl awdurdodau cynllunio yng Nghymru a chafodd y ffioedd eu diwygio ddiwethaf yn 2015²⁰.

19 Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol wedi'i gyhoeddi ar gyfer y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

20 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1522/contents/made

- 2.6 Dengys ein dadansoddiad, yn 2017-18, fod incwm mewn termau real fel cyfran o wariant wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer gwaith rheoli datblygu a'i fod bellach yn rhoi cyfrif am 70% o gyfanswm cost y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, er bod incwm yn cynyddu, ceir amrywiad eang mewn perfformiad. Mae dau awdurdod lleol – Ynys Môn a Chaerdydd – yn casglu mwy o incwm o weithgarwch rheoli datblygu nag y mae'n ei gostio i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r 20 awdurdod sy'n weddill i gyd yn gweithredu â lefelau amrywiol o gymhorthdal, sy'n amrywio o 6.7% i 65.7% o gost y gwasanaeth (gweler **Atodiad 3**).
- 2.7 Yn wahanol i reoli datblygu, caiff ffioedd gwasanaethau rheoli adeiladu eu pennu gan bob awdurdod lleol. Er bod incwm bellach yn 68% o gost gwasanaethau rheoli adeiladu, dengys ein hymchwil bod hyn wedi aros yn ddigynfnewid yn y blynyddoedd diwethaf ac nad yw'r un awdurdod yn adfer cost lawn ei wasanaeth rheoli adeiladu. Mae cymorthdaliadau'n amrywio o 0.2% i 76.2% o gost y gwasanaethau (gweler **Atodiad 4** ar gyfer ein dadansoddiad manwl).
- 2.8 Darperir cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau yn aml oherwydd awydd i gynyddu i'r eithaf nifer y defnyddwyr ac i roi cymorth i gyflawni'r blaenoriaethau strategol ehangach. Mae gwasanaethau rheoli adeiladu hefyd mewn cystadleuaeth â'r sector preifat ac o ganlyniad mae angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu priso'n gystadleuol. Fodd bynnag, mae angen hefyd i awdurdodau ystyried eu hamgylchedd gweithredu a nodi sut y gallant leihau lefel y cymhorthdal y maent yn ei roi i wasanaethau i wella cynaliadwyedd ariannol a chryfhau cydnerthedd.
- 2.9 Gan ddefnyddio data cyhoeddus a gasglwyd o wefannau awdurdodau, rydym yn nodi yn **Arddangosyn 8** y gyfres o daliadau a godir am wasanaethau rheoli adeiladu i godi un annedd²¹. Mae'r gwahaniaeth rhwng y tâl rheoli adeiladu rhataf a drutaf yn sylweddol. Hyd yn oed wrth ystyried ffactorau lleol a'r gwahaniaeth posibl o ran darparu ac ansawdd gwasanaethau, mae graddfa ac ystod y costau'n eang iawn.

21 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau gynlluniau ffioedd ar-lein ac maent yn darparu canllawiau manwl i gynorthwyo ymgeiswyr. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod yn cyhoeddi cynllun ffioedd ar gyfer ei wasanaethau rheoli adeiladu. Mae ein dadansoddiad ni'n seiliedig ar wybodaeth a goladwyd o wefannau 12 awdurdod lleol.

Arddangosyn 8 – enghraifft o daliadau rheoliadau adeiladu awdurdodau lleol 2018-19

Ceir amrywiad eang o ran faint y mae gwasanaethau Rheoli Adeiladu'n ei godi am yr un gweithgaredd.

Eitem	Tâl isaf	Tâl uchaf	Gwahaniaeth
Cynlluniau Llawn Newydd – Ffi cynllun ar gyfer un annedd (A)	£140.74	£241.20	+71.4%
Cynlluniau Llawn Newydd – Archwiliad ar gyfer un annedd (B)	£225.72	£532.00	+135.7%
Ffi Hysbysiad Adeilad Newydd ar gyfer un annedd (C)	£383.04	£785.22	+105.0%
Taliad cyfansawdd ar gyfer A, B ac C ar gyfer un annedd	£732.00	£1,098.00	+50.0%
Tal unioni ²² ar gyfer un annedd	£510.72	£948.75	+85.8%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau Ffioedd Rheoli Adeiladu ar-lein.


2.10 Ar ddiwedd 2017-18, roedd y diffyg cyfunol rhwng incwm a gwariant rheoli datblygu ac adeiladu'n £11.1 miliwn. Mae'r canfyddiadau yn **Arddangosyn 8**, a'n dadansoddiad manylach a nodir yn **Atodiadau 3 a 4** yn amlygu bod cyfle i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu cynlluniau ffioedd cyfredol i sicrhau eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost darparu'r gwasanaethau hyn, ac rydym wedi gwneud argymhellion i'r perwyl hwn²³. Fodd bynnag, mae angen taro cydbwysedd rhwng cynyddu ffioedd a sicrhau bod unrhyw gynnydd yn cael ei adlewyrchu gan wasanaeth o ansawdd gwell. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan bod canfyddiadau ein gwaith arolwg yn amlygu nad yw llawer o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n teimlo bod ffioedd cyfredol yn cynrychioli 'Gwerth Da am Arian' – **Arddangosyn 9**.

22 Gall gwasanaethau Rheoli Adeiladu gael eu darparu cyn i waith gael ei wneud neu eu cymhwyso'n ôl-weithredol ar ôl i waith ddigwydd. 'Unioni' yw'r enw ar waith a gymeradwyir ar ôl iddo gael ei wneud.

23 Pe bai'r holl awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru yn rhoi ein hargymhelliad ar waith yn llawn, byddai'r arbedion posibl yn gyfwerth â rhyw £11.1 miliwn. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cynyddu taliadau Rheoli Datblygu i dalu'r gost, yna byddai hyn yn arwain at arbedion o £7.7 miliwn. Pe bai'r holl awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'u diffyg Rheoli Adeiladu byddai hynny'n dwyn arbedion o £3.4 miliwn.

Arddangosyn 9 – canfyddiadau'r arolwg wrth ystyried a yw ffioedd cynllunio awdurdodau lleol yn cynrychioli 'Gwerth am Arian'

Ceir gwahaniaeth barn rhwng y rhai sy'n gweinyddu ac yn defnyddio gwasanaethau cynllunio wrth ystyried a yw ffioedd yn cynrychioli 'Gwerth Da am Arian'



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygon pwyllgorau cynllunio, uwch swyddogion cynllunio, rhanddeiliaid a dinasyddion, Ionawr 2019.

Nid yw'r capasiti'n ymestyn yn ddigon pell, ac mae awdurdodau cynllunio'n ei chael yn anodd cyflawni swyddogaethau allweddol, ond dim ond cynnydd cyfyngedig a fu o ran gwella cydnerthedd

- 2.11 Gweithlu awdurdod yw un o'i asedau gorau ac mae cyfran sylweddol o wariant yn mynd ar staffio. Fodd bynnag, yn y cyfnod cyfredol o gyni cyllidol hirfaith, mae awdurdodau'n aml yn mantoli cyllidebau trwy ostwng nifer eu staff. Mae canfyddiadau ein harolygon gydag uwch swyddogion cynllunio, aelodau o bwyllgorau cynllunio a sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd i gyd yn nodi bod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn staff dros y degawd diwethaf. O ganlyniad, mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau, maent yn gorfod rheoli capasiti o un wythnos i'r llall, a dim ond o drwch blewyn y maent yn ymdopi. Hefyd, dros amser mae'r staff cynllunio mwy profiadol yn ymddeol ac nid oes staff yn cael eu penodi yn eu lle sy'n arwain at ddiffyg mewn sgiliau, profiad a 'gwybodaeth ymarferol arbennig'.
- 2.12 Er bod awdurdodau wedi ceisio gwarchod a chadw sgiliau a chapasiti menw meysydd allweddol, yn anad dim polisi cynllunio, bu gostyngiadau sylweddol mewn meysydd eraill. Ceir cryn dipyn o gysondeb hefyd o ran ble mae bylchau mewn adnoddau'n cael eu teimlo'n fwyaf difrifol – arbenigwyr dylunio, dadansoddwyr data, swyddogion ymchwil, arbenigwyr seilwaith a swyddogion cynllunio dan hyfforddiant (gweler [Atodiad 5](#) ar gyfer canlyniadau manwl yr arolwg). Mae'r duedd hon yn adlewyrchu dyhead awdurdodau i warchod staff rheng-flaen a'r gwasanaethau a ddarperir hyd y gellir, ond mae'r gostyngiad yn nifer yr hyfforddeion yn achosi pryder. Fe wnaeth cyrff cynrychiadol, sefydliadau academiaidd ac awdurdodau lleol y cyfwelom ni â hwy i gyd amlygu bod buddsoddiad mewn hyfforddeion cynllunio wedi gostwng, ac mae nifer yn ofni nad yw 'cynllunio' yn cael ei ystyried yn yrfa ddeniadol mwyach.

2.13 Mae ymchwil gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)²⁴ yn amlygu hefyd nad oes gan brif swyddogion cynllunio safle blaenllaw na strategol mewn awdurdodau lleol mwyach, a bod gwerth a dylanwad canfyddadwy'r proffesiwn yn dal i leihau. Timau rheoli corfforaethol sy'n darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth ac yn pennu blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gan bennu cyfeiriad strategol a gwneud penderfyniadau buddsoddi awdurdodau lleol. Mae goblygiadau penderfyniadau corfforaethol ar gyfer buddsoddiadau, seilwaith, gweithgarwch datblygu, gwasanaethau lleol a pholisïau newydd yn arwyddocaol, a gall prif swyddog cynllunio effeithiol a dylanwadol fod â rôl hollbwysig o ran cyrraedd y nodau polisi hyn a rhai ehangach. Fodd bynnag, canfu RTPI fod y swyddog cynllunio uchaf ei reng fel arfer ar y drydedd haen a bod 60% o'i gyfrifoldebau'n ymwneud â rheoli ystod o wasanaethau eraill. Er gwaethaf eu pwysigrwydd, mae gan wasanaethau cynllunio lai o adnoddau, amlygrwydd a dylanwad.

2.14 Mae ein dadansoddiad hefyd yn awgrymu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymdopi dim ond am bod nifer y ceisiadau y maent yn ymdrin â hwy wedi aros yr un fath heb unrhyw gynnydd sylweddol mewn niferoedd – **Arddangosyn 10.**

Arddangosyn 10 – nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt: cyfanswm ar gyfer Cymru a'r amrediad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol

Mae nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt wedi aros yr un fath fwy neu lai ond ceir amrywiad eang yn yr ystod o geisiadau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymdrin â hwy.

Blwyddyn	Cyfanswm Cymru	Nifer isaf	Nifer uchaf
2014-15	24,203	308	2,596
2015-16	25,247	362	3,053
2016-17	25,008	326	2,819
2017-18	24,098	307	2,636

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio?_ga=2.110424133.1992295880.1558953899-160543906.1551187863

- 2.15 Fe wnaeth rhanddeiliaid hefyd nodi materion ynglŷn â sgiliau cynllunwyr, yn enwedig y sgiliau y mae eu hangen i negodi cytundebau cymhleth. Fe wnaeth swyddogion cynllunio ac aelodau pwyllgorau cynllunio y siaradon ni gyda hwy nodi bod y diffyg capasiti yn eu hatal rhag cymryd gormod o risgiau am eu bod yn ofni cost colli apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio. Mae'r gostyngiad mewn adnoddau hefyd yn golygu bod awdurdodau cynllunio lleol yn aml yn methu â chystadlu â lefel yr arbenigedd cyfreithiol a ddefnyddir gan ddatblygwyr wrth apelio.
- 2.16 Mae natur cynllunio fel proffesiwn yn newid hefyd ac nid yw'n ymwneud â defnydd tir yn unig mwyach. Fel a nodwyd yn Adran 1, mae cynllunio'n gwneud cyfraniad pwysig at yr agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol a cheir disgwyliadau uwch o ran cynnwys rhanddeiliaid, dinasyddion a'r gymuned, ac nid dim ond ymgysylltu â hwy, yn fwy effeithiol. Mae'r dystiolaeth o'n hadolygiad yn amlygu'r ffaith nad yw awdurdodau lleol ar eu pen eu hunain, gyda llai o adnoddau, disgwyliadau cynyddol a chapasiti sy'n mynd yn llai, yn gallu ymatebi'r galw a osodir arnynt. Mae'n rhaid wrth ddull cydweithredol ac integredig gan weithio gydag eraill. Fodd bynnag, er bod uwch swyddogion ac aelodau o bwyllgorau cynllunio a ymatebodd i'n harolwg wedi amlygu eu bod yn cydweithio ac yn integreiddio gwasanaethau i leihau costau a meithrin capasiti, canfuom dystiolaeth gyfyngedig yn unig bod hyn yn digwydd. Yn hytrach na hynny, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio'n gwneud popeth â llai o adnoddau.
- 2.17 Canfu ein hadroddiad rai dulliau cadarnhaol o wella effeithlonrwydd a pherfformiad a lleihau costau. Er enghraifft, mae proses gofrestru a gwasanaeth cyngor a chanllawiau Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu'r awdurdod i reoli ceisiadau'n well a rhyddhau capasiti. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion un 'Tîm Datblygu', sy'n integreiddio polisi cynllunio â gwasanaethau rheoli datblygu ac adeiladu i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithlon a chyfleus o ddarparu gwasanaethau cynllunio ar gyfer dinasyddion. Mae'r dull tîm datblygu hefyd yn helpu datblygwyr a phenseiri trwy'r broses gynllunio a rheoliadau adeiladu. Gall ethos tîm datblygu roi sicrwydd o ran y lefel o wasanaeth y gellir ei disgwyl a rhoi arweiniad a chyngor ynghylch yr wybodaeth sy'n ofynnol cyn ac yn ystod y broses cynllunio a rheoliadau adeiladu. Fodd bynnag, dim ond tri awdurdod cynllunio lleol sy'n hysbysebu'r gwasanaeth hwn ar eu gwefan ac yn cyfeirio ato mewn canllawiau cynllunio.

- 2.18 Mae'r broses Cynlluniau Datblygu yn Lloegr yn debyg i Gymru, a cheir rhai enghreifftiau da o'r modd y mae awdurdodau wedi ceisio datblygu eu cydnerthedd trwy gydweithio. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas Plymouth, Cyngor Dosbarth De Hampshire a Chyngor Bwrdeistref Gorllewin Dyfnaint wedi datblygu, ac yn ddiweddar wedi mabwysiadu, Cyd-gynllun Lleol Plymouth a De Ddwyrain Dyfnaint. Mae gweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor a Bargaen Ddinesig Penrhyn y De Orllewin hefyd wedi galluogi'r tri awdurdod lleol i wireddu arbedion o fwy nag £1.5 miliwn a chyflogi tri swyddog cynllunio dan hyfforddiant. Mae dulliau tebyg wedi cael eu datblygu rhwng y cynghorau sir a bwrdeistref yn Suffolk sydd wedi arwain at arbedion net o £2.2 miliwn a gostyngiad mewn canllawiau cynllunio atodol o 52 o ganllawiau i 12 .
- 2.19 Hyd yma, dim ond Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd sydd wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ac sydd â thîm polisi cynllunio ar y cyd, er nad yw hyn yn cwmpasu nac yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a ddewisodd beidio â gweithio gyda hwy. Er bod gan weinidogion Llywodraeth Cymru y pwerau i orchymyn bod awdurdodau cynllunio lleol yn cydweithio ac yn uno, a/neu ei gwneud yn ofynnol iddynt gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol dan y Ddeddf, nid yw'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio eto.
- 2.20 Mae dinasyddion y gwnaethom ni eu harolygu'n cydnabod yr heriau y mae awdurdodau'n eu hwynebu ac roedd nifer yn teimlo bod cynllunwyr yn ceisio gwneud eu gorau â'r adnoddau sydd ganddynt. Fodd bynnag, dengys trwch ein tystiolaeth fod niferoedd staff sy'n gostwng, colli profiad, llai o hyfforddiant a hyfforddeion a rôl lai amlwg i gynllunio mewn strwythurau penderfynu strategol yn codi rhai pryderon gwirioneddol ynghylch cydnerthedd y gwasanaeth yn y dyfodol. Yn wir, roedd nifer o ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod lefel yr arbenigedd mewn awdurdodau cynllunio wedi erydu dros y blynyddoedd diwethaf ac nad yw'r gwasanaeth yn 'addas ar gyfer y diben' nac yn gallu darparu'r hyn y mae ei angen. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau pwysig wrth ystyried pa mor gynaliadwy yw gwasanaethau cynllunio, a pha un a allant gyflawni'r rôl a ddisgwylir gan lawer yn y broses o lunio dyfodol Cymru.

Rhan 3

Mae amseroldeb ac ansawdd prosesau penderfynu'n amrywio'n eang ac mae perfformiad o ran rheoli ceisiadau'n wael



- 3.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol.

Mae ffocws prosesau penderfynu pwyllgorau cynllunio'n amrywio'n eang ac mae lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi'n dal i fod yn uchel

- 3.2 Er bod awdurdodau cynllunio lleol wedi sefydlu trefniadau a pholisïau llywodraethu eglur ar gyfer rheoli gwasanaethau cynllunio, canfuom fod cyfleoedd sylweddol i wella effeithiolrwydd pwyllgorau. Wrth edrych ar sampl o bwyllgorau cynllunio canfuom fod gwahaniaethau mawr rhwng ansawdd a threfniadau gweinyddu cyfarfodydd. Mae maint pwyllgorau cynllunio'n amrywio hefyd gan fod 20 aelod ar bedwar ohonynt. Gall hyn ei gwneud yn anodd rheoli cyfarfodydd. Er bod rhai cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda gyda rheolaeth eglur ac effeithiol ar fusnes, mae eraill yn canolbwyntio gormod ar faterion plwyfol a mân faterion a ddylai fod wedi cael eu dirprwyo i swyddogion.
- 3.3 Gwelsom hefyd rai swyddogion cynllunio mewn awdurdodau lleol yn dioddef ymddygiad amhriodol a phwysau gan aelodau'r pwyllgor cynllunio. Yn aml, mae angen i uwch swyddogion cynllunio a chyfreithiol ymyrryd i sicrhau bod y pwyllgor cynllunio'n aros ar y trywydd cywir ac yn deall terfynau a maint eu cyfrifoldebau i osgoi gwneud penderfyniadau gwael. Er gwaethaf hyn, nid yw'n anghyffredin ychwaith bod penderfyniadau'n cael eu gohirio neu fod oedi cyn eu gwneud, yn aml am gyfnodau hir.
- 3.4 Er bod y mwyafrif o aelodau pwyllgorau cynllunio ac uwch swyddogion a ymatebodd i'n harolygon yn credu bod eu pwyllgor cynllunio'n deall ei rôl a'i gyfrifoldebau ac yn cael argymhellion priodol a chlir, nododd trydydd o'u profiad fod eu pwyllgor yn aneffeithiol yn eu barn hwy. Roedd ychydig dros un rhan o bump o aelodau pwyllgorau cynllunio ac uwch swyddogion a ymatebodd i'n harolygon yn cydnabod gwendidau mewn systemau TGCh ac yn teimlo nad yw eu systemau cymorth ar gyfer pwyllgorau cynllunio mor effeithlon ac effeithiol ag y dylent fod. Nododd nifer ohonynt bryderon hefyd gydag ansawdd adroddiadau pwyllgorau sy'n aml yn rhy fanwl ac wedi'u hysgrifennu mewn jargon. Fe wnaeth sefydliadau yr arolygon ni ac y cyfwelom ni â hwy, sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd, godi pryderon yn yr un modd ynghylch gwneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio.

- 3.5 Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer mân ddatblygiadau, y rhai nad ydynt yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar les y cyhoedd, neu'r rhai nad ydynt yn denu gwrthwynebiadau, yn cael eu penderfynu fel rheol gan swyddogion dan bwerau a ddirprwywyd iddynt. Yn 2013-14, cafodd llai na 0.25% o'r ceisiadau cynllunio a ystyriwyd gan y 25 awdurdod cynllunio lleol eu penderfynu gan bwyllgorau cynllunio gyda'r gweddill yn cael eu dirprwyo i swyddogion. Erbyn 2017-18, roedd y ceisiadau a gafodd eu hystyried gan bwyllgorau cynllunio wedi codi i 7% o'r holl benderfyniadau²⁵. Roedd cyfanswm y penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau yn 2017-18 yn amrywio o 13 yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i 282 yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 3.6 Fodd bynnag, mae'r gyfran o argymhellion gan swyddogion sy'n cael eu gwrthdroi'n dal i fod yn uchel. Yn 2017-18 roedd canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau o bwyllgorau cynllunio yn groes i gyngor swyddogion yn 8.6% gyda pherfformiad yn amrywio o ddim penderfyniadau gan swyddogion yn cael eu gwrthdroi mewn nifer o awdurdodau cynllunio lleol i un awdurdod lleol – Cyngor Sir Ceredigion – yn cofnodi dros 60% o argymhellion gan swyddogion yn cael eu gwrthdroi (**Arddangosyn 11**). Mae gwrthdroi penderfyniadau a gwneud penderfyniadau'n groes i gyngor swyddogion yn golygu bod aelodau o bwyllgorau cynllunio'n gwyrto oddi wrth y polisïau a fabwysiadwyd ganddynt, a gall hynny danseilio hygredd y system seiliedig ar gynllun.

25 Gweler ffigur 27 ar dudalen 40: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adroddiad-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio-2017-hyd-2018_1.pdf

Arddangosyn 11 – canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion – cyfartaledd Cymru a'r amrediad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol

Mae perfformiad yn amrywio'n eang rhwng pwyllgorau cynllunio o ran dilyn cyngor swyddogion wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

Blwyddyn	Cyfartaledd Cymru	Y % isaf	Y % uchaf
2014-15	10.5%	0%	81.8%
2015-16	7.1%	0%	39.5%
2016-17	10.9%	0%	59.2%
2017-18	8.6%	0%	60.7%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-perfformiad-gwasanaethau-cynllunio?_ga=2.234887105.1992295880.1558953899-160543906.1551187863


Mae perfformiad o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio'n wael

3.7 Dengys ein dadansoddiad o ddata cenedlaethol fod y galw o ran ceisiadau cynllunio a'r nifer ohonynt wedi aros yn sefydlog ond bod capasiti awdurdodau cynllunio lleol yn gorfod ymestyn yn rhy bell, ac na fydd awdurdodau'n gallu ymdopi â chynnydd yn y galw, yn enwedig am geisiadau cynllunio mawr. Er enghraifft, er bod yr amser a gymer i benderfynu ynghylch yr holl geisiadau cynllunio'n sefydlog, ar gyfer ceisiadau mawr mae'r amser a gymer yn mynd yn hwy ac mae'n sylweddol is na'r targedau statudol ar gyfer cyflymder penderfyniadau²⁶. Yn 2017-18, dim ond 205 o'r penderfyniadau cynllunio mawr oedd 'ar amser' ac o fewn yr amserlen statudol – **Arddangosyn 12**. Mae hyn yn bwysig gan mai'r ceisiadau cynllunio mwyaf un o blith y rhai mawr yw'r rhai sy'n gallu cael yr effaith fwyaf a mwyaf uniongyrchol ar lesiant cymunedau, a bod perfformiad cynllunio gwael yn gallu effeithio ar benderfyniadau buddsoddi lle mae gan ddatblygwyr ddewis ble i adeiladu.

26 Dylai ceisiadau cynllunio gael eu penderfynu o fewn 8 wythnos. Rhoddir 16 wythnos i geisiadau cynllunio mawr, lle ceir Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gan eu bod yn fwy cymhleth a bod angen mwy o ymgynghori a negodi fel arfer. Y diffiniad o 'ddatblygiadau mawr ar raddfa fawr' yw datblygiad o 200 o dai neu fwy, neu ag arwynebedd llawr o 10,000 metr sgwâr neu fwy, neu lle mae arwynebedd y safle'n 2 hectar neu fwy. Y diffiniad o 'ddatblygiad mawr ar raddfa fach' yw rhwng 10 a 199 o dai, neu arwynebedd llawr rhwng 1,000 a 9,999 metr sgwâr neu lle mae arwynebedd y safle rhwng 1 a 2 hectar.

Arddangosyn 12 – yr amser a gymerodd awdurdodau cynllunio lleol ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau cynllunio rhwng 2014-15 a 2017-18

Mae'r amser a gymer ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau'n cynyddu ar gyfer ceisiadau mawr ac mae ymhell uwchlaw targedau Llywodraeth Cymru.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio?_ga=2.169286625.1992295880.1558953899-160543906.1551187863.

- 3.8 Mae hawl i apelio yn erbyn bron pob penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol os gwrthodir caniatâd cynllunio, os cymerir camau gorfodi, os gosodir amod beichus neu amhriodol ar ganiatâd cynllunio a roddwyd, neu os yw'r awdurdod cynllunio wedi methu â phenderfynu ynghylch y cais mewn modd prydlon ('diffyg penderfyniad').
- 3.9 Mae **Arddangosyn 13** yn crynhoi'r amrediad perfformiad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol yn erbyn cyfartaledd Cymru. Mae ychydig yn llai na dwy ran o dair o'r apelïadau'n cael eu gwrthod, gyda'r perfformiad gwaethaf yn Sir Fynwy lle cafodd 64.3% o'r apelïadau eu cadarnhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymharu nifer y penderfyniadau cynllunio lle gwrthodwyd caniatâd yn groes i gyngor swyddogion â chyfradd llwyddo apelïadau ar y cyfan. Er bod rhai awdurdodau cynllunio lleol yn mynd yn groes i'r duedd (megis Cyngor Sir Powys), yn nodweddiadol mae gan awdurdodau cynllunio lleol sy'n gwrthod caniatâd yn groes i gyngor swyddogion lefel is o apelïadau a wrthodwyd²⁷.

27 llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio-2017-hyd-2018?_ga=2.161896700.1992295880.1558953899-160543906.1551187863

Arddangosyn 13 – canran yr apeliadau a wrthodwyd – cyfartaledd Cymru a'r amrediad ar draws y 25 awdurdod cynllunio lleol

Mae perfformiad yn amrywio'n eang o ran awdurdodau cynllunio lleol yn gwrthod apêl yn erbyn ei benderfyniad cynllunio yn llwyddiannus.


Blwyddyn	Cyfartaledd Cymru	Awdurdod â'r % isaf yn cael eu gwrthod	Awdurdod â'r % uchaf yn cael eu gwrthod
2013-14	65.3%	47.6%	100%
2014-15	65.6%	46.2%	83.3%
2015-16	66.5%	6.0%	90.5%
2016-17	60.9%	40.0%	83.3%
2017-18	62.6%	35.7%	100.0%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, gov.wales/planning-services-performance-reports

- 3.10 Mae cymryd camau gorfodi'n gyflym, mewn modd penderfynol ac mewn modd teg yn agwedd allweddol ar atal datblygu gwael ac atal drwg rhag cael ei wneud. Dengys ein dadansoddiad o ddata a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod yr amser a gymer i gwblhau ymchwiliadau gorfodi wedi aros yr un fath ond bod y perfformiad ledled Cymru'n amrywiol iawn, a bod camau cadarnhaol yn dilyn ymchwiliad yn wael. Yn 2017-18, 78.8 diwrnod oedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn amrywio o 4.3 diwrnod yn yr awdurdod gorau i 468 diwrnod yn yr awdurdod â'r perfformiad gwaethaf. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol yn dilyn ymchwiliad oedd 184.6 diwrnod. Roedd yr awdurdod â'r perfformiad gorau'n cymryd camau gorfodi o fewn 8 diwrnod tra bo'r awdurdod gwaethaf yn cymryd 468 diwrnod.
- 3.11 Ceir gwahaniaeth barn sylweddol rhwng y rhai sy'n defnyddio'r system gynllunio a'r rhai sy'n ei gweinyddu hefyd, o ran cyflymder ac effeithiolrwydd prosesau penderfynu – [Arddangosyn 14](#).

Arddangosyn 14 – canfyddiadau'r arolwg o ran pa mor gyflym y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio

Ceir gwahaniaeth barn rhwng y rhai sy'n gweinyddu ac yn defnyddio gwasanaethau cynllunio ynghylch pa mor gyflym y mae awdurdodau cynllunio'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygon pwyllgorau cynllunio, uwch swyddogion cynllunio, rhanddeiliaid a dinasyddion, Ionawr 2019.

3.12 Mae staff awdurdodau cynllunio lleol y cyfwelom ni â hwy yn ystyried bod mesurau cenedlaethol yn rhy blaen ac yn canolbwyntio gormod ar gyflymder ac allbynnau, yn hytrach nag ar ddeilliannau ansawdd. Mae'r rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Lleol ac Adroddiadau Monitro Blynyddol²⁸ yn adrodd ar nifer uchel o ddangosyddion perfformiad, ac mae awdurdodau cynllunio lleol yn adrodd ar nifer o ddangosyddion eraill mewn cynlluniau, cynlluniau gwaith a strategaethau amrywiol. Er enghraifft, mae gan Gasnewydd 83 o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, 22 o ddangosyddion ar gyfer polisi cynllunio lleol ac 20 o ddangosyddion ar gyfer polisi cenedlaethol. Ac wrth bod adrodd ar berfformiad yn dal i ganolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio'n rheoli ceisiadau, gall fod yn anodd dangos yr effaith ar lesiant. O ganlyniad, mae angen i awdurdodau cynllunio lleol wneud mwy i sicrhau y gallant gyfleu'r achos dros gynllunio.

28 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn darparu'r sail ar gyfer monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol a phenderfynu a oes angen diwygio'r cynllun. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu i ba raddau y mae amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni ac a yw polisiau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae hefyd yn nodi unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Rhan 4

Mae angen gwaith pellach i gyflawni'r agweddau llesiant ar y Ddeddf Cynllunio (Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru



- 4.1 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyflwyno diben statudol ar gyfer y system gynllunio ac yn bwysig mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer eu swyddogaethau yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Atgyfnerthir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru ac mae cyfraniad cynllunio at wella lles pobl wedi'i nodi'n glir yn y diweddariad mwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2018²⁹. Mae'r swyddogion, yr aelodau a'r rhanddeiliaid y siaradom ni gyda hwy yn ystyried bod y newid mewn ffocws ym Mholisi Cynllunio Cymru i gyd-fynd ag agenda cenedlaethau'r dyfodol yn gam cadarnhaol ac yn ffordd fwy effeithiol o gyflwyno polisi cynllunio.
- 4.2 Y system gynllunio sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi i reoli defnydd a datblygiad tir a gall felly wneud cyfraniad cadarnhaol at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae cynllunio'n ysgogydd allweddol ar gyfer twf economaidd a llesiant ac mae'n ei gwneud yn bosibl ystyried y cyflenwad o dir a'r galw amdano i gefnogi datblygiadau newydd dros y tymor canolig a hir. Mae'r system gynllunio hefyd yn allweddol i wneud cadwraeth yn realiti gan bod ganddi rôl bwysig o ran gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol.
- 4.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn datgan bod angen i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol) ystyried a dangos sut y maent yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i danategu eu gwaith am mai 'dull a arweinir gan gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy trwy'r system gynllunio'. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir bod rhaid i bob corff sy'n gwneud penderfyniadau ystyried, a dangos, sut y gall gyflawni'r uchelgeisiau hyn.
- 4.4 Mae ansawdd y broses gynllunio'n dechrau â phennu amcanion ar gyfer y gwasanaeth cynllunio. Rhaid i amcanion fod yn seiliedig ar adnabod anghenion defnydd tir cymunedau ac yna'u diwallu, a dylent integreiddio amcanion datblygu, a geir mewn Cynllun Datblygu Lleol, ag amcanion corfforaethol ehangach. Gall canllawiau cyhoeddedig, pennu a monitro safonau gwasanaeth, trafodaethau cyn ymgeisio a chyfathrebu effeithiol wella ansawdd y broses, os cânt eu rheoli'n dda.

- 4.5 Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol wedi diffinio'n glir sut y mae eu gwasanaethau cynllunio'n cyfrannu at lesiant pobl a chymunedau ac mae ein canfyddiadau'n amlygu bod angen gwaith pellach i wireddu'r dyheadau hyn. Er enghraifft, canfuom fod gweledigaeth awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer y dyfodol yn aml yn aneglur ac nad yw wedi'i hintegreiddio â chynlluniau allweddol eraill. Ychydig o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n creu'r cysylltiad rhwng llesiant a chynllunio. Er enghraifft, dim ond pedwar Asesiad Llesiant sy'n croesgyfeirio ac yn integreiddio data â'u Cynllun Datblygu Lleol. Ychydig o Gynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig sy'n rhannu'r un datganiad o weledigaeth â Chynllun Llesiant yr awdurdod lleol neu sydd â datganiad o weledigaeth sy'n adlewyrchu'r un yn y cynllun hwnnw.
- 4.6 Yn yr un modd, mae ein hadolygiad o sampl o adroddiadau monitro blynyddol³⁰ yn canfod bod adroddiadau'n cyflwyno dealltwriaeth resymol am effeithiau amgylcheddol polisiau cynllunio, ond na roddir ystyriaeth dda ar y cyfan i lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae canlyniadau ymgysylltu a chynnwys yn y broses gynllunio'n feysydd sy'n gyson yn wannach mewn adroddiadau monitro blynyddol. O ganlyniad, mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei chael yn anodd dangos effaith ehangach eu polisiau yn systematig ac yn gyson ledled Cymru.
- 4.7 Er mai'r Ddeddf Cynllunio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r prif ysgogyddion ar gyfer defnydd a datblygiad tir yn y dyfodol yng Nghymru, fe wnaeth cyflwyno'r ddwy ddeddf osod galwadau enfawr ar awdurdodau cynllunio lleol. Mae'n deg dweud mai derbyniad 'lugoer' a gafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan staff awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau o bwyllgorau cynllunio yr ymgysylltom ni â hwy. Mae uwch swyddogion cynllunio'n nodi heriau gweithredu'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth ar yr un pryd a oedd yn gosod galwadau ychwanegol, gan roi gormod o faich ar wasanaeth sy'n profi anhawster gyda chapasiti.
- 4.8 O ystyried y newidiadau deddfwriaethol diweddar canfuom fod llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn adolygu trefniadau llywodraethu i sicrhau bod eu trefniadau penderfynu a chymorth yn adlewyrchu disgwyliadau'r Ddeddf Cynllunio (Cymru) a'u bod yn cyd-fynd yn fwy â'u cyfrifoldebau ehangach am lesiant. Er enghraifft, mae ansawdd, hygyrchedd a chwmpas hyfforddiant i aelodau ar faterion cynllunio'n cyd-fynd yn fwyfwy â goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Canfuom hefyd rai enghreifftiau da o'r modd y mae pwyllgorau cynllunio'n ystyried materion llesiant; yn anad dim yn y tri awdurdod parc cenedlaethol, yng Nghyngor Dinas Casnewydd ac yng Nghyngor Sir y Fflint.

30 Mae adroddiadau monitro blynyddol yn asesu a yw polisiau yn cyflawni eu hamcanion, ac a yw datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflawni.

- 4.9 Gall effaith gadarnhaol cynllunio gael ei dangos a'i themlo mewn nifer o ffyrdd. O ystyried cyfyngiadau'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer adrodd ar berfformiad sy'n barnu mewnbynnau, allbynnau ac amseroldeb, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn canolbwyntio ar y modd y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni deilliannau llesiant ac yn dangos sut y mae'n gwneud hynny. Canfuom rai enghreifftiau da o awdurdodau cynllunio lleol sy'n dangos dealltwriaeth well am effaith ehangach eu penderfyniadau. Er enghraifft, gwaith Cyngor Dinas Abertawe i adnabod a meintioli mesurau llesiant economaidd, a'r mesurau llesiant amgylcheddol a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint.
- 4.10 Mae rhai offer cenedlaethol ar gael i feintioli budd ac effaith ehangach penderfyniadau cynllunio hefyd. Mae RTPI Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth³¹ sy'n mesur y gwerth a gaiff ei greu gan gynllunio. Mae offeryn RTPI Cymru yn dod i'r casgliad bod rhoi caniatâd cynllunio a galluogi datblygiadau i gael eu cwblhau yn 2016-17 wedi achosi i werthoedd tir gynyddu fwy na £2.2 biliwn a bod ychydig dros £125 miliwn mewn cyfraniadau gan ddatblygwyr wedi cael eu sicrhau i wella seilwaith ac amwynderau lleol. Fodd bynnag, canfuom mai dim ond tri awdurdod lleol sydd wedi cyflwyno cynlluniau Ardoll Seilwaith Cymunedol hyd yn hyn – Cyngorau Bwrdeistref Sirol Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf – a bod y swm a godwyd yn 2017-18 yn gymharol fach, yn llai na £0.5 miliwn. Serch hynny, gall meintioli gwerth ariannol cynllunio gan ddefnyddio dull RTPI Cymru yn lleol helpu i ddangos effaith a budd penderfyniadau cynllunio da.
- 4.11 Dengys ymchwil fod dylunio adeiladau a manau gwyrdd o ansawdd da yn llesol i iechyd, ei fod yn gallu gwella llesiant a'i fod yn helpu i osod y sylfaen ar gyfer cymunedau mwy ffyniannus a chynhwysol³². O'n hadolygiad canfuom fod canllawiau dylunio yn aml yn weddol gyfyngedig ac nad ydynt yn rhoi anogaeth i arloesi neu arbrofi. Dim ond pum awdurdod cynllunio sydd wedi cyhoeddi canllawiau dylunio lleol ar-lein ac nid oedd adroddiadau pwyllgorau cynllunio a adolygwyd gennym yn cyfeirio'n gyson at safonau dylunio lleol, er bod rhai canllawiau dylunio cenedlaethol defnyddiol i'w cael³³. Mae canllawiau da a adolygwyd gennym yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf³⁴ ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri. Y tu allan i Gymru, canfuom ganllawiau dylunio o ansawdd da yn Sheffield³⁵, Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor³⁶, ac Ynysoedd Sili³⁷ hefyd.

31 Gweler **RTPI the-value-of-planning-in-wales**

32 City Health Check: How design can save lives and money, RIBA, 2017; and Design Matters: Promoting Good Design Through the Planning System, RIBA, 2019.

33 Gweler **Nodyn Cyngor Technegol 12-Dylunio 2016**

34 Gweler **Canllawiau a Gwybodaeth Dylunio RhCT**

35 Gweler **Sheffield design guidance**

36 Gweler **Dartmoor Design Guide**

37 Gweler **Isles of Scilly Design Guide**

- 4.12 Gall dychmygu canlyniad penderfyniadau cynllunio fod yn ffordd dda o farnu a dangos effaith gadarnhaol penderfyniadau hefyd. Mae Cyngor Dinas Casnewydd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal teithiau blynyddol ar gyfer y pwyllgor cynllunio i weld datblygiadau newydd er mwyn barnu effaith eu penderfyniadau a helpu i adnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella o ran dyluniad, cynllun ac integreiddio ag adeiladau presennol, y dirwedd a'r seilwaith.
- 4.13 Efallai mai canlyniad penderfyniadau cynllunio ar gyfer dinasyddion a sut y mae datblygu'n cyfrannu at wella ac ychwanegu at eu llesiant yw'r mesur gorau i ddangos pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio'n ymateb i agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er bod y rhan fwyaf o benaethiaid cynllunio ac aelodau o bwyllgorau cynllunio'n meddwl mai dim ond datblygiadau o ansawdd da y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn eu caniatáu, dengys ein harolwg fod llai na thraean o'r dinasyddion (29%) yn meddwl hynny, a bod ychydig dros un rhan o bump (22%) yn meddwl bod eu hawdurdod cynllunio lleol yn gallu datblygu a chefnogi'r hyn y mae ar eu cymuned ei angen yn y dyfodol.
- 4.14 Mae hyn yn cyferbynnu â gwaith rhai awdurdodau cynllunio yn Lloegr sy'n cydnabod bod eu gwasanaethau cynllunio'n fodd iddynt allu gweithio gyda'r sector preifat i greu incwm a chreu cyfleoedd i ddinasyddion. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas Newcastle wedi rhoi blaenoriaeth i greu dinas fwy cynaliadwy gan ysgogi buddsoddiad o fwy nag £1 biliwn trwy ei bartneriaeth gyda Legal and General ar safle Helix, ac mae ei Ardaloedd Datblygu Cyflymach yn galluogi'r Cyngor i adfywio canol y ddinas a threchu tlodi.
- 4.15 Mae casgliadau ein harolwg dinasyddion yn amlygu'r her allweddol sy'n wynebu awdurdodau cynllunio lleol – ar y naill law mae'n rhaid iddynt daro cydbwysedd rhwng rheoli llif y ceisiadau cynllunio, a gwaith beunyddiol gwasanaethau rheoli datblygu ac adeiladu, a phennu gweledigaeth fwy uchelgeisiol a hirdymor sy'n cyfoethogi ac yn gwella llesiant eu cymunedau. Mae ein hadolygiad wedi amlygu bod gwasanaethau cynllunio'n allweddol i helpu i gyflawni dyheadau agenda cenedlaethau'r dyfodol, ond ar hyn o bryd oherwydd cymhlethdod y system gynllunio, capasiti sy'n mynd yn llai a phrosesau penderfynu amrywiol, mae ganddynt dipyn o ffordd i fynd er mwyn gwneud y newid sylweddol y mae ei angen.

Atodiadau

Atodiad 1 – methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 2 – y fframwaith cynllunio yng Nghymru

Atodiad 3 – cost net gwasanaethau rheoli
datblygu awdurdodau lleol 2017-18

Atodiad 4 – cost net gwasanaethau rheoli
adeiladu awdurdodau lleol 2017-18

Atodiad 5 – canfyddiadau'r arolwg



Atodiad 1 – methodoleg yr astudiaeth

Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys dogfennau polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru; cynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol; ac ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a chyrrff ymchwil.

Dadansoddi data ac ystadegau

Rydym wedi coladu a dadansoddi ystod eang o ddatganiadau dangosyddion perfformiad a data ar gyllidebau sydd ar gael ar-lein ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, StatsCymru ac adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau cynllunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwaith maes cenedlaethol

Fe gynhaliom ni gyfweiliadau gyda chynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cyfarwyddwr y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fe wnaethom hefyd drafod ein harolwg a'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Fforwm Datblygu Cartrefi Cymunedol Cymru.

Gwaith maes lleol

Fe ymwelom ni ag wyth awdurdod cynllunio lleol yn 2018-19. Roedd yr awdurdodau a ddetholwyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau dinesig, trefol, gwledig ac yn y cymoedd, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Fe wnaethom waith maes gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri hefyd. Fe wnaethom hefyd ymweld â Chyngor Dinas Newcastle er mwyn cael cyferbyniad ac i ddysgu sut y maent yn cyflawni llesiant trwy eu gwasanaethau cynllunio.

Arolygon

Fe gynhaliom ni ystod o arolygon ar-lein gyda phrif swyddogion cynllunio, aelodau o bwyllgorau cynllunio a chyrrff proffesiynol sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio'n rheolaidd.

Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd i glywed am faterion cynllunio gan aelodau'r cyhoedd yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol ac fe ategwyd y gwaith ymgysylltu uniongyrchol hwn gan arolwg ar-lein ar gyfer y cyhoedd. Cawsom 627 o arolygon wedi'u cwblhau a'r rheiny'n cynnwys ymatebion gan drigolion sy'n byw yn ardal pob awdurdod cynllunio lleol.

Tudalen y pecyn 201

Atodiad 2 – y fframwaith cynllunio yng Nghymru

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Cymru sy'n darparu'r polisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan 21 o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) seiliedig ar destunau sy'n rhoi cyngor cynllunio manwl a rhaid i'r rhain gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Ategir Nodiadau Cyngor Technegol gan ganllawiau gweithdrefnol mewn cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi. Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynhyrchu un cylchlythyr ac un llythyr egluro polisi bob mis.

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi sut y gall y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol fod o gymorth i ateb y gofynion hyn trwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r ymgynghoriad ynghylch drafft cyntaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i fod i ddod i ben yn haf 2019. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi fframwaith defnydd tir dros 20 mlynedd ar gyfer Cymru gyfan a bydd yn cyfarwyddo'r cynlluniau datblygu oddi tano – Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Bydd hefyd yn cefnogi penderfyniadau ynghylch prosiectau seilwaith ar raddfa fawr trwy'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Polisi Cynllunio Rhanbarthol

Ardaloedd Cynllunio Strategol a Chynlluniau Datblygu Strategol

Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau i weinidogion Cymru adnabod 'ardaloedd cynllunio strategol' sy'n fwy nag awdurdodau cynllunio lleol ac i 'banelau cynllunio strategol' gael eu sefydlu ar gyfer yr ardaloedd hyn. Bydd y panelau hyn yn cynnwys aelodau etholedig o'r awdurdodau cynllunio lleol yn y rhanbarth. Os oes panel wedi'i sefydlu ar gyfer ardal, bydd hwnnw wedyn yn cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn rhan o'r cynllun datblygu ffurfiol ar gyfer yr ardal honno. Bydd Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys materion trawsffiniol megis tai a thrafnidiaeth. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol a chynllunio datblygu ar lefel ranbarthol yn newydd iawn o hyd a de-ddwyrain Cymru sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf tuag at baratoi Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol.

Polisi Cynllunio Lleol

Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod cynllunio yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. Rhaid iddynt baratoi cynllun lleol sy'n nodi polisiau cynllunio yn eu hardal. Mae'r rhain yn bwysig iawn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Unwaith y mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, ceir archwiliad gan arolygydd cynllunio annibynnol i ystyried 'cadernid' y cynllun, gyda gwrandawriadau a gynhelir yn gyhoeddus. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig i'r broses o baratoi cynllun. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cyhoeddi Cytundeb Cyflawni ar ddechrau'r broses a hwnnw'n nodi'r camau allweddol a phryd y gall pobl chwarae rhan. Rhaid penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Mae 24 o Gynlluniau Datblygu Lleol i'w cael a'r rheiny i gyd ar gamau amrywiol. Mae gan Wynedd ac Ynys Môn Gynllun Datblygu ar y cyd ac mae dau awdurdod yn y broses o fabwysiadu eu cynllun.

Rheoli datblygu

Mae'r awdurdod cynllunio lleol hefyd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu bwrw ymlaen â datblygiad arfaethedig. Caniatâd cynllunio yw'r enw ar hyn. Mae angen y caniatâd hwn ar y rhan fwyaf o adeiladau newydd, addasiadau mawr i adeiladau presennol a newidiadau sylweddol i ddefnydd adeilad neu ddarn o dir. Rheoli Datblygu yw'r enw ar y gwasanaethau hyn. Swyddogion awdurdod lleol sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o fân geisiadau cynllunio a cheisiadau cynllunio annadleuol a hynny dan bwerau penderfynu a ddirprwywyd iddynt. Mae datblygiadau sy'n fwy o faint ac yn fwy dadleuol yn cael eu penderfynu'n aml gan bwyllgor cynllunio, ar sail argymhellion swyddogion. Mae cynigion datblygu mwy sydd o bwysigrwydd mwy na lleol yn cael eu 'galw i mewn' i gael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru yn lle'r awdurdod cynllunio lleol. Dan rai amgylchiadau gall Llywodraeth y DU alw cynigion datblygu i mewn hefyd. Caiff taliadau eu pennu'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gall awdurdodau cynllunio lleol godi tâl am gyngor cyn ymgeisio hefyd a chodir am y gwasanaeth hwn yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol.

Polisi Cynllunio Lleol (parhad)

Rheoli adeiladu

Mae'r 22 awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau rheoli adeiladu i wirio bod gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu. Mae hwn yn wasanaeth pwysig i sicrhau iechyd a diogelwch pobl yn ac o amgylch adeilad. Mae'r rheoliadau hefyd yn hybu effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau ac yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pobl anabl. Mae gwasanaethau rheoli adeiladu hefyd yn gyfrifol am ymdrin â strwythurau peryglus, achosion o dorri rheolau a safleoedd dymchwel. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer y rhan fwyaf o waith adeiladu. Mae hyn yn cynnwys adeiladau newydd, addasu'r atig, estyniadau ac addasiadau. Ers 1985 mae gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol wedi bod mewn cystadleuaeth ag 'Arolygwyr Cymeradwy' sy'n gweithredu ar sail elw ac yn gweithio'n genedlaethol ar draws ffiniau awdurdodau. Caiff taliadau rheoli adeiladu eu pennu gan bob awdurdod lleol y mae'n rhaid iddynt fabwysiadu cynllun ffioedd. Mae ystod a chymhlethdod y ffioedd yn amrywio'n eang. Nid yw awdurdodau parciau cenedlaethol yn darparu gwasanaethau rheoli adeiladu.

Gorfodaeth cynllunio

Mae gorfodaeth cynllunio yn ymdrin ag achosion o dorri rheolaethau cynllunio, gan gynnwys lle gwneir gwaith adeiladu y mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer heb gael caniatâd o'r fath, lle na chydymffurfir ag amodau sy'n gysylltiedig ag amod cynllunio, neu lle caiff defnydd adeilad neu safle ei newid heb ganiatâd cynllunio. Eu dyletswyddau craidd o ran gorfodaeth cynllunio yw:

- ymchwilio i honiadau ac ymholiadau;
- ysgrifennu at achwynwyr a thramgwyddwyr;
- negodi camau unioni;
- cynnal cyswllt ag adrannau eraill y cyngor i sicrhau dull cyson;
- gwneud argymhellion ynghylch doethineb cymryd camau gorfodi;
- gwirio cydymffurfiaeth â hysbysiadau gorfodi ac erlyn am ddiffyg cydymffurfio; ac
- ymddangos fel tyst ar ran yr awdurdod cynllunio lleol mewn llys ynadon.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 3 – cost net gwasanaethau rheoli datblygu awdurdodau lleol 2017-18

Awdurdodau Lleol	Gwariant (£'000)	Incwm (£'000)	Cost Net £'000 (mae swm negatif yn golygu gwaged)	Cyfran o gymhorthdal (mae % gadarnhaol uwch yn well)
Ynys Môn	767	812	-45	5.9%
Gwynedd	1,097	528	569	-51.9%
Conwy	884	503	381	-43.1%
Sir Ddinbych	952	457	495	-52.0%
Sir y Fflint	1,177	905	273	-23.1%
Wrecsam	687	583	104	-15.1%
Powys	1,702	1,372	330	-19.4%
Ceredigion	793	375	418	-52.7%
Sir Benfro	1,105	648	457	-41.4%
Sir Gâr	2,272	1,150	1,122	-49.4%
Abertawe	2,897	2,370	527	-18.2%
Castell-nedd Port Talbot	1,277	438	839	-65.7%
Pen-y-bont ar Ogwr	659	464	195	-29.6%
Bro Morgannwg	1,311	864	447	-34.1%
Rhondda Cynon Taf	1,682	936	746	-44.4%
Merthyr Tudful	409	263	146	-35.7%
Caerffili	987	653	334	-33.8%
Blaenau Gwent	683	240	444	-64.9%
Torfaen	629	587	42	-6.7%
Sir Fynwy	1,079	430	649	-60.1%
Casnewydd	936	600	336	-35.9%
Caerdydd	1,209	2,312	-1,102	91.2%

Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 4 – cost net gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol 2017-18


Awdurdodau Lleol	Gwariant (£'000)	Incwm (£'000)	Cost Net £'000 (mae swm negatif yn golygu gwaged)	Cyfran o gymhorthdal (mae % gadarnhaol uwch yn well)
Ynys Môn	455	454	1	-0.2%
Gwynedd	642	403	239	-37.2%
Conwy	332	173	159	-47.9%
Sir Ddinbych	328	165	163	-49.7%
Sir y Fflint	524	238	286	-54.6%
Wrecsam	392	347	45	-11.5%
Powys	673	622	51	-7.6%
Ceredigion	437	229	208	-47.6%
Sir Benfro	463	333	130	-28.1%
Sir Gâr	751	456	295	-39.3%
Abertawe	626	516	110	-17.6%
Castell-nedd Port Talbot	630	298	332	-52.7%
Pen-y-bont ar Ogwr	326	238	88	-27.0%
Bro Morgannwg	494	468	26	-5.3%
Rhondda Cynon Taf	490	292	198	-40.4%
Merthyr Tudful	218	141	77	-35.3%
Caerffili	297	187	110	-37.0%
Blaenau Gwent	441	105	336	-76.2%
Torfaen	245	185	60	-24.5%
Sir Fynwy	543	388	155	-28.5%
Casnewydd	345	201	144	-41.7%
Caerdydd	843	678	165	-19.6%

Ffynhonnell: Data Alldro Refeniw (RO), StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru


Tudalen y pecyn 206

Atodiad 5 – canfyddiadau'r arolwg

Arddangosyn 14 – barn aelodau o bwyllgorau cynllunio wrth ystyried a yw eu hawdurdod cynllunio'n trefnu bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y canlynol:



Arddangosyn 15 – Arddangosyn 16: barn uwch swyddogion cynllunio wrth ystyried a yw eu hawdurdod cynllunio'n trefnu bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y canlynol:



Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2019.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Y Gronfa Gofal Integredig



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Tudalen y pecyn 216

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Allison Rees, David Wilson, Fflur Jones, Matthew Brushett, Nathan Couch a Philippa Fido o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych chi angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb	6
Argymhellion	14
1 Mae'r gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau	16
Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu'r gronfa	17
Mae'r gronfa wedi ysgogi partneriaid rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisiau a deddfwriaeth ehangach	18
2 Mae agweddau ar y ffordd y cafodd arian ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan bartneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y gronfa hyd yma	20
Mae disgwyliadau newidiol Llywodraeth Cymru, problemau o ran prydlondeb y prosesau dyrannu arian, a'r gorwelion byrdymor wedi llesteirio gwaith cyflawni rhanbarthol	21
Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â natur flynyddol y gronfa a bu iddi gyhoeddi canllawiau 2019-20 yn fwy prydlon	30
Gall y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed	32
Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio eu dyraniadau mewn ffyrdd gwahanol ac nid yw pob un o'r rhain wedi cefnogi ffocws rhanbarthol	33

3	Mae angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwyllo canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau	37
	Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau llywodraethu'r gronfa, ond mae angen iddi wneud mwy i ystyried sut y mae ei gweithredoedd hithau'n effeithio ar bartneriaid rhanbarthol ac i integreiddio ffrydiau ariannu	38
	Mae capasiti staffio Llywodraeth Cymru i oruchwyllo'r gronfa'n rheolaidd ac yn amserol wedi bod yn gyfyngedig	39
	Yn aml, bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dirprwyo cyfrifoldeb dros y gronfa i is-grŵp ac nid yw'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn craffu'n fanwl ar y modd y defnyddir y gronfa	40
	Mae cadernid y gwaith o reoli prosiectau'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac o sefydliad i sefydliad, ac ychydig ohonynt sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg	42
4	Er bod enghreifftiau cadarnhaol, nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn glir o hyd, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma	44
	Mae'r byrddau partneriaeth yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol, ond nid yw trefniadau monitro canolog Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen i asesu effaith gyffredinol y gronfa hyd yma	45
	Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei disgwyliadau	48

Atodiadau	52
Atodiad 1 – Dulliau archwilio	53
Atodiad 2 – Map o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2019	55
Atodiad 3 – Dosbarthiad y gronfa rhwng 2014 a 2019	56
Atodiad 4 – Dadansoddiad o nifer a maint y prosiectau rhwng 2014 a 2019	57
Atodiad 5 – Prif ganfyddiadau ein harolygon ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau	59
Atodiad 6 – Y cynnydd a wnaed o ran argymhelliad blaenorol	61

Adroddiad cryno


Crynodeb

- 1 Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa) ledled Cymru. Nod y gronfa yw annog a galluogi gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i weithio mewn ffordd integredig i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy.
- 2 Sefydlwyd y gronfa'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn yn unig yn 2014-15 (fel y Gronfa Gofal Canolraddol¹). Bryd hynny, roedd y gronfa'n canolbwyntio ar gynorthwyo pobl hŷn a helpu i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau'r cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal.
- 3 Ar ôl darparu rhywfaint o gyllid parhaus yn 2015-16, ehangodd Llywodraeth Cymru gwmpas y gronfa yn 2016-17 i gynnwys:
 - a plant ac oedolion ag anghenion cymhleth;
 - b plant ac oedolion ag anableddau dysgu; a'r
 - c Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ([Arddangosyn 2](#)).
- 4 Yn 2017-18, ehangodd Llywodraeth Cymru gwmpas y gronfa eto i gynnwys gofalwyr (o bob oed) a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru² ([Arddangosyn 2](#)).
- 5 Ers sefydlu'r gronfa, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £270 miliwn hyd at fis Mawrth 2019. Ac eithrio 2015-16, gwnaed dyraniadau cyfalaf a refeniw bob blwyddyn ([Arddangosyn 1](#)). Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r dyraniad cyfalaf i £35 miliwn yn 2019-20. Mae'r dyraniad refeniw wedi cynyddu i £80 miliwn, felly mae cyfanswm o £115 miliwn wedi'i ddyrannu i'r gronfa.

1 Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru enw'r gronfa i'r Gronfa Gofal Integredig i adlewyrchu'n well y nod o hybu gwaith integredig.

2 Fel rhan o'r rhaglen waith ehangach, rydym yn mynd ati i gynnal ymchwiliad ar wahân i'r camau i roi'r system ar waith.

Arddangosyn 1: cyfanswm yr arian a ddarparwyd rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2020



Nodyn: Mae arian refeniw'n cefnogi gwariant ar staff a threuliau gweinyddol. Mae arian cyfalaf yn cefnogi prynu a gwella asedau, gan gynnwys tir, adeiladau, cyfarpar a cherbydau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

6 Mae Llywodraeth Cymru'n dosbarthu'r gronfa ledled Cymru i'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol³ (y byrddau partneriaeth) ar sail egwyddorion ariannu amrywiol⁴. Mae'r byrddau partneriaeth yn cydffinio â'r saith bwrdd iechyd (**Atodiad 2**) ac maent yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r modd y defnyddir y gronfa yn eu hardaloedd. Mae'r byrddau iechyd yn derbyn yr arian ac yn gweithredu fel banciwr ar ran y bwrdd partneriaeth perthnasol. Mae **Atodiad 3** yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r gronfa fesul bwrdd partneriaeth o fis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2019.

3 Sefydlwyd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2016 gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt yn cydweithio'n effeithiol i bennu anghenion poblogaeth y rhanbarth (asesiad o'r boblogaeth). Maent hefyd yn gyfrifol am baratoi a rheoli cynllun ardal i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

4 Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r arian ar draws gwahanol ffrydiau'r rhaglen. Cedwir peth ohono'n ganolog ar gyfer mentrau cenedlaethol. Dyrennir yr arian sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn ar sail fformiwla 'Townsend' a ddefnyddir hefyd i ddyrannu adnoddau GIG Cymru i'r byrddau iechyd. Dyrennir yr arian sy'n canolbwyntio ar blant, ac oedolion ag anabledau, ar sail fformiwla presgripsiynu. Er ei fod yn grŵp sy'n flaenoriaeth, nid oes arian ar wahân ar gyfer gofalwyr.

- 7 Gall y gronfa gefnogi mentrau (neu brosiectau) newydd, yn ogystal ag estyn mentrau sy'n bodoli eisoes i ardal ehangach. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu i fentrau llwyddiannus barhau, ond drwy eu prif-ffrydio i fusnes craidd y sefydliadau a'u cefnogi drwy ffrydiau ariannu eraill.
- 8 Rhaid i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio'r gronfa yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Y byrddau partneriaeth sy'n cymeradwyo prosiectau refeniw. Yna, maent yn cyflwyno Cynllun Buddsoddi Refeniw blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi sut y byddant yn defnyddio'r gronfa. Maent yn cyflwyno cynigion i ddefnyddio'r arian cyfalaf i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo. Rhaid iddynt ddangos sut y mae'r prosiectau arfaethedig yn cydweddu â deddfwriaeth/polisiâu allweddol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 9 Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru rhai enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd. Mae **Atodiad 4** yn rhoi mwy o wybodaeth am nifer a maint y prosiectau a gefnogwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2019.

Arddangosyn 2: enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd



(Pobl Hŷn)

Uned Ailalluogi 'Y Bae' – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro)

Uned â chwe gwely sy'n bont rhwng yr ysbyty a'r cartref yw 'Y Bae', a hynny ar gyfer pobl y mae angen iddynt dreulio mwy o amser mewn amgylchedd cefnogol i sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl.



(Pobl Hŷn)

'Cadw'n Iach Gartref' – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf)

Ystod o wasanaethau a ddatblygwyd i helpu i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol yn eu cartrefi ac i atal derbyniadau i'r ysbyty yw 'Cadw'n Iach Gartref'. Mae'n cynnwys Gwasanaeth Asesu Integredig Cymunedol, Ward Cymunedol, Therapi Mewnwythiennol Cymunedol a Gwasanaeth Ailalluogi.



(Plant ag anghenion cymhleth)

Gwasanaeth Cymorth Lleoliadau Aml-asiantaeth – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin)

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol hwn yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal sy'n dioddef afiechyd meddwl a/neu emosiynol a/neu anawsterau ymddygiadol, neu blant sydd mewn perygl o'u dioddef, drwy ddarparu cymorth lleoli arbenigol.

Tudalen y pecyn 223



(Plant ag anghenion cymhleth)

Egwyl Fer – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru)

Mae'r fenter hon wedi datblygu a gwella'r seibiannau byrion a ddarperir i blant anabl ag anghenion cymhleth a/neu anabledau dysgu. Mae'r fenter hon yn darparu seibiannau byrion amrywiol i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar ôl asesiadau aml-asiantaeth.



(Anabledau Dysgu)

Caffi Man Cwrdd – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru)

Caffi cyflogaeth â chymorth yw'r Caffi Man Cwrdd. Mae'n darparu profiad gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth ym maes arlwyio, bwyd a gwasanaeth cwsmeriaid i bobl ag anabledau dysgu yn Sir Benfro.



(Anabledau Dysgu)

Dychwelyd Adref – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys)

Mae'r prosiect Dychwelyd Adref yn cynorthwyo pobl ag anabledau dysgu i fyw bywydau ystyrllon a buddiol yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r prosiect wedi cefnogi camau i ddatblygu prosesau asesu i gynorthwyo pobl i symud yn ôl i Bowys ac mae wedi mynd ati i adeiladu uned â chwe gwely yn y Trallwng.



(Gofalwyr)

Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf)

I helpu i gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu a seibiant, mae'r bartneriaeth wedi llunio Cynllun Grantiau Bach ar gyfer gofalwyr. Ei nod yw cynorthwyo gofalwyr â gwahanol agweddau ar eu rôl ofalu. Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn gweithredu'r cynllun ar ran y rhanbarth, ac mae'n agored ac yn hygyrch i bob gofalwyr dros 16 oed.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig – (pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)



(GAI)

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Chynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer Anhwyldeira'u Sbectwm Awtistig i wella'r gwasanaethau i unigolion awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Cyflwynwyd y gwasanaeth ar draws y rhanbarthau dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19 ac mae'n darparu asesiadau diagnostig, cymorth a chynngor i oedolion.

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru – (pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)



(SWGCC)

System gyfrifiadurol yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru i helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gydweithio i ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae'r system yn cael ei chyflwyno ledled Cymru dros gyfnod o dair blynedd a ddechreuodd yn 2017-18.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

- 10 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi pwysu a mesur a yw'r gronfa'n cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n cyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Rydym wedi canolbwyntio ar ba un a yw Llywodraeth Cymru'n rheoli'r gronfa'n effeithiol i gyflawni ei hamcanion, ac ar ddod i wybod a yw'r byrddau partneriaeth yn dangos eu bod yn defnyddio'r gronfa'n effeithiol. Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa'n gwneud gwahaniaeth amlwg ar lefel leol.
- 11 Mae **Atodiad 1** yn amlinellu ein dulliau archwilio sy'n cynnwys arolwg ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr y prosiectau a gefnogwyd gan y gronfa. Mae **Atodiad 5** yn rhoi mwy o fanylion am yr ymatebion i'n harolygon. Rhoddwyd adborth i bob bwrdd partneriaeth am y trefniadau rhanbarthol yn yr hydref 2018. Rhoddwyd adborth am ein canfyddiadau cychwynnol i Lywodraeth Cymru hefyd. Ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, rydym yn nodi ymhle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynd i'r afael â'r materion a bennwyd gennym.

- 12 Yn 2015, bu inni gyhoeddi adroddiad⁵ am annibyniaeth pobl hŷn. Ynndo, gwnaethom argymhelliad i'r awdurdodau lleol, y cyrff iechyd, partneriaid y trydydd sector a Llywodraeth Cymru o ran y gronfa. Yn **Atodiad 6**, ceir asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad hwnnw.
- 13 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad **bod y gronfa wedi cael effaith gadarnhaol drwy gefnogi gwaith partneriaeth gwell ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Fodd bynnag, mae agweddau ar y ffordd y cafodd y gronfa ei rheoli ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel prosiectau wedi cyfyngu ar ei photensial hyd yma. Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma.**
- 14 **Mae'r gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau.** Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser, ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu'r gronfa. Mae'r gronfa wedi ysgogi partneriaid i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisiâu a deddfwriaeth ehangach. Mae'r adborth gan aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr prosiectau yn dangos bod eu barn am hyn yn gadarnhaol ar y cyfan.
- 15 **Mae agweddau ar y ffordd y cafodd arian ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan y partneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y gronfa hyd yma.** Mae'r ffaith bod cwmpas y gronfa wedi newid ac ehangu wedi creu heriau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu gwybodaeth yn gynnar, mae'r ffaith iddi fod yn hwyr yn cyhoeddi canllawiau ac yn rhoi gwybod am ddyraniadau yn y gorffennol wedi creu anawsterau o ran cynllunio rhanbarthol. Mae hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar gymeradwyo ceisiadau cyfalaf ac ar ddyrannu'r cronfeydd ar ôl eu cymeradwyo. Mae natur flynyddol y gronfa yn ystod ei blynnyddoedd cynnar hefyd wedi arwain at ddull byrdymor o weithredu, yn hytrach na hybu cynlluniau strategol ar gyfer newidiadau mwy hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â natur flynyddol y gronfa ac fe gyhoeddodd ganllawiau 2019-20 yn fwy prydlon.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru: **Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw cynghorau'n gwneud digon?** Hydref 2015.

- 16 Gall y byrddau partneriaeth ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed. Mae'r ffaith bod rhai o ffrydiau ariannu tymor byr eraill Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr un grwpiau targed, ond gyda meini prawf gwahanol, hefyd yn ei gwneud yn anodd i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio dull cyfun. Mae'r byrddau partneriaeth yn defnyddio eu dyraniadau mewn gwahanol ffyrdd, ac nid yw pob un o'r rhain wedi cefnogi ffocws rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwsleisio ei dyhead iddynt ddefnyddio dulliau rhanbarthol yng nghanllawiau 2019-20 ac fel rhan o'i gwaith i graffu ar y cynlluniau buddsoddi. Mae'r gwahaniaethau eraill yn cynnwys y dull o ariannu gwaith cydgysylltu canolog, rhan y trydydd sector, a'r dull o gytuno ar brosiectau, ac mae'r camau i rannu'r dulliau a ddefnyddir ledled Cymru ac i ddysgu ohonynt yn gyfyngedig.
- 17 **Mae angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwyllo canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau llywodraethu'r gronfa. Fodd bynnag, canfuwyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy, drwy ei bwrdd prosiect, ac yn gyffredinol, i ystyried sut y mae ei gweithredoedd hithau'n effeithio ar y partneriaid rhanbarthol ac i integreiddio ffrydiau ariannu. Bu capasiti staffio Llywodraeth Cymru i oruchwyllo'r gronfa'n rheolaidd ac yn amserol yn gyfyngedig hefyd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud rhai newidiadau i fynd i'r afael â'r materion hyn.
- 18 Ar lefel ranbarthol, mae'r byrddau partneriaeth yn aml yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros y gronfa i un o'u his-grwpiau. Mae gan bob un o'r byrddau partneriaeth femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r broses benderfynu y cytunwyd arni. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi dangos nad yw'r byrddau iechyd na'r awdurdodau lleol yn craffu'n fanwl ar benderfyniadau'r byrddau partneriaeth, a bod diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ar draws y sefydliadau hynny o'r ffordd y defnyddir y gronfa. Ar lefel prosiectau, mae cadernid y gwaith o'u rheoli'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac o sefydliad i sefydliad, ac ychydig ohonynt sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg.

- 19 **Ceir enghreifftiau cadarnhaol, ond nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau'n glir o hyd, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma.** Mae'r byrddau partneriaeth yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol ond nid yw trefniadau monitro canolog Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen i asesu effaith gyffredinol y gronfa hyd yma. Mae'r byrddau partneriaeth yn monitro prosiectau bob chwarter, ond mae'r wybodaeth a gesglir wedi tueddu i ganolbwyntio ar allbynnau'r cyllid yn hytrach na chanlyniadau'r defnyddwyr. Mae Llywodraeth Cymru a'r byrddau partneriaeth yn cydnabod bod angen cryfhau'r broses o adrodd am ganlyniadau, ac mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu comisiynu gwaith gwerthuso ehangach ar ôl iddi benderfynu gohirio gwerthusiad a gyhoeddwyd yn flaenorol oherwydd ein cynlluniau i ymgymryd â'n gwaith ni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Medi 2019 am y ffordd y defnyddiwyd y gronfa yn 2018-19.
- 20 Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus. Mae'r byrddau partneriaeth wedi'i chael yn anodd darbwylllo'r sefydliadau sy'n bartneriaid i fuddsoddi mewn prosiectau, ac nid yw'r ffaith nad yw prosiectau'n cael eu gwerthuso, na'r cyd-destun lle ceir pwysau ariannol ehangach, wedi helpu'r sefyllfa. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr heriau y mae'r byrddau partneriaeth yn eu hwynebu o ran prif-ffrydio, ond nid yw wedi darparu unrhyw ganllawiau manwl o'r blaen. Mae canllawiau 2019-20 bellach yn nodi'n glir bod disgwyl i'r cynlluniau buddsoddi refereniw gynnwys strategaethau ymadael ar gyfer pob prosiect. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol darparu cymorth ymarferol pellach, gan adeiladu ar y digwyddiad dysgu ar y cyd a gynhelir bob blwyddyn.

Argymhellion

- 21 Bwriedir i'n hargymhellion gynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella'r trefniadau i reoli'r gronfa. Fodd bynnag, gallant hefyd fod yn berthnasol i ffrydiau ariannu eraill Llywodraeth Cymru, fel Cronfa Trawsnewid y GIG⁶. Rydym hefyd yn credu bod ein hargymhellion yn adroddiad 2015 am annibyniaeth pobl hŷn yn dal i fod yn berthnasol (**Atodiad 6**). Yn ein hadborth i'r byrddau partneriaeth am y trefniadau rhanbarthol, pennwyd meysydd i'w gwella sy'n berthnasol i ranbarthau unigol er mwyn mynd i'r afael â materion lleol.

Argymhellion

Canllawiau a phenderfyniadau prydlon

A1 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gadw llygad i weld a yw cyhoeddi ei chanllawiau'n gynharach wedi lliniaru'r problemau sydd wedi codi mewn blynyddoedd blaenorol o ran prydlondeb penderfyniadau ynghylch ariannu prosiectau; ac
 - ystyried a all wneud unrhyw welliannau eraill i'r broses.
-

Cronfeydd tymor byr lluosog ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a thai

A2 Gan adeiladu ar waith mapio blaenorol, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r holl ffrydiau ariannu tymor byr sydd ar gael ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a thai, ynghyd â'r meini prawf perthnasol, a lle bo'n ymarferol, dylai gyflwyno newidiadau priodol er mwyn:

- lleihau dyblygu;
 - sicrhau bod amcanion y ffrydiau ariannu'n cydweddu â'i gilydd a bod y dyraniadau cyfun ar gyfer grwpiau penodol o bobl yn cydweddu ag anghenion y boblogaeth leol, yn ogystal â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru; a
 - sicrhau bod y sefydliadau rhanbarthol sy'n bartneriaid, lle bo'n berthnasol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn gallu mynd ati i ddefnyddio'r ffrydiau ariannu sydd ar gael iddynt ar y cyd.
-

6 Rhaid defnyddio Cronfa Trawsnewid GIG 2018-20 a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn **Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, Mehefin 2018.

Argymhellion

Trefniadau y bwrdd prosiect

- A3 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gryfhau trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach drwy adolygu aelodaeth y bwrdd prosiect i gynnwys cynrychiolaeth o'r tu allan i'r adrannau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa, a hynny i roi rhywfaint o her annibynnol.
-

Trefniadau craffu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

- A4 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â chyrrff y GIG a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i graffu ar y penderfyniadau y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu gwneud ar ran y cyrrff hynny.
-

Monitro prosiectau

- A5 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn:
- cytuno ar y mesurau canlyniadau allweddol y disgwylir iddynt gael eu bodloni, a'u monitro, ar gyfer y gwahanol grwpiau targed sy'n cael arian o'r gronfa. Lle bo modd, dylai'r mesurau hyn gydweithio â'r mesurau canlyniadau ehangach a bennir yn y fframweithiau canlyniadau cenedlaethol sydd eisoes ar waith;
 - egluro sut y caiff yr wybodaeth a gesglir ei defnyddio'n ganolog; a
 - symleiddio gofynion adrodd prosiectau refeniw a phrosiectau cyfalaf lle bo'n ymarferol gwneud hynny.
-

Dysgu ar y cyd a phrif-ffrydio prosiectau

- A6 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth ar gyfer cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ganolbwyntio'n benodol ar:
- dulliau o reoli'r gronfa yng nghyd-destun y dulliau amrywiol a nodir yn yr adroddiad hwn; a
 - goresgyn yr heriau rhag prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus.
-

Rhan 1

Mae'r gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau



Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu'r gronfa

- 1.1 Mae fforymau partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser. Yn 2003, gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus allweddol gydweithio i lunio strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant ar gyfer eu hardal⁷, gan nodi sut y byddent yn diwallu anghenion eu poblogaethau lleol. I hybu'r agenda hon, sefydlodd y cyrff cyhoeddus fforymau partneriaeth (neu grwpiau llywio) ar draws y gwahanol ardaloedd. Fe'u sefydlwyd ar ôl troed y 22 awdurdod lleol, gan gydweithio â'r 13 ymddiriedolaeth GIG a'r 22 bwrdd iechyd lleol oedd yn bodoli ar y pryd. Ar ôl ad-drefnu'r GIG yn 2009, dechreuodd y fforymau partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig uno, gan greu saith fforwm partneriaeth. Gosododd y rhain sylfaen ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n bodoli heddiw.
- 1.2 Nid oedd i'r fforymau partneriaeth blaenorol unrhyw sail statudol. Yr unig beth yr oedd yn rhaid i'r cyrff partneriaeth ei wneud oedd paratoi strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant lleol. Bu'r partneriaethau'n pwysu a mesur y posibilrwydd o gronni arian i ddatblygu gwasanaethau integredig i'w helpu i roi eu strategaethau lleol ar waith. Fodd bynnag, dim ond llond dwrn o gytundebau Adran 33⁸ neu swyddi neu wasanaethau wedi'u hariannu ar y cyd oedd yn bodoli cyn cyflwyno'r gronfa yn 2014. Parodrwyd y cyrff cyhoeddus allweddol i ryddhau arian ar gyfer trefniadau ar y cyd oedd un o'r prif rwystrau.

7 Llywodraeth Cynulliad Cymru, **Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Canllawiau Polisi**, Chwefror 2003.


8 Mae Adran 33 o **Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006** yn caniatáu i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ymrwmo i gytundebau. Gall hyn gynnwys sefydlu a chynnal cronfa sy'n cynnwys cyfraniadau gan un neu ragor o gyrff y GIG, ac un neu ragor o awdurdodau lleol, a hynny i ddarparu gwasanaeth neu i gyflawni swyddogaeth.

Mae'r gronfa wedi ysgogi partneriaid rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisïau a deddfwriaeth ehangach

- 1.3 Pan gyflwynwyd y gronfa yn 2014, roedd yn gyfle newydd i'r fforymau partneriaeth ddatblygu gwasanaethau integredig a dechrau meithrin parodrwydd cyrff cyhoeddus i ymrwymo i gydweithio, sef un o brif nodau'r gronfa pan gafodd ei sefydlu. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol erbyn mis Ebrill 2016, gan bwysleisio'r angen i'r partneriaethau integreiddio mwy o wasanaethau. Yn unol â'r Ddeddf honno, roedd hefyd yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun erbyn mis Ebrill 2016. Mae'r rhain bellach ar waith ar draws y saith bwrdd partneriaeth ac maent yn canolbwyntio ar feysydd fel Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol. Mae cronfeydd cyfun hefyd ar waith ers mis Ebrill 2018 i gomisiynu darpariaeth cartrefi gofal i oedolion.
- 1.4 Yn ystod ein gwaith, pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod y trefniadau partneriaeth wedi aeddfedu o ganlyniad i'r gronfa a bod hyn wedi gosod sylfaen gadarn i roi trefniadau ariannu cyfun ar waith. Adleisiwyd hyn yn y Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Cymru Iachach**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. Mae'r cynllun yn cyfeirio'n gadarnhaol at y ffordd y mae partneriaethau ac, yn fwy penodol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, wedi creu modelau gofal integredig gan ddefnyddio'r gronfa.
- 1.5 Mae nifer o'r prosiectau a ariannwyd wedi cael cymorth o ffynonellau ariannu eraill hefyd, gan ddangos ymrwymiad y sefydliadau sy'n bartneriaid i sicrhau bod prosiectau'n llwyddo, ond nid yw enghreifftiau o'r fath yn gyffredin. Mae hyn wedi cynnwys cyllid craidd neu arian a ddarparwyd i sefydliadau unigol drwy ddyraniadau refeniw eraill Llywodraeth Cymru fel arian 'pwysau'r gaeaf' y GIG.
- 1.6 Pwysleisiodd y rheini y bu inni gwrdd â nhw ar lefel ranbarthol ac ar lefel prosiectau fod y gronfa wedi eu hysgogi i wella partneriaethau a gwaith ar y cyd. Dywedodd llawer o unigolion fod mwy o ymrwymiad i waith partneriaeth ers creu'r gronfa. Yn bwysig, bu iddynt ddweud hefyd fod mwy o ffocws ar wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.


1.7 Fel rhan o'n harolygon ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau, gofynnwyd cwestiwn am effaith y gronfa ar waith partneriaeth. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law ynghylch yr effaith yr oedd y gronfa wedi'i chael o ran cryfhau gwaith partneriaeth yn cadarnhau bod y farn yn gadarnhaol ar y cyfan (Arddangosion 3 a 4).

Arddangosyn 3: canran y bobl a holwyd a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y Gronfa Gofal Integredig yn helpu i annog partneriaid allweddol i weithio mewn ffordd integredig.



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr prosiectau.

Arddangosyn 4: sylwadau rhai o'r rheini a atebodd ein harolwg



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr prosiectau.

Rhan 2

Mae agweddau ar y ffordd y cafodd arian ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan bartneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y gronfa hyd yma



Mae disgwyliadau newidiol Llywodraeth Cymru, problemau o ran prydlondeb y prosesau dyrannu arian, a'r gorwelion byrdymor wedi llesteirio gwaith cyflawni rhanbarthol

Gan fod cwmpas y gronfa wedi newid ac ehangu, mae wedi creu heriau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau blynyddol ar gyfer elfennau refeniw a chyfalaf y gronfa. Ers cyflwyno'r gronfa yn 2014-15, mae'r meini prawf y mae angen i'r partneriaid rhanbarthol eu bodloni wedi newid bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym fod rhai o'r newidiadau hyn yn seiliedig ar adborth gan sefydliadau sy'n bartneriaid ac iddynt gael eu hategu gan gynnydd yng nghyfanswm y cyllid.
- 2.2 Pan gyflwynwyd y gronfa yn 2014-15, roedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl hŷn, yn enwedig pobl eiddil oedrannus, am flwyddyn. Roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu iddi gael ei defnyddio i greu gwasanaethau newydd, arloesol ac integredig a fyddai'n helpu i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau'r cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn sgil adborth cadarnhaol gan y partneriaid rhanbarthol, cytunodd Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu arian refeniw yn 2015-16. Roedd yn bwriadu i'r arian gael ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiectau hynny a oedd yn cysylltu gofal y GIG tu allan i'r ysbyty⁹ a gofal cymdeithasol yn effeithiol. Tua diwedd 2015-16, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r gronfa ar gael ar gyfer prosiectau newydd ym mlwyddyn ariannol 2016-17.

9 Darperir y gofal hwn tu allan i'r ysbytai mawr, a hynny fel arfer gan wasanaethau sylfaenol a chymunedol fel meddygon teulu a nyrsys ardal.

- 2.3 Yn ystod 2016-17, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r gronfa bob blwyddyn tan 2021. Ehangwyd ei ffocws i ddarparu cymorth i grwpiau penodol eraill yn y boblogaeth: plant ag anghenion cymhleth, a phlant ac oedolion ag anableddau dysgu. Cadwodd Llywodraeth Cymru hefyd ran o'r gronfa i gefnogi camau i ddatblygu ac i weithredu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a oruchwylir drwy drefniadau cenedlaethol. Roedd angen i'r prosiectau refeniw yn y grwpiau poblogaeth newydd hefyd ganolbwyntio ar ailalluogi¹⁰, gan leihau gofal hirdymor a'r ddibyniaeth ar wasanaethau tu allan i Gymru. Newidiodd ffocws y cronfeydd cyfalaf hefyd o addasiadau tai ar raddfa fach er mwyn cefnogi byw'n annibynnol i addasiadau mwy o faint a phrosiectau i ddatblygu cynlluniau ailalluogi a chamu i lawr¹¹. Darparodd Llywodraeth Cymru gronfa ar wahân ar gyfer yr addasiadau tai a gefnogwyd yn flaenorol drwy'r gronfa hon¹².
- 2.4 Yn 2017-18, ailenwyd y Gronfa Gofal Canolraddol yn Gronfa Gofal Integredig. Roedd yr enw newydd yn adlewyrchu ffocws a chwmpas ehangach y gronfa fel modd o gynorthwyo'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Symudodd y ffocws ar bobl hŷn at y rheini ag anghenion hirdymor neu gymhleth, gan gynnwys dementia. Ehangwyd y gronfa hefyd i gynnwys gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Cadwodd Llywodraeth Cymru ran o'r gronfa i gefnogi'r broses o gyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
- 2.5 Yn 2019-20, ehangwyd y gronfa i gynnwys plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal, plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi'u mabwysiadu. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £15 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer y grŵp hwn fel rhan o gynnydd cyffredinol o £30 miliwn i'r arian refeniw (**Arddangosyn 1**). Mae **Arddangosyn 5** yn dangos y grwpiau blaenoriaeth a gafodd arian o'r gronfa rhwng 2014-15 a 2019-20.

10 Diffinnir ailalluogi fel gofal tymor byr a ddarperir yn y cartref, fel rheol, i gynorthwyo unigolion i wella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

11 Mae cynlluniau camu i lawr yn darparu cymorth dwysedd isel i gleifion sy'n feddygol iach ac nad oes angen iddynt gael gofal ar ward ysbyty aciwt mwyach, ond nad ydynt yn gallu mynd adref eto. Fel arfer, mae'r cynlluniau'n darparu gofal tymor byr mewn ysbytai cymunedol neu gartrefi gofal.

12 O fis Ebrill 2016, darparodd Llywodraeth Cymru £4 miliwn ar gyfer cynllun addasiadau uwch, 'Hwyluso - Cymorth i Fyw'n Annibynnol'. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad **am Addasiadau Tai**.

Arddangosyn 5: grwpiau blaenoriaeth a phrosiectau a gafodd arian o'r gronfa rhwng 2014-15 a 2019-20

2014-15
2015-16



Pobl hŷn ag anghenion cymhleth

2016-17



Pobl hŷn ag anghenion cymhleth



Plant ac oedolion ag anableddau dysgu



Plant ag anghenion cymhleth



Gwasanaeth awtistiaeth integredig

2017-18
2018-19



Pobl hŷn ag anghenion cymhleth



Gwasanaeth awtistiaeth integredig



Plant ag anghenion cymhleth



System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru



Plant ac oedolion ag anableddau dysgu



Gofalwyr

2019-20



Pobl hŷn ag anghenion cymhleth



Gwasanaeth awtistiaeth integredig



Plant ag anghenion cymhleth



System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru



Plant ac oedolion ag anableddau dysgu



Gofalwyr



Plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal, mewn gofal ac wedi'u mabwysiadu

Nodyn: mae cyfanswm gwerth y gronfa – refeniw a chyfalaf – wedi cynyddu o £50 miliwn yn 2014-15 i £115 miliwn yn 2019-20 (Arddangosyn 1).


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

- 2.6 Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi croesawu'r newidiadau i'r gronfa a'r grwpiau poblogaeth ychwanegol. Fodd bynnag, bu inni nodi bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi teimlo, dros gyfnod, bod meini prawf y gronfa'n datblygu i fod yn rhy rhagnodol. Dywedodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu bod yn ei chael yn anodd pennu a chymeradwyo prosiectau refeniw sy'n dal i fodloni'r ystod o feini prawf, yn enwedig ar gyfer grwpiau poblogaeth a gynorthwyir ers peth amser.
- 2.7 Mae newidiadau i ofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn her hefyd. Yn sgil y newidiadau, bu'n rhaid i bartneriaid rhanbarthol newid eu trefniadau adrodd ar gyfer prosiectau sydd wedi para mwy na blwyddyn. Maent hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i gymharu'r prosiectau hyn o flwyddyn i flwyddyn.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu gwybodaeth yn gynnar, mae'r ffaith iddi fod yn hwyr yn cyhoeddi canllawiau ac yn rhoi gwybod am ddyraniadau yn y gorffennol wedi creu anawsterau o ran cynllunio rhanbarthol

- 2.8 Cyfeiriwyd yn gyson at brydlondeb canllawiau refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru, a'r dyraniadau dilynol, fel mater a oedd yn effeithio ar allu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio ac i reoli'r gronfa'n effeithiol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ar gyfer 2014-15 ym mis Ionawr 2014. Fodd bynnag, ni chafodd canllawiau 2015-16 i 2018-19 eu cyhoeddi tan ddechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, neu rai misoedd ar ôl iddi gychwyn (**Arddangosyn 6**). Effeithiodd hyn ar brydlondeb cyflwyno cynlluniau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y prosesau cymeradwyo, a'r broses o ryddhau arian. Ac eithrio 2014-15, ni chytunwyd ar gyllid cyfalaf tan drydydd chwarter neu, mewn un achos, bedwerydd chwarter y flwyddyn ariannol, a hynny er bod rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wario'r arian erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gyhoeddi canllawiau 2019-20 yn fwy prydlon (**paragraffau 2.24 i 2.29**).

Arddangosyn 6: amserlen cyhoeddi canllawiau a dyraniadau, a chymeradwyo arian, 2014-15 i 2018-19



Nodiadau:

1. Yn 2015-16, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr yn hytrach na chanllawiau ffurfiol. Gwnaeth hyn oherwydd bod y gronfa'n cael ei defnyddio i estyn prosiectau llwyddiannus am flwyddyn arall neu i estyn prosiectau arfer da ar draws Cymru. Y cyfan yr oedd rhaid i'r arweinwyr rhanbarthol ei wneud oedd hysbysu Llywodraeth Cymru os oedd eu rhaglen wedi newid yn sylweddol. Nid oedd unrhyw arian cyfalaf ar gael yn 2015-16.
2. Yn 2016-17, cadwodd Llywodraeth Cymru £15 miliwn o'r gronfa referniw yn ôl, gan roi gwybod i'r byrddau partneriaeth y byddai gweddiill y gronfa'n cael ei defnyddio i gefnogi gwasanaethau ataliol ar draws y gwahanol grwpiau poblogaeth. Yna, dosbarthwyd cyfanswm o £13 miliwn i'r rhanbarthau ym mis Medi 2016, ac fe gadwodd Llywodraeth Cymru y £2 filiwn oedd yn weddiill.
3. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r ceisiadau referniw. Y byrddau partneriaeth sy'n gwneud hyn. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru'n ei bodloni ei hun fod y cynlluniau buddsoddi referniw a baratoir gan y byrddau partneriaeth yn bodloni meini prawf y gronfa ac yn gwneud defnydd llwyr o'r dyraniadau sydd ar gael.
4. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd modd iddi gyhoeddi canllawiau ar y cyd ar gyfer 2018-19 oherwydd amseriad adolygiad mewnol o raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a arweiniodd at gyflwyno dyraniad cyfalaf tair blynedd (paragraff 2.24).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau, dyraniadau a llythyrau cadarnhau Llywodraeth Cymru.

- 2.9 Cyn cyhoeddi canllawiau ffurfiol, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi amcan cynnar ar lafar i'r arweinwyr rhanbarthol o'r dyraniadau disgwylidig ac unrhyw newidiadau arfaethedig o ran defnyddio'r gronfa er mwyn iddynt ddechrau cynllunio. Fodd bynnag, dywedodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym iddynt fod yn gyndyn o gynllunio eu defnydd o'r gronfa ar raddfa fawr cyn cael hysbysiadau ffurfiol gan fod y disgwyliadau wedi bod yn newid hyd yma. Cafodd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd amcan cynnar o'u cyllid, ond fe'i newidiwyd yn ddiweddarach.
- 2.10 Mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno cylch cynllunio cynharach ar sail eu dyraniadau dangosol. Serch hynny, mae'r ansicrwydd hwn a'r problemau amseru wedi effeithio ar barodrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u gallu i gynllunio rhaglen waith flynyddol sy'n gwneud y defnydd gorau o'u dyraniad blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r ansicrwydd o ran y grwpiau poblogaeth drwy nodi yng nghanllawiau 2017-18 y bydd y meysydd blaenoriaeth yn aros yr un fath dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r meysydd blaenoriaeth wedi newid gan fod y gronfa wedi'i hestyn yn 2019-20 i gynnwys plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal, sydd mewn gofal neu sydd wedi'u mabwysiadu.
- 2.11 Yn 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru hefyd gronfa ar wahân yn benodol ar gyfer dementia a weinyddwyd drwy broses a chanllawiau'r Gronfa Gofal Integredig. Roedd y gronfa ar wahân i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 yn cyfrif am £5 miliwn ychwanegol a ddarparwyd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod y canllawiau blynyddol yn cyfeirio at y gronfa, nid oedd canllawiau manwl ar gael ynghylch defnyddio'r arian dementia tan fis Medi 2018. Roedd y canllawiau hynny'n dangos nad oedd modd trosglwyddo'r prosiectau dementia a gefnogwyd eisoes drwy'r gronfa i ddefnyddio'r arian dementia newydd. Pe baent wedi gwybod am y cyfyngiadau hyn, dywedodd llawer o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y byddent wedi oedi cyn cyflwyno prosiectau dementia fel rhan o'u cynlluniau buddsoddi refeniw cyffredinol a chanolbwyntio yn lle hynny ar brosiectau ar gyfer grwpiau eraill ag anghenion cymhleth.
- 2.12 Mae canllawiau'r gronfa'n dal i annog prosiectau sy'n cyfuno arian refeniw a chyfalaf¹³. Fodd bynnag, hyd yn oed pan gyhoeddwyd y canllawiau a'r dyraniadau yr un pryd, mae'r ffaith bod gofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo ceisiadau cyfalaf wedi creu bwlch sylweddol rhwng llinell amser y ddwy ffrwd ariannu. Oherwydd y materion hyn, collwyd cyfleoedd i wneud y defnydd mwyaf strategol o'r cynllun, ac ychydig iawn o'r prosiectau sy'n defnyddio'r ddwy ffrwd.


13 Mae canllawiau 2018-19 yn dweud y gellir defnyddio'r gronfa drwy wario arian refeniw i gefnogi prosiectau cyfalaf, er enghraifft, drwy staffio adeilad newydd.

Nid yw natur flynyddol y gronfa yn ystod ei blynyddoedd cynnar wedi hybu cynllunio strategol na defnydd effeithiol o'r gronfa

- 2.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir bod rhaid defnyddio'r arian a ddyrannwyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Mae llawer o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynegi eu rhwystredigaeth â natur flynyddol, tymor byr y gronfa, gan ddweud bod hyn wedi peri iddynt gynllunio a chyflawni ar sail tymor byr a chyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n fwy strategol dros gyfnod hirach. Yn ymarferol, mae hyn wedi arwain at gynnig llawer o brosiectau ar y sail bod modd eu cychwyn a'u cwblhau'n gyflym, yn hytrach na phrosiectau a allai gael mwy o effaith dros gyfnod hirach.
- 2.14 Yn ei chanllawiau blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir y dylid defnyddio'r gronfa i ysgogi prosiectau newydd ac arloesol, gan gynnwys ailfodelu neu uwchraddio prosiectau a ariannwyd o'r blaen. Fodd bynnag, mae hefyd wedi dweud yn ei chanllawiau y dylai prosiectau fod yn gynaliadwy tu hwnt i flwyddyn yr arian, gyda disgwyliad na ddylai prosiectau bara mwy na blwyddyn.
- 2.15 Gan fod y dyraniadau a'r canllawiau wedi'u cyhoeddi'n hwyr fel y nodir ym [mharagraffau 2.8 i 2.10](#), nid yw'r partneriaid rhanbarthol yn aml wedi gallu sefydlu prosiectau'n brydlon a chaniatáu iddynt weithredu am ddigon o amser i ddangos eu heffaith. O'r herwydd, dros y cyfnod ers cyflwyno'r gronfa, caniatwyd, yn ymarferol, i lawer o brosiectau gael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- 2.16 Hyd yn oed o benderfynu dwyn prosiectau ymlaen, gall fod rhaid atal ac ailgychwyn prosiectau gan fod angen ailgyflwyno prosiectau arfaethedig ac aros am gadarnhad bod cyllid ar gael. Bu modd i gyrff cyhoeddus oresgyn yr her hon drwy ganiatáu i rai prosiectau fwrw ymlaen neu gychwyn 'ar sail risg' tra maent yn aros i gael eu cymeradwyo ac i'r arian gael ei ryddhau. Yn gyffredinol, nid oes gan gyrff y trydydd sector ddigon o adnoddau i barhau i gynnal prosiectau 'ar sail risg' tra maent yn aros i'r cyllid gael ei gadarnhau.

- 2.17 Hyd yn oed ar ôl eu cymeradwyo, gall nifer o faterion ymarferol beri oedi cyn cychwyn prosiectau o fewn blwyddyn, gan gynnwys:
- a **recriwtio:** gall y prosesau hyn gymryd cryn amser, tri neu bedwar mis yn aml, ac mae rhai sefydliadau'n gyndyn o gychwyn prosesau recriwtio hyd nes i Lywodraeth Cymru ryddhau'r arian.
 - b **gallu a sgiliau:** mae sefydliadau arweiniol prosiectau'n ei chael yn anodd denu ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi sy'n para am gyfnod penodol o flwyddyn, ac yn aml gall fod angen iddynt hysbysebu swydd sawl gwaith cyn penodi ymgeisydd llwyddiannus. Mae hefyd yn anodd cadw staff oherwydd natur fyrhoedlog yr arian. Mae hyn yn peri i staff prosiect newid yn aml o flwyddyn i flwyddyn.
 - c **caffael:** rhaid i lawer o brosiectau cyfalaf gwblhau prosesau caffael sy'n gallu cymryd cryn amser.
- 2.18 Oherwydd bod oedi'n rhan annatod o'r broses ariannu, nid yw llawer o brosiectau refeniw'n cychwyn neu'n ailgychwyn tan ail neu drydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Mae proffil y gwariant yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu hyn, gyda chyfran sylweddol o'r gronfa refeniw'n cael ei gwario yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.
- 2.19 Mae **Arddangosyn 7** yn dangos proffil gwariant refeniw a chyfalaf 2016-17 a 2017-18. Mae proffil y gwariant cyfalaf wedi bod yn sylweddol waeth na phroffil y gwariant refeniw, a hynny i raddau helaeth oherwydd bod ceisiadau cyfalaf blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18 wedi'u cymeradwyo'n hwyr.

Arddangosyn 7: canran y gronfa refeniw a chyfalaf a wariwyd fesul chwarter yn 2016-17 a 2017-18



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

2.20 Mae'r oedi cyn cychwyn prosiectau wedi arwain at danwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir na ellir trosglwyddo arian i'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn hytrach, gall y byrddau iechyd gadw unrhyw arian refeniw sydd dros ben ar ddiwedd y flwyddyn, er na fwriedir mai hon yw'r sefyllfa ddiodyn. Ym mlynnyddoedd cynnar y gronfa, rydym yn gwybod bod rhai byrddau iechyd wedi cadw symiau o arian dros ben yr oedd modd iddynt eu defnyddio tuag at eu sefyllfa elw a cholled a bod hyn wedi creu tensiwn rhyngddynt a'r partneriaethau ar y pryd.

2.21 Ers hynny, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu dulliau amrywiol o reoli tanwariant. Mae'r broses fwyaf datblygedig ar waith yn y Gorllewin lle cedwir rhestr wrth gefn o brosiectau y gellir eu cefnogi os oes arian dros ben. Mewn ardaloedd eraill, defnyddiwyd y gronfa ar gyfer prosiectau tymor byr y gellir eu cychwyn a'u cwblhau'n gyflym. Rydym hefyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno, yn 2017-18, y câi rhanbarth Cwm Taf ddwyn swm bach o arian ymlaen i'w ddefnyddio yn 2018-19.

- 2.22 Mae rheoli tanwariant yn effeithiol yn dal i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, dylai hyn ddechrau gwella yn 2019-20 ar ôl i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol amlinellu eu prosesau i leihau tanwariant yn eu cynlluniau buddsoddi refeniw.
- 2.23 Mae tanwariant wedi bod yn fwy o broblem o ran y cronfeydd cyfalaf. Oherwydd yr oedi cyn derbyn arian, ynghyd â'r amser y gall ei gymryd i gynnal prosesau caffael, ni chafodd llawer o'r gronfa gyfalaf ei wario yn ôl y bwriad. Yn hytrach, defnyddiwyd yr arian ar gyfer gwariant untro i brynu cyfarpar neu fe'i dychwelwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â natur flynyddol y gronfa a bu iddi gyhoeddi canllawiau 2019-20 yn fwy prydlon

- 2.24 O ran 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru ddyraniad tair blynedd ar gyfer elfen gyfalaf y gronfa ac fe gyflwynodd newidiadau i rannu'r ffrwd yn ddwy ran:
- a 25% o'r cyfanswm i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau cyfalaf bach sy'n para blwyddyn, gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn penderfynu sut i'w ddefnyddio; a
 - b 75% o'r cyfanswm i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau trawsnewidiol hirdymor hyd at 2021 i'w cymeradwyo gan banel Llywodraeth Cymru.
- 2.25 Roedd aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru'n teimlo bod hwn yn newid calonogol, ac mae rhai ohonynt wedi dechrau paratoi cynlluniau cyfalaf rhanbarthol tair blynedd i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r gronfa. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2018, roedd prosiectau cyfalaf rhai o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i fod heb eu cymeradwyo.
- 2.26 Er iddi ddweud y byddai modd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu sut i wario 25% o'r gronfa cyfalaf, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion hyn drwy ei phanel cyfalaf cyn bod modd iddynt gychwyn. O'r herwydd, nid oedd modd rhoi nifer o brosiectau ar waith yn ystod 2018-19 oherwydd nad oedd digon o amser yn weddill ac fe'u hailgyflwynwyd yn 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses hon fod wedi gwella yn 2019-20.


- 2.27 Ar ôl iddi ystyried ein hadborth cychwynnol, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddarparu dyraniadau refeniw dangosol cynnar ar gyfer 2019-20 ym mis Rhagfyr 2018 ac i gyhoeddi canllawiau 2019-20 ym mis Chwefror 2019 ar gyfer y ffrydiau refeniw a chyfalaf. Yn ogystal â lleddfu'r problemau o ran prydlondeb, mae hyn hefyd wedi helpu i sicrhau cysondeb o ran y negeseuon llafar ac ysgrifenedig sydd wedi peri dryswch o ran y dyraniadau yn y gorffennol.
- 2.28 Yn 2019-20, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol allu cynllunio sut i ddefnyddio'r arian refeniw ar sail fwy hirdymor hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol amlinellu'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud dros gyfnod o ddwy flynedd. O ran canllawiau 2019-20, ceir mwy o gyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynddynt, ond rydym yn cydnabod bod nod cyffredinol y gronfa eisoes yn cydweddu'n agos â'r pum ffordd o weithio¹⁴ a nodir yn y Ddeddf.
- 2.29 O gyhoeddi'r canllawiau ar gyfer yr arian refeniw a chyfalaf yn gynharach, bydd yn helpu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau a fynegwyd gan aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arian refeniw a chyfalaf yn craffu ar gyllid 2019-20 ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd prosiectau'n cael eu cymeradwyo'n gynharach yn ystod y flwyddyn ariannol, ac erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019 fan bellaf. Fodd bynnag, mae'r gallu i gymeradwyo prosiectau'n brydlon yn dibynnu ar pa bryd y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf ac mae hyn wedi cymryd yn hirach nag yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl.

14 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn nodi'r pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf. Hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal yw'r pum ffordd o weithio.

Gall y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed

2.30 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynnal asesiad o'r boblogaeth i bennu anghenion pobl y rhanbarth ac i baratoi cynllun ardal i fynd i'r afael â'r anghenion a bennwyd. Ers 2017-18, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid i bob prosiect a gynorthwyr gan y gronfa roi sylw i'r anghenion gofal a chymorth a bennir mewn asesiadau lleol a chynlluniau ardal. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos sut y bu i Lywodraeth Cymru ddyrannu arian refeniw 2018-19.

Arddangosyn 8: cyfran arian refeniw 2018-19 a ddyrannwyd i wahanol grwpiau poblogaeth




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

- 2.31 Dywedodd rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod y dull hwn o ddyrannu symiau penodol o'r gronfa'n creu tensiwn o ran taro cydbwysedd rhwng defnyddio'r gronfa ar gyfer y grwpiau targed penodedig a'r anghenion a bennir yn eu hasesiadau poblogaeth. Mae'r tensiwn hwn yn dwysáu ymhellach pan ystyrir ffrydiau ariannu eraill Llywodraeth Cymru y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol amdanynt sydd hefyd wedi'u clustnodi ar gyfer grwpiau penodol o bobl. Un enghraifft yw cyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a amlinellir ym **mharagraff 2.11**.
- 2.32 Gan fod ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio meini prawf gwahanol, mae'n anodd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r cronfeydd sydd ar gael iddynt ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Yn hytrach, rhaid iddynt gyflwyno a chefnogi prosiectau ar wahân ar gyfer pob cronfa. O'r herwydd, mae llawer o'r partneriaid rhanbarthol yn teimlo y gall fod perygl fod swm anghymesur o arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol. Maent yn teimlo bod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i flaenoriaethu arian ar sail angen. Er enghraifft, wrth ymateb i'n harolwg, dywedodd rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym:
- 'mae'r ffordd y mae'r gronfa wedi'i strwythuro'n golygu y gall fod yn anodd paru'r arian â'r hyn y mae angen inni ei wneud ar gyfer ein poblogaeth leol'; a
 - 'gall yr arfer o glustnodi fod yn rhwystr oherwydd gall beri i'r bartneriaeth ymrwymo'n ormodol i faes nad yw'n flaenoriaeth fawr'.

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio eu dyraniadau mewn ffyrdd gwahanol ac nid yw pob un o'r rhain wedi cefnogi ffocws rhanbarthol

- 2.33 Er bod Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r gronfa ar sail ranbarthol, mater i bob bwrdd partneriaeth yw cytuno, drwy ei gynllun buddsoddi refeniw, sut i ddefnyddio'r gronfa. Mae'r ffordd y mae'r gronfa'n cael ei defnyddio'n amrywio o ranbarth i ranbarth, ac mae'r camau i rannu'r dulliau a ddefnyddir ledled Cymru ac i ddysgu ohonynt yn gyfyngedig (**Arddangosyn 9**).

Arddangosyn 9: dulliau o ddyrannu'r arian rhwng 2014 a 2018 ar draws y byrddau partneriaeth



Nodiadau:

1. Yn y Gogledd, dyrennir y rhan fwyaf o'r gronfa ar draws ardaloedd llai o faint, fel Ynys Môn a Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, a Sir y Fflint a Wrecsam.
2. Cyn 2017-18, roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn brigdorri elfen o'r gronfa i gefnogi costau cyfathrebu ac ymgysylltu.
3. Yn y Gorllewin, dyrennir y rhan fwyaf o'r gronfa i ardaloedd y tri awdurdod lleol, ond cedwir cyfran fach o'r arian ar lefel ranbarthol i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau rhanbarthol y cytunwyd arnynt.

Ffynhonnell: Gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru.

- 2.34 Mae pump o'r saith bwrdd partneriaeth yn ceisio dyrannu'r arian ar sail ranbarthol, ac eithrio'r Gogledd a'r Gorllewin. Mae'r ddau fwrdd hyn yn dyrannu'r arian i lefel is, naill ai i lefel awdurdod lleol unigol neu ar draws mwy nag un awdurdod lleol ond nid y rhanbarth cyfan. Mae hyn yn gwanhau'r ffocws arfaethedig ar gyflawni rhanbarthol ac mae wedi creu rhai tensiynau rhwng ardaloedd o ran tegwch y dyraniadau o fewn y rhanbarth. Dangosodd ein harolwg ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod y farn o'r Gorllewin a'r Gogledd yn llai positif o ran a yw'r broses a ddefnyddir i ddyrannu'r gronfa'n deg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei dyhead iddynt ddefnyddio dulliau rhanbarthol yng nghanllawiau 2019-20 ac fel rhan o'i gwaith i graffu ar gynlluniau buddsoddi. Er bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio eu dyraniadau mewn gwahanol ffyrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn gwneud defnydd cynyddol o ddulliau rhanbarthol, ond bod angen gwneud mwy o gynnydd mewn rhai ardaloedd.
- 2.35 Mae pedwar bwrdd partneriaeth wedi defnyddio rhywfaint o'r gronfa'n gyson i gefnogi'r gwaith o reoli, goruchwyllo a chydgysylltu'r gronfa ar lefel ranbarthol. Mae'r symiau a gafodd eu 'brigdorri' yn ystod 2018-19 yn amrywio o £60,000 (1%) yn rhanbarth Gwent i £400,000 (8%) yn rhanbarth y Gorllewin. Yn aml, defnyddir y swm a frigidorrir i gyfrannu tuag at ariannu swydd benodol ac, yn y Gorllewin, fe'i defnyddir i reoli rhaglen o flaenoriaethau a bennwyd gan y bwrdd partneriaeth. Er bod hon yn gallu bod yn ffordd dda o ddefnyddio'r gronfa ar lefel leol, mae'n lleihau'r swm a fyddai ar gael, fel arall, ar gyfer prosiectau. Mae pob bwrdd partneriaeth arall wedi ariannu'r gwaith cydgysylltu drwy ffrwd ariannu wahanol neu drwy gyllid craidd.
- 2.36 Mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ariannu nifer fawr o brosiectau cymedrol eu cost. Po fwyaf o brosiectau sydd ar gael, po fwyaf yw'r gofynion goruchwyllo a chydgysylltu. Mae **Atodiad 4** yn nodi maint a nifer y prosiectau fesul rhanbarth ers 2014, ac mae'n dangos bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro wedi canolbwyntio ar ariannu llai o brosiectau mwy o faint a bod bwrdd partneriaeth y Gogledd wedi ariannu mwy o brosiectau llai o faint.

- 2.37 Mae pedwar o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi mabwysiadu 'dull comisiynu' i ddatblygu rhaglen waith y gronfa. I bob pwrpas, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn comisiynu eu his-grwpiau sy'n gyfrifol am grwpiau poblogaeth amrywiol i bennu gwaith yn y cynlluniau ardal a fyddai'n elwa o gael arian, a hynny er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau lleol. Mae'r dull comisiynu'n helpu i baru'r defnydd o'r gronfa â blaenoriaethau'r cynlluniau ardal, yn hytrach na gwahodd cynigion i ddefnyddio'r gronfa drwy wahoddiad agored a allai fod yn llai trefnus. Fodd bynnag, cafwyd rhai pryderon am gynrychiolaeth ar yr is-grwpiau hyn ac, o ganlyniad, am allu rhai partneriaid i ddylanwadu ar y broses benderfynu ([paragraff 3.16](#)).
- 2.38 Pan fydd cynigion yn dod i law, mae sawl bwrdd partneriaeth yn defnyddio dull sgorio strwythuredig i asesu pa gynigion y mae'r bwrdd am fwrw ymlaen â nhw a'u cynnwys yn ei gynllun buddsoddi refeniw neu ei gynllun cyfalaf. Mae'r dulliau sgorio hyn yn amrywio ychydig ond maent yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y graddau y mae'r prosiectau'n bodloni gofynion y gronfa ac yn cydweddu â'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r cynllun ardal. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill yn defnyddio dull llai haearnidd, gan ystyried yn bennaf a yw'r prosiectau'n bodloni meini prawf y gronfa.
- 2.39 Un o brif nodau'r gronfa yw hybu cydweithio rhwng cyrff statudol a sefydliadau'r trydydd sector. Cyfeiriodd cynrychiolwyr y trydydd sector a fu'n siarad â ni at ystod o heriau sydd wedi effeithio ar eu gallu i gael gafael ar arian o'r gronfa. I fynd i'r afael â hyn, mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi clustnodi rhywfaint o arian o'r gronfa i'r trydydd sector ei ddefnyddio, a hynny'n bennaf drwy ddefnyddio dull tebyg i grantiau. Mae hyn wedi gwella mynediad y trydydd sector at y gronfa, yn enwedig ar gyfer prosiectau bach, tymor byr. Serch hynny, mae'r trydydd sector yn dal i fod wedi'i ddatgysylltu o'r rhaglen ehangach lle gallai wneud cyfraniadau yr un mor ddilys at rai o'r prosiectau mwy.

Rhan 3

Mae angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwylio canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau



Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau llywodraethu'r gronfa, ond mae angen iddi wneud mwy i ystyried sut y mae ei gweithredoedd hithau'n effeithio ar bartneriaid rhanbarthol ac i integreiddio ffrydiau ariannu

- 3.1 Mae cyllideb y gronfa'n dod o ddwy ran o Lywodraeth Cymru ac, i'r perwyl hwnnw, mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'n cael ei rannu:
- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb polisi a llywodraethu o ran y ffrwd refeniw; a'r
 - Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros elfen gyfalaf y gronfa.
- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r camau i ddatblygu'r gronfa a'i rhoi ar waith drwy fwrdd prosiect ffurfiol. Cynrychiolwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai ac adfywio Llywodraeth Cymru yw aelodau'r bwrdd. Mae'r bwrdd prosiect yn cwrdd bob chwarter er mwyn:
- a adolygu cynnydd;
 - b monitro perfformiad, canlyniadau a gwariant pob bwrdd partneriaeth;
 - c lle bo'n briodol, egluro rheolaeth weinyddol y gronfa a cheisio cytuno arni;
 - ch sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu pennu ac yn cael sylw prydlon a rhagweithiol; a
 - d phennu cyfeiriad strategol y gronfa ar gyfer y dyfodol.
- 3.3 Er bod swyddogion yn teimlo bod yr arfer o weithio ar draws portffolios wedi gwella drwy'r trefniant hwn, roeddent yn cydnabod bod cadernid ac ansawdd y drafodaeth yn dioddef pan fydd unigolion allweddol yn absennol o gyfarfodydd y bwrdd prosiect. Dangosodd ein harsylwadau ni o fwrdd y prosiect fod cyfleoedd i roi mwy o her fewnol i'r newidiadau a wneir i'r gronfa a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar y partneriaid rhanbarthol. Er enghraifft, nid oedd yn ymddangos bod fawr ddim cydnabyddiaeth o effaith materion fel pa bryd y cyhoeddir canllawiau ([paragraffau 2.8 i 2.10](#)).
- 3.4 Ers ein gwaith maes, cafodd aelod staff ei secondio i Lywodraeth Cymru o fwrdd partneriaeth Powys i helpu i reoli'r gronfa. Mae hyn wedi sicrhau bod y bwrdd prosiect yn cael cipolwg gwerthfawr ar waith y byrddau partneriaeth ac mae Llywodraeth Cymru eisoes yn deall yn well effaith ei phrosesau a'i phenderfyniadau ar y partneriaid rhanbarthol.

- 3.5 Bu inni hefyd nodi nad yw'r wybodaeth a gyflwynir ar ffurflenni chwarterol y byrddau partneriaeth yn cael ei herio'n ddigonol. Er bod y bwrdd prosiect yn cael diweddariadau sy'n seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir gan y byrddau partneriaeth, bu inni sylwi nad yw'r adroddiadau hyn yn cael eu trafod yn helaeth.
- 3.6 Gallai'r gronfa orgyffwrdd â chronfeydd eraill Llywodraeth Cymru, fel y Gronfa Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, roedd ychydig o dystiolaeth bod y bwrdd prosiect yn ystyried y gorgyffwrdd hwn ac yn sicrhau bod y meini prawf yn cydweddu â'r ffrydiau ariannu eraill. Mae rhai byrddau partneriaeth wedi dechrau ystyried sut y gallant ddefnyddio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'i gilydd yn fwy effeithiol er budd eu poblogaethau, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny ar hyn o bryd.
- 3.7 Ers hynny, mae'r bwrdd prosiect wedi cydnabod bod y gronfa'n gorgyffwrdd â Chronfa Trawsnewid y GIG a lansiwyd yn 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint i nodi'r cysylltiadau hyn yng nghanllawiau 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu cysylltiadau â ffrydiau ariannu perthnasol eraill drwy newid aelodaeth y bwrdd prosiect a thrwy waith arall sydd ar y gweill i fapio'r dirwedd ariannu ehangach. Yn y cyfamser, mae grŵp cyfeirio newydd yn ystyried cydgysylltu'r polisïau a'r arian sy'n berthnasol i'r byrddau partneriaeth. Yn ogystal, cafodd y gwersi a ddysgwyd gan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg eu hystyried ar ôl cyflwyno 'plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal' fel grŵp blaenoriaeth yn 2019-20.

Mae capasiti staffio Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gronfa'n rheolaidd ac yn amserol wedi bod yn gyfyngedig

- 3.8 Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio'r gronfa o ddydd i ddydd, a hynny drwy dîm rheoli bach sy'n cynnwys tri aelod staff. Mae'r tîm yn gyfrifol am gyfathrebu ag arweinwyr rhanbarthol, paratoi canllawiau blynyddol, ac adolygu perfformiad y gronfa a'r camau i'w rhoi ar waith ar draws y saith bwrdd partneriaeth.
- 3.9 Dywedodd y byrddau partneriaeth fod perthynas gadarnhaol rhyngddynt a'r tîm o ran elfennau refeniw a chyfalaf y gronfa, a'u bod yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu drwy i'r tîm ddod i gyfarfodydd y byrddau, drwy ddeialog un i un, a thrwy gyfarfodydd â chadeiryddion y byrddau partneriaeth. Fodd bynnag, ni chafodd arweinwyr rhanbarthol y gronfa gyfle o'r blaen i ddod ynghyd yn rheolaidd i gwrdd â'r tîm canolog. Ers ein gwaith maes, sefydlwyd grŵp rhwydwaith arweiniol sy'n cefnogi deialog dwyffordd amlach rhwng y tîm a'r rheini sy'n gyfrifol am reoli'r gronfa ym mhob un o'r rhanbarthau.

- 3.10 Mae'r byrddau partneriaeth wedi nodi rhwystredigaeth â swm yr wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu bob chwarter i fodloni gofynion adrodd Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n tybio bod y gofynion wedi bod yn gymesur â lefel yr arian a fuddsoddir drwy'r gronfa. Fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti yn y tîm canolog, cafwyd oedi o hyd at dri neu bedwar mis ar ôl cyflwyno'r ffurflenni adrodd cyn i'r byrddau partneriaeth gael adborth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru am y meysydd i'w gwella.
- 3.11 Mae'r byrddau partneriaeth hefyd wedi mynegi rhwystredigaeth oherwydd nad yw llawer o'r wybodaeth fonitro'n cael ei defnyddio at unrhyw ddiben amlwg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad oedd gan y tîm ddigon o gapasiti i graffu ar bob prosiect mewn manylder nac i ddilyn trywydd yr holl wybodaeth hon, er enghraifft, drwy gynnal ymweliadau safle i ddod i ddeall y gwaith yn well. Fodd bynnag, mae wedi pwysleisio bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i gefnogi atebolrwydd Llywodraeth Cymru ei hun, er enghraifft, wrth ateb cwestiynau Gweinidogion, ac nid dim ond yn sylfaen i'w hadborth. Mae hefyd wedi cynnal ymweliadau achlysurol ar lefel ranbarthol ac ymweld â rhai prosiectau.
- 3.12 Mae'r aelod staff a secondiwyd o fwrdd partneriaeth Powys ([paragraff 3.4](#)) wedi helpu i ddarparu rhywfaint o adnodd ychwanegol ers diwedd 2018, gan ddisodli swydd a fu'n wag am gyfnod hir. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ailedrych ar swm yr wybodaeth y gofynnir amdani drwy'r trefniadau adrodd. Mae [paragraffau 4.1](#) i [4.11](#) yn trafod y trefniadau mewn mwy o fanylder.

Yn aml, bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dirprwyo cyfrifoldeb dros y gronfa i is-grŵp ac nid yw'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn craffu'n fanwl ar y modd y defnyddir y gronfa

- 3.13 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol sefydlu'r byrddau partneriaeth ar ôl troed y byrddau iechyd ac iddynt gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, aelodau cabinet, cynrychiolwyr o'r byrddau iechyd gan gynnwys aelodau, sefydliadau'r trydydd sector, a chynrychiolwyr defnyddwyr a gofaluwr. Ceir cynrychiolwyr o'r cyrff statudol ar bob bwrdd partneriaeth, ond gall lefel presenoldeb cynrychiolwyr y byrddau iechyd amrywio o un i dri. Fel rheol, arweinwyr partneriaethau ac arweinwyr gofal sylfaenol ar lefel cyfarwyddwr neu reolwr, yn ogystal ag aelodau annibynnol, sy'n cynrychioli'r byrddau iechyd.

- 3.14 Gall aelodaeth yr awdurdodau lleol hefyd amrywio hyd at dri aelod o bob awdurdod. Mae hyn yn creu byrddau partneriaeth mawr mewn ardaloedd lle ceir pump neu chwech awdurdod, ac mae perygl y gall cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ddominyddu'r drafodaeth. Fel rheol, cyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol ac aelodau cabinet sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol, er i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r Ddeddf yn 2018 i beri iddi fod yn ofynnol i'r byrddau partneriaeth gynnwys cynrychiolaeth o'r maes tai¹⁵. Cyn diwygio'r Ddeddf, roedd cynrychiolaeth o'r maes tai'n amrywio ar draws y byrddau partneriaeth. Ceir cynrychiolaeth o'r trydydd sector ar y byrddau partneriaeth, ond gall fod yn anodd cael cynrychiolaeth o blith defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- 3.15 Mae'r byrddau partneriaeth yn gyfrifol am roi eu cynlluniau ardal ar waith ac am ddefnyddio'r arian a ddarperir iddynt. I wneud hyn, rhaid iddynt benderfynu sut i ddefnyddio'r gronfa ar draws y rhanbarth ar ran y cyrff cyhoeddus a gynrychiolir ganddynt. Mae gan bob un o'r byrddau partneriaeth femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r broses benderfynu y cytunwyd arni. Fodd bynnag, mae ein gwaith ni wedi dangos mai ychydig iawn o waith a wneir i graffu ar benderfyniadau'r byrddau partneriaeth. Er bod rhai aelodau o'r byrddau partneriaeth yn gofyn am gymeradwyaeth gan eu sefydliadau cartref, nid yw'r arfer hwn yn gyffredin ar draws rhan helaeth o Gymru. Canfuwyd hefyd nad oes fawr ddim tystiolaeth bod y cynrychiolwyr yn adrodd yn ôl fel mater o drefn i fyrddau a phwyllgorau craffu'r cyrff cyhoeddus perthnasol am benderfyniadau'r byrddau partneriaeth, ac roedd diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ymhlith y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol o'r modd y defnyddir y gronfa.
- 3.16 Yn y byrddau partneriaeth, dirprwyir y cyfrifoldeb dros y gronfa i raddau helaeth i is-grwpiau. Mae'r is-grwpiau'n argymhell i'r byrddau partneriaeth sut y dylid defnyddio'r gronfa ac yn rhoi adroddiadau sicrwydd iddynt yn ystod y flwyddyn ynghylch y ffordd y mae'r arian yn cael ei wario. Gan mwyaf, cyfarwyddwyr neu benaethiaid gwasanaethau sy'n aelodau o'r is-grwpiau, ac yn aml nid oes gan bartneriaid eraill fel y trydydd sector, tai a gofalwyr gynrychiolaeth ddigonol. Mynegodd cynrychiolwyr y trydydd sector yn enwedig bryderon nad oes ganddynt bob amser gynrychiolaeth ar yr is-grwpiau, er eu bod yn aelodau o'r byrddau partneriaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu ac i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y gronfa. Mewn rhai byrddau partneriaeth, tynnwyd sylw at wrthdaro buddiannau posibl gan fod aelodau o'r is-grwpiau sy'n argymhell sut i ddyrannu'r gronfa'n rheoli'r gwasanaethau sydd hefyd yn elwa o'r gronfa.

15 Roedd y diwygiad i'r Ddeddf hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r cymdeithasau tai.

- 3.17 Gall amseriad cyfarfodydd y byrddau partneriaeth hefyd fod yn broblem. Yn ei chanllawiau blynyddol, mae Llywodraeth Cymru'n pennu dyddiadau cau sy'n glir ond yn aml yn dynn ar gyfer cyflwyno cynlluniau buddsoddi refeniw, cynlluniau cyfalaf a ffurflenni monitro chwarterol. Canfuwyd bod rhai o gadeiryddion y byrddau partneriaeth yn cymeradwyo'r ffurflenni monitro tu allan i gyfarfodydd y bwrdd oherwydd bod yr amserlen rhwng diwedd y chwarter a'r dyddiad cyflwyno'n dynn. Nid oedd rhai cadeiryddion yn gysurus i wneud hyn ac roeddent yn gwrthod cymeradwyo'r ffurflenni hyd nes i'r bwrdd eu hystyried. O'r herwydd, bu'n rhaid aildrefnu dyddiadau rhai o gyfarfodydd y byrddau partneriaeth er mwyn iddynt fodloni amserlenni Llywodraeth Cymru.

Mae cadernid y gwaith o reoli prosiectau'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac o sefydliad i sefydliad, ac ychydig ohonynt sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg

- 3.18 I raddau helaeth, mae'r trefniadau i oruchwyllo ac i reoli prosiectau unigol yn seiliedig ar y trefniadau a ddefnyddir gan y sefydliad sy'n lletya'r prosiect. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau manwl ar gael i ategu pob prosiect ac ni ddefnyddir dull cyson i reoli risgiau prosiectau. Mae gan rai prosiectau gofrestri risg lleol sy'n bwydo i mewn i gofrestri risg sefydliadau neu feysydd, ond nid oes gan lawer ohonynt systemau i bennu, i reoli ac i uwchgyfeirio risgiau.
- 3.19 Yn aml, bydd arweinwyr prosiectau'n ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach tu hwnt i'r prosiect ei hun. Gall hyn greu problemau o ran y capasiti i gynllunio ac i reoli prosiectau ac i adrodd arnynt yn ôl y gofyn, ac mae llawer o arweinwyr prosiectau'n ei chael yn anodd bodloni'r dyddiadau adrodd a bennir gan Lywodraeth Cymru.

- 3.20 Ychydig o'r prosiectau sydd wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg, a hynny oherwydd bod cyn lleied o amser ar gael i'r partneriaid rhanbarthol ddatblygu eu prosiectau arfaethedig. Fodd bynnag, mae partneriaid rhanbarthol yn ceisio ymgysylltu drwy drafod â'r cynrychiolwyr defnyddwyr a gofalwyr sy'n aelodau o'r bwrdd partneriaeth. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i bob bwrdd partneriaeth sefydlu panel dinasyddion. Mae trefniadau'r paneli'n amrywio o ranbarth i ranbarth. Mewn rhai achosion, mae'r byrddau partneriaeth yn defnyddio'r trefniadau ymgysylltu sydd eisoes ar waith gan y cyrff cyhoeddus i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o dystiolaeth bod y partneriaid rhanbarthol yn defnyddio'r trefniadau hyn i gynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio prosiectau a gefnogir gan y gronfa.
- 3.21 Er mai bwriad y gronfa yw helpu i ysgogi prosiectau newydd ac arloesol, nifer gymharol fechan o'r prosiectau sydd wedi cynnwys cynlluniau ymadael i brif-ffrydio'r prosiect os yw'n llwyddiannus neu i ddod â'r prosiect i ben os nad yw'n gwireddu'r buddion arfaethedig. Yn eu hymatebion i'n harolwg, dywedodd 40% o'r arweinwyr prosiectau fod gofyn iddynt gynnwys strategaeth ymadael yn eu cynlluniau prosiect. Yn sgil ein hadborth cynnar i Lywodraeth Cymru, mae bellach yn ofynnol llunio strategaeth ymadael ar gyfer pob prosiect sy'n cael ei ariannu gan y gronfa yn 2019-20 ([paragraffau 4.12 i 4.17](#)).

Rhan 4

Er bod enghreifftiau cadarnhaol, nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn glir o hyd, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma



Mae'r byrddau partneriaeth yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol, ond nid yw trefniadau monitro canolog Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen i asesu effaith gyffredinol y gronfa hyd yma

- 4.1 Ers sefydlu'r gronfa, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r byrddau partneriaeth gyflwyno data ariannol a data perfformiad ynghylch eu defnydd o arian refeniw ac arian cyfalaf y gronfa bob chwarter. Bob blwyddyn, mae'r canllawiau'n amlinellu'r gofynion adrodd. Yn 2016-17, dechreuodd canllawiau Llywodraeth Cymru nodi'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau hefyd.
- 4.2 Fodd bynnag, mae'r dulliau adrodd ar gyfer arian refeniw ac arian cyfalaf yn wahanol. Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn yw bod elfen gyfalaf y gronfa'n cael ei hadnabod fel grant ac, o'r herwydd, mae'r gofynion adrodd yn wahanol. Er bod y byrddau partneriaeth yn cydnabod hyn, mae'r dulliau gwahanol yn achosi rhwystredigaeth a byddent yn croesawu proses symlach.
- 4.3 Ceir trefniadau adrodd ar wahân ar gyfer ffrydiau arian refeniw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru hefyd. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am graffu ac adrodd ar y cynlluniau hyn, a hynny fel rhan o'r gwaith ehangach i oruchwylio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ac i gyflwyno'r system wybodaeth ledled Cymru.
- 4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r gofynion adrodd ar gyfer y byrddau partneriaeth, gan roi pwyslais ar fesur llwyddiant prosiectau ar sail canlyniadau yn hytrach nag allbynnau sy'n canolbwyntio ar swm y gweithgarwch. Pennodd Llywodraeth Cymru fod oedi wrth drosglwyddo gofal yn fesur canlyniad allweddol pan sefydlwyd y gronfa'n wreiddiol. Nid yw'n ofynnol i'r byrddau partneriaeth adrodd ar y sefyllfa o ran oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru'n monitro'r sefyllfa ranbarthol drwy systemau canolog. Oherwydd y ffocws cynyddol ar wasanaethau ataliol ac osgoi derbyniadau, a'r newidiadau i'r grwpiau poblogaeth targed, dywedodd pob bwrdd partneriaeth nad yw oedi wrth drosglwyddo gofal yn adlewyrchu cwmpas llwyr y gronfa erbyn hyn.

- 4.5 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu unrhyw ddisgwyliadau penodol o ran sut y dylai'r byrddau partneriaeth fesur a chofnodi gwybodaeth am ganlyniadau. Mae pob bwrdd partneriaeth wedi llunio ei brosesau ei hun. Mae hyn wedi rhoi hyblygrwydd i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio'r dulliau sydd fwyaf priodol yn eu tyb nhw i fesur perfformiad. Ond o'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybodaeth wahanol iawn am brosiectau tebyg, gan beri iddi fod yn anodd coladu neu gymharu'r un wybodaeth am ganlyniadau ar lefel genedlaethol. O fewn eu gwahanol ddulliau o reoli perfformiad, dywedodd pob partner rhanbarthol hefyd ei bod yn anodd mesur canlyniadau'n llwyddiannus.
- 4.6 Yn 2017-18, ar ôl ymgynghori â'r byrddau partneriaeth, dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnwys templed adrodd yn y canllawiau. Er gwaethaf y pwyslais ar adrodd am ganlyniadau, mae'r templed yn canolbwyntio'n bennaf ar y cymorth a ddarparwyd drwy'r gronfa, yn ogystal â'r gwariant. Anogwyd y partneriaid rhanbarthol i barhau i gasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod yn fuddiol yn eu tyb nhw i ddangos perfformiad prosiectau. Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad i lenwi'r templed, ac mae'r byrddau partneriaeth yn aml yn cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol hon gyda'u ffurflenni chwarterol. Fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti'r tîm canolog ([paragraffau 3.8 i 3.12](#)), nid yw Llywodraeth Cymru'n cael cyfle i adolygu pob prosiect mewn manylder.
- 4.7 Mae llawer o'r partneriaid rhanbarthol wedi bod yn casglu profiadau defnyddwyr drwy astudiaethau achos oherwydd mai hon yw'r ffordd orau yn eu tyb nhw o ddangos y canlyniadau a gyflawnir ac effaith y gronfa ar fywydau pobl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi annog y byrddau partneriaeth i gynnwys nifer gymesur o astudiaethau achos yn eu ffurflenni chwarterol, gan ganolbwyntio ar arferion gorau, gan fod ei chapasiti i ddadansoddi'r wybodaeth yn gyfyngedig.
- 4.8 Mae llawer o'r prosiectau'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Fodd bynnag, nid yw'r partneriaid rhanbarthol yn gallu adrodd am ostyngiadau yn y defnydd o wasanaethau mewn rhannau eraill o'r system nac arbedion, a hynny oherwydd bod y galw ar y gwasanaethau craidd presennol gan boblogaeth gynyddol ag anghenion mwy cymhleth yn disodli'r galw y mae'r prosiectau a ariennir yn ei reoli erbyn hyn.


- 4.9 Mae pob bwrdd partneriaeth yn cydnabod bod mesur effaith yn faes y gallent ei wella ac maent yn mynd ati i gofnodi canlyniadau'n well. Er enghraifft, mae rhanbarth y Gorllewin yn treialu defnydd o'r Llwybr Integredig ar gyfer Pobl Hŷn¹⁶. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r partneriaid rhanbarthol yn ceisio cysylltu'r canlyniadau lleol a gyflawnir ganddynt drwy'r prosiectau a ariennir gan y gronfa â'r canlyniadau cenedlaethol a bennir fel rhan o'r Llwybr, ond mae'r rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar. Yn ei chanllawiau diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru yn annog y byrddau partneriaeth i ddefnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau¹⁷ i fesur canlyniadau, ac mae tri bwrdd partneriaeth eisoes yn eu defnyddio, rhai ohonynt yn fwy llwyddiannus na'i gilydd.
- 4.10 Serch hynny, mae'r materion hyn yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi gallu darparu darlun cenedlaethol o'r effaith y mae'r gronfa wedi'i chael. Yn y cyfamser, mae'r bwrdd prosiect wedi cael sicrwydd lefel uchel o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y byrddau partneriaeth am wariant a gweithgareddau ac mae wedi defnyddio'r wybodaeth honno i osod sylfaen ar gyfer ymweliadau Aelodau Cynulliad â gwahanol brosiectau. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Medi 2019 am y ffordd y defnyddiwyd y gronfa yn 2018-19. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu comisiynu gwaith gwerthuso ehangach ar ôl iddi benderfynu gohirio gwerthusiad a gyhoeddwyd yn flaenorol oherwydd ein cynlluniau i ymgymryd â'n gwaith ni.
- 4.11 Mae'r angen i ddarparu'r un faint o wybodaeth bob chwarter wedi peri rhwystredigaeth i'r byrddau partneriaeth hefyd, yn enwedig gan fod lefel y gweithgarwch yn is ar y cyfan yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cydnabod hyn ac mae gofynion adrodd chwarter un a chwarter tri yn llai beichus yn 2019-20.

16 Llwybr chwe cham a luniwyd gan Lywodraeth Cymru i bennu ac i ddeall faint o ofal sydd ei angen ar bobl hŷn yw'r Llwybr Integredig ar gyfer Pobl Hŷn. Cafodd ei ddiweddarau yn y Gorllewin i gynnwys saith cam.

17 Dull o fesur perfformiad yw Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae'n mesur llwyddiant gwasanaeth drwy ganolbwyntio ar sut y mae sefyllfa defnyddwyr Dull o fesur perfformiad yw Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae'n mesur llwyddiant gwasanaeth drwy ganolbwyntio ar sut y mae sefyllfa defnyddwyr gwasanaethau wedi gwella yn hytrach na chanolbwyntio yn y ffordd draddodiadol ar weithgarwch.

Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei disgwyliadau

4.12 Ers sefydlu'r gronfa yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn disgwyl i brosiectau sy'n dangos eu bod yn cael effaith gael eu prif-ffrydio drwy'r cyllidebau craidd. Yn ymarferol, mae llawer o'r prosiectau a gefnogwyd gan y gronfa wedi treiglo o flwyddyn i flwyddyn ([paragraff 2.15](#)). Rhestrir rhai enghreifftiau isod:



- 4.13 Yng nghyd-destun pwysau ariannol ehangach, mae'r byrddau partneriaeth wedi'i chael yn anodd darbwyllo'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli i fuddsoddi yn y prosiectau hyn a phrosiectau eraill drwy'r ffrydiau ariannu craidd. Er ei bod yn ofynnol gwerthuso prosiectau, ychydig iawn o'r prosiectau, gan gynnwys y rheini sydd ar waith ers cyflwyno'r gronfa, a gafodd eu gwerthuso'n ffurfiol.
- 4.14 Bwriedir i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio gwybodaeth sy'n deillio o werthusiadau i asesu gwerth prif-ffrydio'r gwasanaethau a gefnogir gan y gronfa. Mae'r wybodaeth a geir yn adroddiadau blynyddol y byrddau partneriaeth ac mewn astudiaethau achos yn awgrymu bod llawer o'r prosiectau hyn, fodd bynnag, yn gwneud gwahaniaeth gweladwy (**Arddangosyn 10**). Ceir mwy o wybodaeth yn adroddiadau blynyddol y byrddau partneriaeth, ac mae llawer ohonynt, ond nid pob un, wedi'u cyhoeddi ar eu gwefannau.

Arddangosyn 10: enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol prosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig



Uned Ailalluogi 'Y Bae'

(Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol Caerdydd
a'r Fro)

Drwy fagu hyder a gwella cryfder corfforol a meddyliol pob unigolyn, gall yr Uned ddangos gostyngiad sylweddol yng ngofynion cymorth parhaus ar ôl i'r defnyddiwr gwasanaeth ddychwelyd adref. Drwy sicrhau bod y gofal a ddarperir i'r unigolyn yn briodol yn seiliedig ar angen, llwyddwyd i arbed tua £500,000 y flwyddyn – **Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro 2017-18**



Anhwylderau Bwyta Plant a Phobl Ifanc

(Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol Gwent)

Gall y tîm cymunedol anhwylderau bwyta ddarparu asesiad rheolaidd o blentyn neu berson ifanc ar ran y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Mae hyn yn arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc a llai o dderbyniadau i welyau Haen 4 – **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2017-18**

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

4.15 Yn eu hymatebion i'n harolygon, dywedodd 91% o'r arweinwyr prosiectau eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y prosiectau yr oeddent yn rhan ohonynt yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd 87% o aelodau'r byrddau partneriaeth hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y prosiectau a ariennir yn eu rhanbarth yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Serch hynny, dim ond 60% o'r arweinwyr prosiectau a ddywedodd eu bod wedi gallu dangos effaith y prosiect, a dywedodd 75% ohonynt fod heriau'n codi o ran prif-ffrydio'r prosiectau (Arddangosyn 11).

Arddangosyn 11: yr heriau a bennwyd o ran prif-ffrydio prosiectau drwy ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith arweinwyr prosiectau.

- 4.16 Fodd bynnag, mae rhai prosiectau wedi ennill eu plwyf i'r fath raddau nes eu bod, i bob pwrpas, yn wasanaethau craidd erbyn hyn. Pe baent yn dod i ben, byddai'n cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth ehangach. Yn ei chanllawiau diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio na ddylid defnyddio'r gronfa i gefnogi prosiectau sydd wedi datblygu i fod yn wasanaethau craidd, ac y dylid cael hyd i drefniadau eraill i'w hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr heriau y mae'r byrddau partneriaeth yn eu hwynebu o ran prif-ffrydio prosiectau, ond nid yw wedi darparu unrhyw gymorth na chanllawiau manwl i'w helpu i fynd i'r afael â'r mater o'r blaen. Mae canllawiau 2019-20 bellach yn nodi'n glir bod disgwyl i'r cynlluniau buddsoddi reffeniw gynnwys strategaethau ymadael ar gyfer pob prosiect ([paragraff 3.21](#)). Fodd bynnag, ni cheir unrhyw enghreifftiau ymarferol o hyd i ddangos sut y gall partneriaid rhanbarthol fynd ati i brif-ffrydio prosiectau sy'n dangos eu bod yn cael effaith. Gall fod rhaid i bartneriaid rhanbarthol hefyd wneud rhai penderfyniadau anodd i roi'r gorau i fuddsoddi mewn rhai gwasanaethau.
- 4.17 Unwaith y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal digwyddiad i ddod ag aelodau'r byrddau partneriaeth a'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau a ariennir ynghyd. Bwriedir i'r digwyddiad hwn hwyluso cyfleoedd i ddysgu ar y cyd. Mae'r rheini sydd wedi bod i'r digwyddiad yn dweud ei fod yn ddefnyddiol o ran dod i wybod pa brosiectau sydd ar waith ledled Cymru a thynnu sylw at brosiectau sy'n gweithio'n dda. Roedd aelodau'r byrddau partneriaeth yn teimlo y byddai'r digwyddiad yn fwy defnyddiol pe bai cyfleoedd ehangach i ddysgu o brofiadau eraill, yn enwedig o ran goresgyn heriau. Gallai'r digwyddiad blynyddol hefyd fod yn ffordd ddefnyddiol o ddysgu ar y cyd am brif-ffrydio.

Atodiadau



Atodiad 1

Dulliau archwilio

Arddangosyn A1: y dulliau archwilio a ddefnyddiwyd

Rydym wedi adolygu dogfennau canolog a rhanbarthol, gan gynnwys:



Adolygu dogfennau

- Canllawiau Llywodraeth Cymru
- Cynlluniau strategol, gan gynnwys: cynlluniau corfforaethol yr awdurdodau lleol, cynlluniau tymor canolig integredig y byrddau iechyd, cynlluniau llesiant y byrddau gwasanaethau cyhoeddus
- Cynlluniau prosiectau
- Ffurflenni monitro cyllid a pherfformiad chwarterol y byrddau partneriaeth
- Cofnodion y byrddau partneriaeth a'u his-grwpiau¹⁸

Rydym hefyd wedi adolygu adroddiadau perthnasol am integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol gan Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.



Arolygon

Cynhaliwyd arolygon ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac unigolion a fu'n arwain prosiectau yn ystod 2017-18.

Daeth ymatebion i law gan 71 o'r 156 o'r aelodau a holwyd a chan 65 o'r 243 o'r arweinwyr prosiectau a holwyd.



Cyfweliadau

Cynhaliwyd cyfweliadau â'r unigolion a ganlyn:

- Arweinwyr rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig
- Aelodau'r byrddau partneriaeth, gan gynnwys: aelodau etholedig, swyddogion, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr y trydydd sector
- Arweinwyr prosiectau
- Swyddogion Llywodraeth Cymru



Gweithdai

Cynhaliwyd gweithdai gydag aelodau is-grwpiau perthnasol y byrddau partneriaeth ym mhob rhanbarth.

Cynhaliwyd gweithdai hefyd gyda sampl o arweinwyr prosiectau ym mhob rhanbarth.

¹⁸ Mae pob bwrdd partneriaeth wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros elfennau o'r gronfa i un neu ragor o is-grwpiau.



Bu inni ddadansoddi data ariannol a data perfformiad prosiectau ar gyfer y cyfnod 2014-2019.

Dadansoddi data




Bu inni arsylwi ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith drwy arsylwi ar gyfarfodydd bwrdd prosiect Llywodraeth Cymru. Bu inni hefyd arsylwi ar gyfarfodydd pob un o'r byrddau partneriaeth a'r is-grwpiau perthnasol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gronfa.

Arsylwi ar gyfarfodydd

Atodiad 2

Map o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2019¹⁹




19 Ers i'r newidiadau i ffiniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ddod i rym ar 1 Ebrill 2019, mae'r bwrdd a elwir yn Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ailsefydlwyd y bartneriaeth sy'n weddill rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o dan yr enw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Morgannwg.

Atodiad 3

Dosbarthiad y gronfa rhwng 2014 a 2019

Arddangosyn A2: dosbarthiad yr arian refeniw fesul rhanbarth a maes, Ebrill 2014 – Mawrth 2019



Nodyn:

1. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2016, ystyriwyd bod Gorllewin Cymru a Phowys yn un rhanbarth ac fe wnaed un dyraniad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau a llythyrau dyrannu Llywodraeth Cymru.

Tudalen y pecyn 271

Atodiad 4

Dadansoddiad o nifer a maint y prosiectau rhwng 2014 a 2019

Arddangosyn A3: nifer y prosiectau referniw fesul rhanbarth, Ebrill 2014 – Mawrth 2019 (ac eithrio 2015-16)¹




Nodiadau:

1. Cafodd prosiectau eu dwyn ymlaen yn 2015-16 ac rydym wedi eu hepgor o'r herwydd.
2. Rhwng 2014 a 2016, ystyriwyd bod Gorllewin Cymru a Phowys yn un rhanbarth ac fe wnaed un dyraniad ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin. Rydym wedi hepgor nifer y prosiectau yn y rhanbarth hwn ar gyfer y cyfnod 2014-2016 o'r gymhariaeth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro'r byrddau partneriaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn A4: maint y prosiectau fesul rhanbarth, Ebrill 2014 – Mawrth 2019
(ac eithrio 2015-16)¹



Nodiadau:

1. Cafodd prosiectau eu dwyn ymlaen yn 2015-16 ac rydym wedi eu hepgor o'r herwydd.
2. Rhwng 2014 a 2016, ystyriwyd bod Gorllewin Cymru a Phowys yn un rhanbarth ac fe wnaed un dyraniad ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin. Rydym wedi hepgor nifer y prosiectau yn y rhanbarth hwn ar gyfer y cyfnod 2014-2016 o'r gymhariaeth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r ffurflenni monitro a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

Atodiad 5

Prif ganfyddiadau ein harolygon ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau

Dangosodd ein harolwg ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth²⁰ yr hyn a ganlyn:



Roedd 59 allan o 70 (84%) yn cytuno bod y sefydliadau sy'n bartneriaid yn dangos ymrwymiad i waith partneriaeth.



Roedd 38 allan o 68 (56%) yn cytuno bod cysylltiadau priodol â grwpiau a fforymau rhanbarthol eraill, fel y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, i sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd na bylchau o ran ymateb i ofynion deddfwriaethol.



Roedd 33 allan o 62 (53%) yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol clustnodi arian o'r gyllideb ar gyfer y mentrau cenedlaethol.



Roedd 21 allan o 61 (34%) yn cytuno bod y templedi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr adroddiadau chwarterol yn casglu'r wybodaeth gywir.



Roedd 37 allan o 59 (63%) yn cytuno bod cyfathrebu defnyddiol yn mynd rhagddo rhwng y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i ddeall unrhyw newidiadau i'r gronfa.



Roedd 57 allan o 71 (80%) yn cytuno bod y cynigion a gyflwynir gerbron y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w cymeradwyo o ansawdd da ar y cyfan.



Roedd 39 allan o 69 (57%) yn cytuno bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn neilltuo digon o amser i graffu'n effeithiol ar y modd y mae'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa'n cael eu rhoi ar waith.



Roedd 49 allan o 68 (72%) yn cytuno bod proses glir ar gael i fonitro ac i reoli tanwariant a gorwariant prosiectau o fewn strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.



Roedd 47 allan o 68 (69%) yn cytuno bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'i is-grŵp yn canolbwyntio ar ganlyniadau pan fyddant yn craffu ar brosiectau.



Roedd 45 allan o 70 (64%) yn cytuno bod y gronfa'n ariannu'r prosiectau cywir.



Roedd 60 allan o 69 (87%) yn cytuno bod y prosiectau a ariennir yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

²⁰ Ni wnaeth pob aelod a ymatebodd ateb pob cwestiwn.

Dangosodd ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau yr hyn a ganlyn:



Dyweddodd 46 allan o 65 (71%) fod eu prosiect(au) wedi cael arian mewn blynyddoedd blaenorol.



Dyweddodd 31 allan o 65 (48%) fod eu prosiect(au) wedi cael arian o ffynhonnell arall, yn ychwanegol at y Gronfa Gofal Integredig.



Dyweddodd 60 allan o 65 (92%) fod cysylltiad clir rhwng eu prosiect(au) a blaenoriaethau strategol cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).



Dyweddodd 38 allan o 65 (58%) fod fframwaith rheoli risg yn ei le ar gyfer eu prosiect(au).



Dyweddodd 58 allan o 65 (89%) eu bod wedi cael cyfarwyddyd priodol gan reolwyr i'w cynorthwyo i roi'r prosiect(au) ar waith.



Dyweddodd 27 allan o 65 (40%) fod gofyn iddynt gynnwys strategaeth ymadael fel rhan o'u cynlluniau prosiect.



Dyweddodd 51 allan o 65 (78%) fod un pwynt atebolrwydd ar gael o ran rhoi'r prosiect(au) ar waith.



Dyweddodd 21 allan o 65 (32%) fod eu prosiect(au) wedi dechrau'n brydlon.



Dyweddodd 26 allan o 65 (40%) fod trefniadau ar waith i fesur manteision ariannol y prosiect(au).



Dyweddodd 39 allan o 65 (60%) eu bod wedi gallu dangos effaith y prosiect(au).



Dyweddodd 43 allan o 65 (66%) fod y gronfa'n helpu i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy cynaliadwy yn eu rhanbarth.



Dyweddodd 49 allan o 65 (75%) fod heriau'n codi o ran prif-ffrydio'r prosiect(au).



Dyweddodd 59 allan o 65 (91%) fod y prosiect(au) yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Atodiad 6

Y cynnydd a wnaed o ran argymhelliad blaenorol

Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, **Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw cynghorau'n gwneud digon?**, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn i'r awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, partneriaid y trydydd sector a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi asesu'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad (**Arddangosyn A5**).

Arddangosyn A5: y cynnydd a wnaed o ran argymhelliad blaenorol sy'n ymwneud â'r gronfa

Argymhelliad – gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol [bryd hynny] ac effaith y gronfa honno drwy:

Ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed

Pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser

Nid oes un dull ar waith i reoli perfformiad prosiectau. Mae'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac, weithiau, o fewn yr un rhanbarth (**paragraffau 3.18 i 3.20**). Ceir enghreifftiau o brosiectau sy'n pennu'r perfformiad dangosol wrth gynllunio'r prosiect, ond nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos.

Cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif-ffrydio i dderbyn cyllid craidd.

Fel y nodir uchod, nid oes un dull ar waith i reoli prosiectau ac ni ellir cymharu prosiectau tebyg ar yr un sail (**paragraff 4.5**). Ceir tystiolaeth bod rhai rhanbarthau'n dechrau defnyddio dull a fyddai'n darparu gwybodaeth y gellir ei chymharu (er enghraifft, fframwaith canlyniadau rhanbarthol y Gorllewin), ond mae'r rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar ac nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd i farnu pa brosiectau sy'n cael yr effaith fwyaf.

Yn ogystal, mae'r rhanbarthau'n ei chael yn anodd casglu effeithiau cadarnhaol a darparu tystiolaeth o arbedion oherwydd natur ataliol y prosiectau, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau wedi'u prif-ffrydio i dderbyn cyllid craidd (**paragraffau 4.12 i 4.17**).

Gwella'r ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol.

Mae'r graddau y mae partneriaid yn ymgysylltu â'r gronfa'n amrywio o ranbarth i ranbarth, ac mae partneriaid y trydydd sector wedi mynegi rhai pryderon parhaus (**paragraff 3.16**). Fodd bynnag, mae'r camau i gyflwyno Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ers sefydlu'r gronfa wedi dod ag ystod ehangach nag o'r blaen o bartneriaid ynghyd ar sail ranbarthol i gyfrannu at y rhaglen ac i gymryd rhan ynddi (**paragraffau 1.1 i 1.7**).

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Auditor General for Wales
Via email to clare.fellows@audit.wales

Our Ref: AG/MJ/SB

2 September 2019

Dear Adrian,

WAO report about the Integrated Care Fund

Further to the of the publication of the Wales Audit Office report on the Integrated Care Fund (ICF), I am writing to set out the Welsh Government's approach to responding to the recommendations made in the report.

I am pleased that the report recognises that in many areas progress on the recommendations is already well advanced. The early dialogue between our teams was useful in identifying issues which were then reflected in the most recent set of ICF guidance published earlier this year.

I was also pleased to see the positive messages in the report about the change that the ICF is driving. The WAO's own fieldwork showed that circa 80 per cent of Regional Partnership Board (RPB) members and project leads either agreed or strongly agreed that the ICF is helping to drive integrated working between key partners.

This echoes the work of the independent and expert panel that undertook the Parliamentary Review of Health and Social Care in 2017-18. Their final report, which was welcomed across the Senedd, recommended that new seamless models of health and social care should be developed to respond to population need, and placed RPBs in a key leadership role. In turn the Welsh Government has invested significant extra resource through RPBs in both the ICF and the new Transformation Fund which work in tandem. This approach is fundamental to the success of *A Healthier Wales – our plan for health and social care*. The learning from your report is therefore important, and we will respond purposefully to the recommendations made in it.



Recommendation R1: Timeliness of guidance and decision-making

Accept. Enabling RPBs to manage funds strategically is vital. We agree that the timely publication of guidance is important. I note the recognition that improvements have been made in 2019 in relation to the timeliness of issuing guidance, and that Welsh Government has ensured that decisions are communicated much more clearly and swiftly in the most recent process.

Alongside expediting the guidance, officials will continue the practice, in the months running up to the publication of the guidance, of keeping RPBs informed of any adjustments that may be considered.

The publication of guidance exists in the context of a 2016 Ministerial commitment in *Taking Wales Forward* to retain the ICF up to 2021. The financial allocation itself is notified to the health boards, which hold the revenue fund for each partnership, each December, four months prior to the start of the financial year. However, the ability of Welsh Government to take a truly long term view of funding allocations is limited by the UK Government's annualised budgetary approach over a number of years.

Notwithstanding this broader context, we acknowledge the strong feeling from RPBs that early clarity is important, and we will ensure that communication channels are fully open in the run up to 2020-21 (which for the revenue fund the allocation has already been made as part of a 2-year allocation from 2019-20).

Your report also refers to the changes to the scope of the fund. It is important to note here that the scope of the fund is closely matched to key areas of the Social Services and Well-being (Wales) Act which partners should already be focusing on. Where objectives have been added though the lifetime of the ICF that has been accompanied by additional funding. In signalling priorities for the fund, Welsh Government has not been overly prescriptive in how much funding should be allocated in relation to each population group. Ring-fencing is minimal and criteria are quite broad. Noting the further finding that Welsh Government should be in a position to better identify national-level outcomes, there are advantages and disadvantages to a flexible approach to allocations. To date preference has been given for RPBs' discretion to respond to local population needs within a national policy framework.

Recommendation R2: Multiple short-term funds available for health, social care and housing

Accept. Welsh Government made a commitment in *A Healthier Wales* to align the discretionary funds that support health and social care. That work is advancing within government. Thank you for the suggestions made in the report about the criteria we should use to guide future arrangements. I will ensure they are fully considered by the officials leading that work.

In the context of Ministerial commitments for a 2-year Transformation Fund and an ICF to 2021, clearly there is a need to balance your recommendations R1 and R2. We need to avoid creating short-term uncertainty by giving the impression of immediate changes, whilst considering the medium- to long-term optimal structure of discretionary funds. We will work now with decision makers to ensure they understand better how the current arrangement of funds fits together. Our project management arrangements, which I will touch on below, are helpful in that regard.

We also need to put the ICF in context. The ICF and Transformation fund taken together represent circa 2 per cent of the funds spent through government on health and social care in each year. The 98 per cent is allocated to health boards and local government directly and it is unhypothecated and provides local options for considering the use of funds aside from any central funds. In the context of the Parliamentary Review, which called for a 'revolution from within', it is important that Ministers have sufficiently powerful mechanisms to drive new models of care and influence the way services are provided. The ICF is one of those mechanisms.

Recommendation R3: Project Board arrangements

Accept. I note your recommendations about our governance within Welsh Government of the ICF. The revenue element of the ICF is of course a fund rather than a grant, and it is important the wider stakeholders understand Welsh Government does not approve each region's revenue programme, although officials do provide feedback to regions on plans and review performance information in order to assure Ministers about the effectiveness of expenditure.

One of the strengths of the current board, which is chaired by a senior civil servant, is that its membership includes all the lead officials for each of the discretionary funds and relevant policy areas that operate for health and social care (for example the Transformation Fund and Primary Care Fund). We accept that these arrangements can be improved upon by inviting constructive independent challenge. I will ensure that is put into place.

The ICF capital programme is a grant and is therefore dealt with as such. An overview of the ICF capital programme is presented to the ICF Project Board, but there is a separate Welsh Government scrutiny and approval process due to the differing nature of capital investment in regional ICF projects. However, I would reinforce that this process also works closely with other related capital investment programmes and associated policy teams.

Recommendation R4: Regional Partnership Board scrutiny arrangements

Accept. Each RPB has a signed written agreement which sets out their local ICF governance arrangements. Following Welsh Government action, these were reviewed in 2018 and updated written agreements were submitted to Welsh Government. This report was shared with and discussed at the ICF Project board meeting in February 2019.

Arrangements for sovereign body scrutiny and approval are agreed locally so do vary. Whilst RPB and ICF activity is reported through to some sovereign bodies we recognise the need to work closely with RPBs, health boards and local authorities to ensure this is developed more consistently and routinely across Wales.

Notwithstanding these actions, there is widespread agreement that purposeful partnership working is essential if progress is to be made towards a seamless system of health and social care. Ministers, taking a view supported by the Parliamentary Review and many others, have not pursued a major structural reform of organisations. In avoiding this major disruption, progressive voices from within health and social care recognise the need to pool together in order to take the system forward.

Recommendation R5: Project monitoring

Accept. Welsh Government is commissioning an evaluation of the ICF which we deferred until the WAO's own enquiries were complete. This will provide a programme-level assessment of the fund which, notwithstanding the information available on a project-by-project basis, we acknowledge needs to be aggregated.

Identifying the impact of the ICF should be placed in the context of the current NHS Performance Framework and Social Services Outcomes Framework. In *A Healthier Wales* Welsh Government committed to develop an integrated measurement framework based around the four points of the 'quadruple aim'. Within this framework shared performance measures, jointly owned by health and social care leaders, will be a key element of that approach.

Your report reflects the changes Welsh Government has made to collecting project-level performance data, seeking to take a proportionate approach ensuring that the information collected is used for Ministerial oversight. Moving forwards we are developing a consistent approach to measuring impact across both the ICF and the Transformation Fund, with Results Based Accountability and theory of change methodologies being used as the key measurement tools/processes. Training is due to be provided to RPBs from this autumn to support effective use of these tools.

Recommendation R6: Shared learning and mainstreaming projects

Accept. Learning is at the heart of what the ICF is seeking to achieve. When the fund was established it was in part based on a stakeholder view that some 'pump priming' was required to develop new approaches to responding to need, with a particular emphasis on prevention and early intervention. The ICF learning events have been successful, and the Minister for Health and Social Services will draw RPB leaders together this winter for further reflection on what is working and what needs to be done next. In parallel officials have facilitated an ICF Leads network which is now meeting quarterly, and has already provided an effective forum for regional leads to gain peer support and share learning.

The extent to which projects can be mainstreamed has not been assisted by the austerity environment which has prevailed during the lifetime of the fund so far, and the extent of which was not foreseen at its outset. It is also the case that the progression from an idea through to implementation and testing are steps on the way to mainstreaming that necessarily take more than one annual cycle. However, Welsh Government's view is there are projects within the ICF portfolio that have clearly proved their worth, and we are pursuing discussion with the NHS and local government partners about next steps.

Yours sincerely



Dr Andrew Goodall CBE

cc. Matthew Mortlock, WAO
Tracey Burke, Welsh Government
Albert Heaney, Welsh Government
John Howells, Welsh Government

David Richards, Welsh Government
Alan Brace, Welsh Government
Matthew Jenkins, Welsh Government
Shelley Davies, Welsh Government
Carla Lyne, Welsh Government
Joanna Jordan, Welsh Government